Dogfen ir Cyhoedd

**R H A G L E N**

1 **PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU** (Tudalennau 1 - 82)

This page is intentionally left blank

POLICE AND CRIME PANEL
PANEL HEDDLU A THROSEDD

**Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

Dydd Mawrth 2 Chwefror 2021 at 2.00 pm
Gyfarfod Rhithiol

# RHAGLEN

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

2. **Datgan cysylltiad: Cod Ymddygiad Llywodraeth Leol**

   Caiff yr Aelodau eu hatgoffa bod yn rhaid iddynt ddatgan **bodolaeth** a **natur** eu cysylltiadau personol.

3. **Materion Brys**

   Rhybudd o faterion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4. **Cyhoeddiadau gan y Cadeirydd**

5. **Cofnodion** (Tudalennau 3 - 16)

   Cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir

6. **Eitemau Sefydlog ar y Rhaglen**

   **a)** Diweddariad ar gamau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol

   **b)** Cwestiynau i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd

   *(Cyflwynwyd yn unol â'r weithdrefn ar gyfer Cwestiynau i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd)*

   **c)** Adborth gan Aelodau sy'n Gefnogwyr

7. **Ystyried adroddiadau gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

   **a)** Praesept a Threth y Cyngor 2021/22 (Tudalennau 17 - 37)

   **b)** Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru - Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2021-22 i 2025-26 (Tudalennau 38 - 79)

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

8. **Ystyried adroddiadau gan yr Awdurdod Cynnal**

**a)** Ceisio dirprwy i eistedd ar Is-Bwyllgor Cwynion y Panel Heddlu a Throsedd

**b)** Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (Tudalennau 80 - 81)

9. **Dyddiad y cyfarfod nesaf**

- Dydd Llun, 8 Chwefror 2021 @ 11.00 am (Os bydd pleidlais atal y praesept)
- Dydd Llun, 22 Mawrth 2021 am 2.00pm (ar gyfer busnes statudol yn unig)

Aelodau'r Panel

| | |
|---|---|
| Cyng Dana Davies | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng Andrew Dunbobbin | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng Alan Hunter | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng Hugh Irving | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyng Eric Jones | Cyngor Gwynedd |
| Cyng Edgar Wyn Owen | Cyngor Gwynedd |
| Cyng Roger Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng Dylan Rees | Cyngor Sir Ynys Mon |
| Cyng Nigel Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng Arnold Woolley Dip.IM, MCMI | Cyngor Sir y Fflint |
| Pat Astbury (Cadeirydd) | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |
| William John Williams (Is-Gadeirydd) | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |

Sylwch: Yn sgil y cyfyngiadau presennol ar deithio, a'r angen i gadw pellter cymdeithasol, ni fydd y cyfarfod hwn yn cael ei gynnal yn ei leoliad arferol. Yn hytrach bydd yn gyfarfod rhithiol. Bydd y cyfarfod yn cael ei recordio i'w ddarlledu'n fyw neu ei ddarlledu wedyn ar wefan y Cyngor.

# PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Dydd Llun 14 Rhagfyr 2020, Dydd Llun 14 Rhagfyr 2020 at 2.00 pm
Gyfarfod Rhithiol

| | |
|---|---|
| Present: | Patricia Astbury (Cadeirydd)<br><br>Councillors: Dana Davies, Andy Dunbobbin, Alan Hunter, Hugh Irving, Eric Jones, Edgar Wyn Owen, Roger Parry, Dylan Rees, Nigel Williams a Arnold Woolley |
| Lay Member/ Co-opted Member | John Williams (Is-Gadeirydd) |
| In Attendance: | Carl Foulkes (Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru, Stephen Hughes (Prif Weithredwr, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (OPCC)), Kate Jackson (Prif Swyddog Cyllid, OPCC), Arfon Jones (Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru), and Rhian Rees Roberts (Swyddog Craffu a Polisi, OPCC) |
| Officers: | Dawn Hughes (Swyddog Gwasanaethau Craffu a Phwyllgorau) a Richard Jarvis (Cyfreithiwr) |

19. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan Matthew Forbes.

20. **DATGAN CYSYLLTIAD: COD YMDDYGIAD LLYWODRAETH LEOL**

Datganodd y Cynghorydd Arnold Woolley (Cyngor Sir y Fflint) gysylltiad personol, gan ei fod yn aelod o gangen y Fflint o Gymdeithas Genedlaethol Swyddogion yr Heddlu sydd wedi Ymddeol, Cymdeithas Ryngwladol yr Heddlu ac yn gydlynydd i Dîm Gwylio Cyflymder Cymuned Bwcle, dan oruchwyliaeth Heddlu Gogledd Cymru, Llanelwy.

21. **MATERION BRYS**

Dim.

22. **CYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD**

Roedd y Cadeirydd yn estyn ei chydymdeimlad ar ran y Panel Heddlu a Throsedd gyda Mr  Arfon Jones (Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd) gan fod ei fam wedi marw yn ddiweddar.

Yn ogystal, roedd y Cadeirydd yn llongyfarch y Prif Gwnstabl Carl Foulkes, oedd wedi'i gydnabod yn Rhestr o Anrhydeddau'r Frenhines yn ddiweddar ac wedi derbyn Medal yr Heddlu gan y Frenhines.

Hefyd, llongyfarchwyd PC Gerallt Williams a PC Liam Morris oedd wedi derbyn Canmoliaeth gan yr Uwcharolygydd am achub bywyd dyn.

Roedd y Cadeirydd hefyd yn talu teyrnged i Aelod blaenorol ar y Panel, y Cynghorydd Charles Wyn Jones oedd wedi marw yn ddiweddar. Byddai'r Swyddog Gwasanaethau Pwyllgorau a Chraffu yn anfon llythyr o gydymdeimlad at deulu y diweddar Gynghorydd Jones.

23. **CYFLWYNIAD GAN CARL FOULKES, PRIF GWNSTABL HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

Roedd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru wedi gwahodd y Prif Gwnstabl Carl Foulkes i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar blismona yng Ngogledd Cymru am y 12 mis diwethaf.

Oherwydd y pandemig, mae'r 12 mis diwethaf wedi bod yn flwyddyn anodd i bawb a diolchwyd i'r Panel Heddlu a Throsedd am eu cefnogaeth barhaus, a groesawyd gan Heddlu Gogledd Cymru yn ystod y cyfnod digynsail hwn.

Darparodd y Prif Gwnstabl gyflwyniad, oedd yn cynnwys y meysydd canlynol:

- Gweledigaeth – roedd yr Heddlu wedi gweithio'n galed i alinio blaenoriaethau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd gyda gweledigaeth Heddlu Gogledd Cymru – gan wneud Gogledd Cymru y lle mwyaf diogel yn y DU.
- Lles Staff:
  - Roedd pwysigrwydd lles staff yn flaenoriaeth uchel i'r Prif Gwnstabl ac roedd Strategaeth a Thîm Iechyd a Lles wedi'i sefydlu i gefnogi staff.
  - Roedd arolwg staff wedi'i gynnal ac roedd yr Heddlu yn ystyried mynd i'r afael â'r materion a nodwyd.
  - Roedd arolwg cyflog a morâl wedi'i gynnal gan y Ffederasiwn ac roedd wedi nodi fod yr Heddlu yn gwneud yn well na'r rhan fwyaf o luoedd yn y DU.
  - Roedd absenoldeb salwch wedi gostwng.
- Roedd Technoleg Ddigidol yn faes blaenoriaeth arall ar gyfer buddsoddiad:
  - Roedd dros 900 o liniaduron wedi eu rhoi i staff i'w galluogi i weithio'n hyblyg yn ystod y pandemig.
  - Roedd y nifer o ddilynwyr ar gyfryngau cymdeithasol wedi cynyddu'n sylweddol.
  - Roedd Fideos i'w Gwisgo ar y Corff wedi eu cyflwyno i holl staff rheng flaen.
- Datrys problemau:
  - Ymgorffori diwylliant o ddatrys problemau ar bob lefel.
  - Hyfforddiant ar Brofiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod wedi'i gynnal gyda Swyddogion.
- 12 mis diwethaf:
  - Roedd adborth gan gymunedau dros y flwyddyn ddiwethaf yn amlygu bod 70% o'r cyhoedd yn teimlo fod gan Heddlu Gogledd

Cymru y cydbwysedd iawn rhwng ymgysylltu a gorfodi; gydag 84% yn cefnogi'r camau a gymerir gan yr Heddlu.
Fodd bynnag, roedd yna symud tuag at fwy o orfodi wrth i'r pandemig barhau.
- Covid – 582 o rybuddion cosb benodedig wedi eu cyflwyno, gyda dau ddirwy £10mil wedi eu cyflwyno ar gyfer digwyddiadau cerddoriaeth anghyfreithiol.
- Covid-19 ym Mhencadlys yr Heddlu gyda nifer o staff yn gorfod hunan-ynysu.
Desg Iechyd Adnoddau Dynol wedi ei sefydlu i ddarparu cefnogaeth ac arweiniad i staff.
- 800 o staff yn gweithio gartref, gydag oddeutu 35% yn gweithio ym Mhencadlys yr Heddlu.
- Perthynas waith dda gyda Llywodraeth Cymru yn ystod y pandemig, er nad oedd plismona wedi'i ddatganoli.

- Plismona lleol – roedd y Prif Gwnstabl wedi amlygu nifer o weithredoedd plismona llwyddiannus ar draws rhanbarth y Dwyrain, y Gorllewin a Chanol Gogledd Cymru.
  - Gweithle presennol:
    1592 Swyddog, oddeutu 200 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, 177 o Heddlu Gwirfoddol, 150 o Wirfoddolwyr a 1100 o Staff.
  - Rhanbarth y Gorllewin:
    54 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a 18 o Swyddogion Plismona Cymdogaeth penodol.
  - Rhanbarth y Canol:
    54 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a 38 o Swyddogion Plismona Cymdogaeth penodol.
  - Rhanbarth y Dwyrain:
    76 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a 25 o Swyddogion Plismona Cymdogaeth penodol.
  - Yn ogystal â'r uchod, roedd yna Dîm Ymateb yn cefnogi pob rhanbarth.
  - Roedd y Rhaglen Gwelliant Gweithredol, oedd wedi cyflwyno patrwm sifft newydd yn profi'n llwyddiannus, yn arbennig mewn perthynas â lles staff, yn ogystal â chyflawni arbedion costau.
- Perfformiad:
  - Safonau ymchwiliadau:
    Gweithgor wedi'i sefydlu i edrych ar y broses cyfiawnder troseddol.
  - Hyder y cyhoedd wedi cynyddu o 88% i 93%.
  - Canlyniadau cadarnhaol i ddioddefwyr cam-drin domestig.
  - Roedd trosedd 10% yn is na'r llynedd, gyda gostyngiadau sylweddol mewn bwrgleriaeth a throsedd.
    Fodd bynnag, roedd yna gynnydd wedi bod mewn trosedd stelcian ac aflonyddu.
  - Roedd yr Heddlu yn rhagweld cynnydd mewn trosedd seiber ddigidol, felly roedd y Timau Twyll a Seiber wedi eu huno i greu un canolbwynt.
  - Arolygiadau HMIC:
    Wedi eu graddio'n dda ar draws y sefydliad yn dilyn asesiad PEEL blynyddol. Fodd bynnag, wrth symud ymlaen, byddai

asesiadau yn edrych ar ganlyniadau a gellir cyflwyno mesurau targed.

- Cynllunio Sefydliadol, Cyllid, Ystadau – byddai'r Dirprwy Brif Gwnstabl yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn y dyfodol.
    - Proses gynllunio dda ar waith ac roedd yn adeiladu ar gryfderau'r PRP.
    - Cynlluniau busnes wedi eu cyflwyno.
    - Edrych ar y risg, bygythiad, niwed a'r galw.
    - Yr angen i edrych y tu hwnt i gylch 12 mis.
- Cyd-destun ariannol 2021/22:
    - Roedd disgwyl i Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant ddarparu rhagolwg 3 blynedd, fodd bynnag, roedd Datganiad yr Hydref yn darparu rhagolwg blwyddyn yn unig, a disgwylir grant plismona arian gwastad.
    - Roedd rhaglen cynnydd mewn Swyddogion yr Heddlu wedi'i ail-alinio ac roedd yr heddlu yn disgwyl cynnydd o 62/65 o swyddogion ychwanegol.
    - COVID – costau PPE wedi eu hadennill.
    - Cynnydd rhagweledig o 2.5% mewn tâl wedi'i ragweld ar gyfer 2021; fodd bynnag, yn dilyn cyhoeddiad y Llywodraeth, ni fyddai yna gynnydd mewn cyflog i weithwyr sector cyhoeddus.
- Rhwydweithiau Gwasanaeth Brys y Swyddfa Gartref:
    - Rhaglen heriol a chymhleth i ddisodli'r system Airwave, gyda rhai risgiau sylweddol, amserlenni a chostau.
    - Roedd materion ariannol yn cynnwys costau di-graidd (dyfeisiau, trosglwyddo, data a thaliadau galwadau) i'w hariannu'n lleol; costau cyfalaf £7.2 miliwn a chostau refeniw dros 5 mlynedd o £2.6 miliwn.
    - Roedd materion allweddol yn cynnwys:
      dyfeisiau cwmpas (profi a bylchau), llywodraethu lleol; trawsnewid a dibyniaeth.
- Strategaeth Ystadau:
    - Byddai Gorsaf Heddlu Pwllheli yn gwbl weithredol ym mis Ionawr 2021.
    - Edrych ar ddisodli Gorsaf Heddlu Caergybi, gan weithio gyda'r Awdurdod Lleol.
    - Gweithio gyda'r Panel Heddlu a Throsedd ynglŷn â chyfleoedd ar gyfer Canolfan Comisiynu Cerbydau a'r Gynghrair Arfog, gan fod y safle presennol ar brydles ac wedi'i gyfyngu o ran amser.
    - Prosiect Gweithle Digidol – o ganlyniad i'r pandemig, yn adolygu arferion gwaith, ar gyfer gweithlu mwy hyblyg.
- Rhwydwaith Ymchwiliad Gwrthdrawiad Fforensig (RhYGFf):
    - Rheoleiddwyr yn dymuno cael dull clir a chyson ar draws y 43 Heddlu.
    - Heddlu Gogledd Cymru yn arwain ar y prosiect a bydd yr Heddlu cyntaf i ennill achrediad FCI.
- Amrywiaeth
    - Llawer iawn o waith wedi'i wneud ar gefn y Rhaglen Cynnydd i geisio gwneud yr Heddlu mor gynrychiadol â'r cymunedau mae'n eu gwasanaethu.

- Buddsoddi mewn Tîm Gweithredu Cadarnhaol, oedd wedi gweld cynnydd yn lefel y ceisiadau gan gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a merched.
- Roed cynnydd yn y nifer sy'n siarad Cymraeg
- Roedd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi comisiynu gwaith ar ganllawiau stopio a chwilio.
- Er bod trosedd wedi gostwng yn gyffredinol, roedd Trosedd Casineb yn gyffredinol yr un fath â'r llynedd, gyda chynnydd mewn trosedd trawsffobig ac anabledd.
- Parhau i herio trosedd cyfryngau cymdeithasol ar-lein a gweithio gyda llwyfannau cyfryngau cymdeithasol.
- Adolygu dulliau ar gyfer Trosedd Casineb ar hyn o bryd wrth iddo gynyddu.
- Roedd yr Heddlu yn cefnogi Swyddogion oedd hefyd yn dioddef camdriniaeth ar-lein.

* Digidol a Seiber:
  - Maes cymhleth a heriol ar gyfer y dyfodol.
  - Angen buddsoddiad i sicrhau'r hyfforddiant iawn, staffio ac arbenigedd.
  - Twyll grant COVID ar gynnydd yn genedlaethol.
  - Twyll banc - £100 mil wedi'i adfer yn lleol yn y 6 mis diwethaf.
* Atal, Dilyn, Diogelu a Datrys Problem:
  - Plismona ffyrdd:
    Y rhai hynny a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol yn fras yr un lefelau â'r llynedd, ond gwelwyd cynnydd mewn goryrru a phrofion cyffuriau positif yn ystod y pandemig.
  - Heddlu Gogledd Cymru yn gweithio gyda:
    McDonalds i dargedu gyrwyr ifanc; Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r camau 20 mya; a'r Gymuned Feicio i gadw beicwyr yn ddiogel.
  - Roedd y Tîm Rhyng-gipio wedi helpu i blismona ffyrdd a ffiniau yn ystod y pandemig ac wedi llwyddo i adfer £1.3miliwn mewn cyffuriau ac arian - gan atal 130 cysylltiedig â throsedd a 120 cysylltiedig â throsedd ceir.
* Amddiffyn:
  - Camfanteisio'n Rhywiol Ar Blant a Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant ar-lein yn parhau'n fygythiad sylweddol.
  - Gorchymyn Caethwasiaeth Cyntaf wedi'i gyflwyno yng Nghymru yn ymwneud ag ymchwiliad i gam-fanteisio ar blant ifanc.
  - Cynnydd sylweddol mewn stelcio ac aflonyddu ar-lein
  - Troseddau rhywiol wedi gweld 10% o gynnydd, a oedd wedi eu seiber alluogi.
  - Pwysigrwydd addysgu plant a chyfeirio.
  - Roedd y nifer o droseddau rhywiol a gofnodwyd yng Ngogledd Cymru yn ymddangos yn uwch nag ardaloedd Heddlu eraill; fodd bynnag, yn dilyn nifer o adolygiadau mewnol ac allanol, roedd y Prif Gwnstabl wedi sicrhau'r Panel Heddlu a Throsedd nad oedd hyn yn gysylltiedig â daearyddiaeth na demograffeg ac roedd yn debyg o fod o ganlyniad i systemau cofnodi gwell a gweithredoedd plismona llwyddiannus.
  - Troseddau rhywiol hanesyddol:
    Gweithrediad Pallial a Lenton, tra'n weithrediadau anodd, wedi arwain at nifer sylweddol o euogfarnau.

- Llinellau Sirol:
  - Roedd y nifer o Linellau Sirol wedi gostwng oherwydd llwyddiant Gweithrediadau Cenedlaethol, Rhanbarthol a Lleol

Diolchodd y Panel Heddlu a Throsedd i'r Prif Gwnstabl am y wybodaeth ddiweddaraf gan godi'r materion canlynol:

- Roedd Aelod o'r Panel Heddlu a Throsedd ac Aelod lleol Prestatyn yn siomedig nad oedd y Prif Gwnstabl wedi cyfeirio at y posibilrwydd o orsaf heddlu newydd yng nghanol tref Prestatyn o fewn ei gyflwyniad – roedd yr Heddlu yn rhannu eiddo gyda'r Gwasanaeth Tân ar hyn o bryd.
- Costau yn ymwneud â gweinyddu profion gyrru ar gyffuriau ac a ellir dilyn y costau hyn drwy'r llysoedd.
  - Dywedodd y Prif Gwnstabl fod y costau yn ymwneud â'r angen am ddadansoddiad fforensig o'r profion ac nid oedd costau yn cael eu hadfer ar hyn o bryd.
- Hyfforddiant ar Gam-Drin Domestig, a ohiriwyd oherwydd y pandemig a chostau cysylltiedig.
  - Dywedodd y Prif Gwnstabl fod amserlenni hyfforddiant yn y broses o ailddechrau ble bo'n bosibl.
  - Byddai'r hyfforddiant yn cael ei ddarparu gan drydydd parti a byddai'r Panel Heddlu a Throsedd yn cael gwybod am y costau yn unol â hynny.
- A fyddai'r nifer o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn cynyddu oherwydd y Rhaglen Gynnydd?
  - Mewn ymateb, hysbyswyd y Panel Heddlu a Throsedd bod cyllid ar gyfer Swyddogion Heddlu nid staff cymorth.
- Adolygu Strategaeth Ystadau
  - Oherwydd y pandemig, dywedodd y Prif Gwnstabl y byddai adolygiad pellach o'r Strategaeth yn cael ei gynnal i ddeall buddion gweithio hyblyg.
- Pryderon am effaith y Rhaglen Rhwydwaith Gwasanaethau Brys ar gyllideb plismona a pha un a ddylai Panel yr Heddlu a Throsedd anfon sylwadau at y Swyddfa Gartref.
  - Hysbysodd Swyddog Arweiniol ac Ymgynghorydd Cyfreithiol y Panel Heddlu a Throsedd fod y Gymdeithas Genedlaethol Panel Heddlu, Tân a Throsedd wedi ysgrifennu at y Swyddfa Gartref ar ran y Paneli Heddlu a Throsedd mewn perthynas â'r Rhaglen Rhwydwaith Gwasanaethau Brys.

- Adolygiad o lwyfannau TG a ddefnyddir gan yr Heddlu i gyfathrebu'n allanol i sicrhau gohebiaeth effeithiol.
  - Bydd y Prif Gwnstabl yn trafod ymhellach gyda'r Heddlu, fodd bynnag, oherwydd materion diogelwch gwnaed penderfyniad yn genedlaethol i beidio defnyddio rhai llwyfannau TG.
- Manteision uno'r Tîm Twyll a Seiber i greu un Tîm ac alinio gydag Action Fraud, canolfan adrodd genedlaethol y DU.
- Cyfeiriwyd at gasineb at wragedd a sefyllfa'r Heddlu mewn perthynas â'r mater hwn.

- Dywedodd y Prif Gwnstabl fod Comisiwn y Gyfraith yn codi cwestiynau pa un a ddylai rhyw gael ei ddiogelu o dan drosedd casineb.

- Diolchwyd i'r Heddlu a'r Tîm Rhyng-Gipio am y gwaith a wnaed ganddynt yn ystod y pandemig.
  - Byddai adroddiadau pellach yn cael eu darparu i'r Panel Heddlu a Throsedd ar waith y Tîm Rhyng-Gipio a Drôn yn y diweddariad y flwyddyn nesaf.
- Delio gyda throseddau sy'n ymwneud â Covid.
  - Eglurodd y Prif Gwnstabl fod yr Heddlu wedi mabwysiadu dull - Ymgysylltu, Egluro, Annog a Gorfodi.
    Fodd bynnag, wrth i'r pandemig barhau, roedd yr Heddlu yn symud tuag at y cam gorfodi yn llawer cynt.
- Cyfeiriwyd at fwrgleriaeth drwy dynnu sylw a pha un a oedd hyn yn fater yn ystod y pandemig.
  - Dywedodd y Prif Gwnstabl nad oedd yn meddwl ei fod yn fater, ond byddai angen gwirio ymhellach.
- Ystadegau cosb benodedig a pha un a oedd y Rhybuddion Cosb Benodedig yn cael eu talu.
  - Dywedodd y Prif Gwnstabl y byddai'n gallu rhannu'r ystadegau gyda'r Panel Heddlu a Throsedd.
- Cynllun Cyfeillio, oedd yn helpu i gefnogi recriwtio o gefndiroedd du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.
  - Hysbyswyd y Panel Heddlu a Throsedd bod yr holl gefnogwyr cyfeillio yn gydweithwyr oedd yn newydd i'r Heddlu.
- trosedd casineb ar-lein a'r canlyniadau i'r sawl sy'n cyflawni trosedd.
- Cyfeiriwyd at ddigwyddiad yng nghanol tref Bwcle yn ddiweddar; gofynnodd y Prif Gwnstabl am fwy o fanylion am y digwyddiad fel y gallai edrych i mewn i'r mater.

**PENDERFYNWYD:**
**Nodi'r cyflwyniad.**

24. **COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 28 Medi 2020 i'w cymeradwyo.

**PENDERFYNWYD:**
**Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 28 Medi 2020.**

25. **DIWEDDARIAD AR GAMAU GWEITHREDU O'R CYFARFOD BLAENOROL**

Roedd diweddariad ar y camau ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd wedi'i gynnwys o fewn adroddiad diweddariad Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

26. **CWESTIYNAU I'R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD**



Dim.

27. **ADBORTH GAN AELODAU SY'N GEFNOGWYR**

Cefnogwr Trosedd a Drefnwyd a Thrais Domestig

Dywedodd John Williams (Is-Gadeirydd) ei fod wedi siarad gyda Swyddogion yn swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd mewn perthynas â Rôl Aelod sy'n Gefnogwr Trais Domestig (a benodwyd yn ddiweddar) ac roedd canllaw yn cael ei baratoi mewn perthynas â rôl Swyddogion Cam-Drin Domestig a Swyddogion Cam-Drin Domestig Annibynnol.

Cefnogwr Darparu Cymdogaethau Diogelach

Dywedodd y Cynghorydd Hugh Irving fod ganddo gyfarfod wedi'i drefnu gyda swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd i drafod diweddariad ar gyfer y cyfarfod, fodd bynnag, oherwydd yr angen am lawdriniaeth clun bu'n rhaid canslo'r cyfarfod.

Cefnogwr Caethwasiaeth Fodern a Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant

Cyfeiriodd Pat Astbury (Cadeirydd) at y Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio newydd a sefydlwyd, o dan gadeiryddiaeth Prif Weithredwr, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd. Dywedodd y Prif Weithredwr fod y Bwrdd yn datblygu Strategeth ar hyn o bryd, fyddai'n cael ei rhannu gyda'r Panel Heddlu a Throsedd pan fo'n briodol.

Hefyd, hysbyswyd y Panel Heddlu a Throsedd fod £3 mil ar gael ar gyfer y Rhaglen Caethwasiaeth Fodern Trosedd Mewnfudo a Drefnwyd, a ddefnyddir i godi ymwybyddiaeth a thargedu atal mewn perthynas â Chaethwasiaeth Fodern.

Hefyd, cyfeiriwyd at Gyfweliadau Dychwelyd Gartref a'r gwahaniaeth mewn trefniadau Awdurdodau Lleol ar gyfer darparu'r cyfweliadau hyn ar gyfer plant sydd ar goll.

Cefnogwr Cyllid

Diolchodd y Cynghorydd Dana Davies i'r Prif Swyddog Cyllid am y gwaith a wnaed ganddi i sicrhau fod y Cynghorydd Davies yn derbyn brîff ar faterion ariannol cyn cyfarfodydd y Panel Heddlu a Throsedd.

Yn dilyn y pryder a amlygwyd yng Nghofnod 23 uchod yn ymwneud â'r rhaglen Rhwydwaith Gwasanaethau Brys, gofynnodd y Cynghorydd Davies i lythyr ar y cyd gan y Panel Heddlu a Throsedd a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gael ei anfon i'r Swyddfa Gartref, yn mynegi pryder am gostau a thechnoleg yn ymwneud â'r rhaglen Rhwydwaith Gwasanaethau Brys.

**PENDERFYNWYD:**

**Bod llythyr ar y cyd gan y Panel Heddlu a Throsedd a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn cael ei anfon i'r Swyddfa Gartref yn ymwneud â'r Rhaglen Rhwydwaith Gwasanaethau Brys.**

28. **DIWEDDARIAD CYFNODOL GAN GOMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynwyd diweddariad rheolaidd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd rhwng 1 Medi 2020 ac 15 Tachwedd 2020 i Banel yr Heddlu a Throsedd.

Er bod y mwyafrif o'r diweddariad wedi'i gynnwys yng nghyflwyniad y Prif Gwnstabl a'r diweddariadau gan yr Aelodau sy'n Gefnogwyr, roedd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi amlygu'r canlynol yn ei adroddiad:

- Roedd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi lansio arolwg ar-lein ar gyfer yr ymgynghoriad blynyddol ar Braesept Treth y Cyngor. Byddai'r arolwg yn cau ar 15 Ionawr 2021.
- Roedd ceisiadau ar gyfer y fenter 'Eich Cymuned Eich Dewis' wedi cau ar 11 Rhagfyr 2020 - £60 mil ar gael i gefnogi grwpiau ar draws holl ardaloedd Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru.
- Roedd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn parhau i dderbyn briffiadau rheolaidd gan y Prif Swyddogion ynglŷn â'r pandemig a'r galw ar blismona.
- Mae gostyngiad o dros 10% o droseddwyr mynych a dioddefwyr mynych o Gam-Drin Domestig hyd yma.
- Roedd troseddau Stelcian ac Aflonyddu wedi gweld cynnydd o 24% yng Ngogledd Cymru rhwng Ebrill a Mehefin 2020. Roedd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi ei gyfweld yn ddiweddar mewn perthynas â'r gwaith a wnaed gan yr Heddlu wrth ddelio gyda stelcian ac aflonyddu a byddai'n rhannu llythyr a anfonodd at yr Arolygiaeth mewn perthynas â hyn.
- Cyfeiriodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd at y cyfrifiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar y nifer o ferched a laddwyd gan ddynion ac awgrymodd bod yr Aelod sy'n Gefnogwr (John Williams) yn edrych ar hyn ymhellach.
- Adolygiad o'r Uned Agored i Niwed a Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant – ymgynghoriad yn cael ei gynnal gyda Phrif Swyddogion.
- Adolygiad o ddata Caethwasiaeth Fodern i sicrhau data effeithiol.
- Grwpiau Trosedd a Drefnwyd – er bod yna ostyngiad yn y nifer o Grwpiau a Gangiau Llinellau Sirol, roedd cyflenwi cyffuriau y math mwyaf cyffredin o droseddolrwydd y Grwpiau Trosedd a Drefnwyd.
- Roedd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd hefyd yn llongyfarch Heddlu Gogledd Cymru yn dilyn digwyddiad yn Wrecsam oedd wedi arwain at erlyn unigolyn.

Roedd y Panel Heddlu a Throsedd yn codi'r canlynol mewn perthynas ag adroddiad diweddariad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd:

- Brexit a'r effaith ar y porthladd yng Nghaergybi.
- Gostyngiad o 9.8% mewn holl drosedd a gofnodwyd yn y flwyddyn hyd yma.
- Byddai'r Panel Heddlu a Throsedd yn disgwyl gweld adroddiadau cynnydd gan y Bwrdd Agored i Niwed a Chamfanteisio o fewn adroddiad diweddariad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.
- Arfer orau mewn perthynas â Chyfweliadau Dychwelyd Gartref

- Byddai'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn trafod hyn ymhellach y tu allan i'r cyfarfod i nodi meysydd o arfer orau.
- Cadarnhaodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd fod yr adroddiad treuliau wedi'i gywiro (un golofn ddim yn gywir) ac ailgyhoeddwyd yn dilyn adroddiad diweddar yn y wasg.
- Penodiad Ymgynghorwyr Recriwtio a pha un a ddylai'r tymor mewn swydd gael ei ymestyn i leihau costau.
  - Mewn ymateb, dywedodd Prif Weithredwr swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd bod y tymor mewn swydd presennol yn 3 blynedd, gyda dewis i ymestyn i fwyafswm o 10 mlynedd; fodd bynnag, byddai Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu yn edrych ar fanteision ymestyn y tymor mewn swydd gwreiddiol.
- Gwerthuso rhaglen Checkpoint Cymru.
  - Er bod y rhaglen yn perfformio'n dda yn gyffredinol, nid oedd yn cyflawni'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol.
    Er bod gwerthusiad cychwynnol wedi'i gynnal, gobeithio y byddai adolygiad gan gymheiriaid yn cael ei gynnal gan Durham i ddeall budd y rhaglen.
- Prosiect peilot yn defnyddio'r chwistrell Naloxone.
  - Dywedodd y Prif Gwnstabl nad oedd y chwistrell wedi'i ddefnyddio eto gan Swyddogion.

**PENDERFYNWYD:**
**Nodi'r adroddiad.**

29. **DIWEDDARIAD AR GYLLIDEB 2020/21 FEL Y SAIF AR 31 HYDREF 2020**

Rhoddodd y Prif Swyddog Cyllid (Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (SCHTh) y wybodaeth ddiweddaraf i'r Panel Heddlu a Throsedd ar gyllideb plismona 2020/21 hyd at 31 Hydref 2020.

Roedd yr adroddiad yn darparu:

- Cadarnhad am gwblhau'r Datganiad Cyfrifon am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020.
- Diweddariad ar y gyllideb blismona ar gyfer Gogledd Cymru fel y saif ar 31 Hydref 2020.
- Diweddariad ar gostau a chyllid Covid-19.
- Gwybodaeth am y broses cynllunio'r gyllideb ar gyfer 2021/22.

Roedd y Prif Swyddog Cyllid yn amlygu'r canlynol:

- Roedd y Datganiad Cyfrifon wedi'i gymeradwyo ar 7 Hydref 2020 a'i gyhoeddi ar wefan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.
- Roedd cyflwyniad byr ar y cyfrifon wedi'i baratoi, yn unol â chais y Cyd-bwyllgor Archwilio ac roedd ar gael ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.
- Cyllideb 2020/21
  - Ar ddiwedd Hydref 2020, roedd yna danwariant refeniw a ragwelwyd yn £1.383 miliwn, er bod hwn yn danwariant

sylweddol, roedd rhai gweithgareddau fel hyfforddiant wedi'i ohirio oherwydd y pandemig ac felly'r bwriad oedd clustondi'r tanwariant at y diben hwnnw.

- COVID 19
  - Roedd costau ychwanegol yn ymwneud â'r pandemig yn gyfanswm o £1.362 miliwn.
  - Roedd arian grant wedi'i dderbyn ar gyfer holl gostau PPE a chyfran o incwm, fodd bynnag, byddai'n rhaid diwallu gweddill y costau yn y gyllideb neu arian wrth gefn yn ystod y flwyddyn.
  - Roedd y pandemig wedi effeithio ar gynnydd y Rhaglen Gyfalaf ac felly roedd £4.1 miliwn wedi'i ail-broffilio ar gyfer blynyddoedd yn y dyfodol.
- Proses Cynllunio Cyllideb ar gyfer 2021/22
  - Roedd Cynllunio Adnoddau Blaenoriaeth yn cael ei gynnal ar hyn o bryd i restru pwysigrwydd gweithgareddau.
  - Gan fod cyfarfodydd nawr yn cael eu cynnal ar-lein, roedd trafodaeth o ran y broses cynllunio'r gyllideb wedi bod yn fwy cydweithredol gyda rheolwyr yn cefnogi ei gilydd ac yn gweithio drwy atebion gyda'i gilydd.

Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid er nad oedd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn gallu dangos sut y byddai praesept Treth y Cyngor a Gwasanaethau yn edrych nes byddai'r setliad dros dro yn cael ei gyhoeddi, sicrhawyd y Panel Heddlu a Throsedd bod y broses yn drwyadl, cadarn a theg.

Wrth graffu ar yr adroddiad, cododd Panel yr Heddlu a Throsedd y pwyntiau canlynol:

- Roedd yna bryder bod trydedd rhan o'r costau yn ymwneud â'r pandemig yn gorfod dod o fewn cyllideb yr Heddlu.
- Costau cysylltiedig â'r rhaglen Rhwydwaith Gwasanaethau Brys a'r effaith ar y gyllideb os nad oedd y costau wedi eu cynnwys gan y grant.
- Costau cysylltiol â phensiynau a chofrestriad awto.
  - Dywedodd y Prif Swyddog Cyllid fod y costau cysylltiol â'r cofrestriad awto oddeutu £0.5miliwn y flwyddyn; fodd bynnag, roedd hyn y peth cywir i'w wneud, beth bynnag fo'r gost.
  - Roedd yna ansicrwydd pa un a fyddai'r grant pensiwn yn cael ei gynnwys yn y setliad 'arian gwastad'.
  - Byddai'r dyfarniad McCloud yn cynyddu costau yn y dyfodol, ac os byddai'r gyfradd gostyngiad yn cael ei ostwng byddai cyfraniadau'r cyflogwr yn cynyddu.
- Fframwaith Cymhwyster Addysg yr Heddlu ac Ardoll Brentisiaethau.
  - Roedd 0.5% o gyflogres Heddlu Gogledd Cymru yn cael ei dalu i Drysorlys ei Mawrhydi ar gyfer yr ardoll ar hyn o bryd.
    Yn Lloegr, roedd gan bob cyflogwr gronfa, y gallent ei defnyddio ar gyfer hyfforddiant a gymeradwywyd ac roedd Heddlu Lloegr wedi ethol i neilltuo eu cronfeydd ardoll i'r Coleg Plismona i dalu am hyfforddiant. Fodd bynnag, yng Nghymru roedd Llywodraeth Cymru yn rhoi arian ar gyfer hyfforddiant prentisiaeth (wrth i hyfforddiant ac addysg gael ei ddatganoli) ond ni fu unrhyw

gyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â faint (os o gwbl) fyddai'n cael ei wario ar blismona (nad oedd wedi'i ddatganoli). Felly, roedd holl hyfforddiant yr heddlu yng Nghymru yn gorfod cael ei ariannu o'r gyllideb Comisiynydd Heddlu a Throsedd/Heddlu yn ogystal â thalu'r ardoll brentisiaethau.

- Roedd yna bryder bod arian wrth gefn yn cael ei ddefnyddio i gydbwyso'r gyllideb.
  - Eglurodd y Prif Swyddog Cyllid bod y gyllideb flynyddol wedi'i gosod i sicrhau bod yna ddigon o adnoddau ar gael a bod arian wrth gefn yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd wedi'i gynllunio, fel gwariant cyfalaf a buddsoddiad arall i ganiatáu ar gyfer gwariant afreolaidd rhwng blynyddoedd (e.e. hyfforddiant wedi'i ohirio eleni oherwydd y pandemig).
  - Nid oedd arian wrth gefn yn cael ei ddefnyddio yn gyffredinol i gydbwyso'r gyllideb ac nid oedd arian wrth gefn yn cael ei ddefnyddio i leihau'r praesept Treth y Cyngor.
    Os byddai arian ychwanegol yn ofynnol, byddai'r praesept yn cael ei gynyddu yn unol â hynny neu byddai angen dod o hyd i arbedion.

Diolchodd y Panel Heddlu a Throsedd i'r Prif Swyddog Cyllid am yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD:**
**Nodi'r adroddiad.**

30. **PANEL YR HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU – ADRODDIAD MONITRO CANOL BLWYDDYN: 1 EBRILL 2020 TAN 30 MEDI 2020**

Rhoddodd y Swyddog Arweiniol ac Ymgynghorydd Cyfreithiol adroddiad monitro cyllideb chwe mis i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru am y cyfnod 1 Ebrill 2020 hyd at 30 Medi 2020.

Roedd yr adroddiad canol blwyddyn yn rhoi gwybodaeth i'r Panel Heddlu a Throsedd ar y defnydd o grant y Panel Heddlu a Throsedd a chynnydd yn erbyn ffactorau llwyddiant hanfodol i gyflawni deilliannau, targedau a gwerth am arian.

Roedd y Swyddog Arweiniol/Ymgynghorydd Cyfreithiol yn amlygu cynnydd yn erbyn y ffactorau llwyddiant hanfodol fel a ganlyn:

- Oherwydd y pandemig, cynhaliwyd un cyfarfod ffurfiol yn ystod y cyfnod adrodd, gyda dau gyfarfod 'dal i fyny' anffurfiol wedi'u cynnal yn ystod y cyfnod adrodd.
- Cyfarfu'r Is-bwyllgor Cwynion ar ddau achlysur i ystyried cwyn yn erbyn Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.
- Roedd Panel yr Heddlu a Throsedd wedi cynhyrchu adroddiad yn ymwneud â Threuliau a Lwfansau Aelodau ac wedi cynhyrchu ymateb i ymgynghoriad y Swyddfa Gartref ar yr adolygiad o rôl Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd.

- Roedd Aelodau sy'n Gefnogwyr wedi parhau yn eu rolau yn ystod y pandemig, gan gysylltu â'r Prif Weithredwr neu Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd fel bo'n briodol.
- Roedd Aelodau'r Panel yn parhau i gyflwyno cwestiynau i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn ystod y pandemig oedd wedi arwain at Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn darparu ymateb cynhwysfawr a manwl.
- Roedd y Panel Heddlu a Throsedd wedi ymuno â Phaneli Cymdeithas Genedlaethol yr Heddlu, Tân a Throsedd ac roedd y Cadeirydd wedi derbyn gwahoddiad i fod yn arsylwr ar y Pwyllgor Gwaith.
- Byddai gwariant ar gyfer y cyfnod nesaf yn cynnwys mynychu cynhadledd genedlaethol ar gyfer Aelodau'r Panel; mynychu 2/3 Cyfarfod Panel; a'r gofyniad i ymateb i ran dau o ymgynghoriad y Swyddfa Gartref i rôl Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Awdurdod Cynnal am yr adroddiad a gofynnodd pam nad oedd rhai Paneli Heddlu a Throsedd yn hawlio'r grant llawn.

Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog Arweiniol ac Ymgynghorydd Cyfreithiol wrth y Panel Heddlu a Throsedd fod y darlun yn amrywio'n genedlaethol, gan fod gan rhai Paneli Heddlu a Throsedd gyllidebau llawer mwy, gan eu bod yn cynnwys cyfraniadau Awdurdod Lleol; fodd bynnag, oherwydd y modd y sefydlwyd Paneli Heddlu a Throsedd yng Nghymru, nid oedd hyn yn cael ei ganiatáu.

**PENDERFYNWYD:**

**(a) Nodi'r adroddiad monitro blynyddol ar gyfer 2020/21 a chynnydd sydd wedi'i wneud yn erbyn y ffactorau llwyddiant hanfodol.**

**(b) Bod y Panel Heddlu a Throsedd yn cydnabod bod Swyddogion yn monitro ac yn olrhain gwariant yn erbyn cyllidebau cytunedig i sicrhau gwerth am arian.**

31. **CRYNODEB O GWYNION A DDERBYNIWYD RHWNG MIS MEDI 2019 A MIS MEDI 2020**

Rhoddodd y Swyddog Arweiniol ac Ymgynghorydd Cyfreithiol Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru grynodeb o gwynion a gafwyd am y Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Derbyniodd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru un gwyn gofnodadwy yn erbyn y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ystod y cyfnod, a bydd y canlyniad yn cael ei adrodd yn yr adroddiad nesaf gan mai ar 9 Tachwedd 2020 y daeth y mater i ben.

Gan fod gan yr Is-bwyllgor Cwynion awdurdod dirprwyedig i ddelio â bodolaeth, categoreiddiad a phenderfyniad cwynion, nid yw aelodau eraill o'r Panel yn cael gwybod am gwynion tan eu bod yn derbyn yr Adroddiad Cwynion Blynyddol (oni bai ei fod er budd y cyhoedd neu ei fod mor bwysig y dylid ei ddatgelu i holl aelodau'r Panel).

Roedd y Swyddog Arweiniol yn derbyn nad oedd y sefyllfa hon yn gwbl foddhaol, gan y gall eraill y tu allan i'r sefydliad wybod beth yw'r wybodaeth/penderfyniad o flaen Aelodau'r Panel ac felly roedd yn cynnig bod y Weithdrefn Gwynion yn cael ei newid fel bod aelodau nad oeddent yn aelodau o'r Is-bwyllgor Cwynion yn cael eu hysbysu am fodolaeth, categoreiddiad a phenderfyniadau am gwynion.

Nodwyd mai'r Is-bwyllgor Cwynion yn unig sy'n parhau â'r awdurdod i gategoreiddio a phenderfynu ar gwynion, ac nid oes modd i aelodau eraill y Panel gymryd rhan na cheisio dylanwadu ar y broses honno.

Diolchodd y Panel Heddlu a Throsedd i'r Awdurdod Cynnal am yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD:**

**(a) Nodi'r adroddiad.**

**(b) Bod yr Weithdrefn Gwyno yn cael ei diwygio fel bod Aelodau o'r Panel nad ydynt yn Aelodau o'r Is-bwyllgor Cwynion yn cael gwybod am fodolaeth, categoreiddiad a phenderfyniad cwynion.**

32. **YSTYRIED RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru i'r Aelodau.

Yn dilyn yr etholiadau, byddai Rhaglen Gwaith I'r Dyfodol mwy cynhwysfawr yn cael ei datblygu gyda Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar gyfer 2021/22.

Roedd y Swyddog Arweiniol/Ymgynghorydd Cyfreithiol yn awgrymu adolygiad o'r Model Cwynion ar gyfer Cwynion yr Heddlu a diweddariad ar y Rhaglen Checkpoint i gael ei gynnwys ar y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

Mewn ymateb, roedd Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn hapus i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ym mis Mehefin 2021.

**PENDERFYNWYD:**

**Cymeradwyo Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Panel yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, yn amodol ar y newidiadau uchod.**

33. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**

Cynhelir cyfarfod nesaf Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ddydd Mawrth, 2 Chwefror 2021 am 2.00pm.

**Adroddiad gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd**

| | |
|---|---|
| **Teitl:** | **Praesept a Threth y Cyngor 2021/22** |
| **Cyfarfod:** | **Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, 2 Chwefror 2021** |
| **Awdur:** | **Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid** |

## 1. Cyflwyniad

1.1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw adolygu sefyllfa ariannol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd dros Ogledd Cymru a gwneud argymhellion ar gyfer praesept a threth y cyngor 2021/22.

## 2. Argymhellion

2.1 Cynyddu'r praesept i £89,687,902
- Bydd hyn yn cynyddu treth y cyngor 5.14% - mae hyn yn gyfystyr â £305.55 y flwyddyn, cynnydd o £14.94 y flwyddyn, neu 29c yr wythnos ar gyfer eiddo band D
- Nodi bod y cynnydd hwn yn cyd-fynd â chynnydd tybiedig y Swyddfa Gartref o £15
- Dyma gynnydd o 5.53% o'i gymharu â phraesept 2020/21

2.2 Nodi bod £2.902 miliwn o arbedion wedi'u canfod ar gyfer 2021/22.

2.3 Nodi y bydd £2.642 miliwn o'r arbedion hynny'n cael eu hail-fuddsoddi mewn gweithgareddau rheng flaen.

2.4 Nodi y bydd cynnydd pellach o 62 Swyddog Heddlu, 58 ohonynt o ganlyniad i ddyraniad Heddlu Gogledd Cymru o raglen Llywodraeth y DU i gynyddu nifer y swyddogion heddlu (Ymgyrch Uplift). Yn ychwanegol, bydd Ymgyrch Uplift yn ariannu 3 Swyddog Uned Troseddau Trefnedig Rhanbarthol (ROCU) o ogledd Cymru yn 2021/22.

2.5 Nodi bod twf o £0.750 miliwn wedi'i gynnwys ar gyfer gweithredu'r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys.

2.6 Nodi'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig, sy'n cynnwys y rhagdybiaethau canlynol:
- Bod Treth y Cyngor yn cynyddu 5.14% yn 2021/22 a 3.93% yn 2022/23, 3.78% yn 2023/24, 3.64% yn 2024/25 a 3.51% yn 2025/26
- Bod y grantiau plismona yn aros ar y lefelau presennol yn 2022/231 a thu hwnt
- Bod y dyfarniadau cyflog blynyddol yn 0% ym mis Medi 2021 ac yn 2.5% fis Medi flwyddyn nesaf
- Bod cynnydd yn y grant wedi'i ddyfarnu i gefnogi Ymgyrch Uplift (costau cylchol a sefydlu) a'i fod wedi'i glustnodi at y dibenion hyn hyd nes bydd y cyllid terfynol yn hysbys

## 3. Crynodeb o Gyllideb 2021/22

| | | £ miliwn | |
|---|---|---|---|
| **Cyllideb 2020/21** | | **163.705** | |
| Gofynion chwyddiant | | 4.208 | 2.57% |
| Arbedion a nodwyd | | -2.902 | -1.77% |
| Ail-fuddsoddi | | 2.642 | 1.61% |
| Dyraniad Uplift | | 4.962 | 3.03% |
| Dyraniad Rhwydwaith Gwasanaethau Brys | | 0.750 | 0.46% |
| | | | |
| **Gofynion Cyllideb 2021/22** | | **173.365** | 5.90% |
| | | | |
| **Amcangyfrif o gyfanswm cyllid 2021/22** | | | |
| Grantiau'r Llywodraeth | | 83.677 | 5.93% |
| Treth y Cyngor | £305.55 | | 5.14% |
| Wedi'i luosi â sylfaen drethu | 293,529.38 | | 0.37% |
| Praesept (cyfran cyllid 51.73%) | | 89.688 | 5.53% |
| **Cyfanswm y cyllid ar gael** | | **173.365** | **5.90%** |

## 4. Eitemau Statudol

4.1 Safon yr Wybodaeth

4.1.1 Dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 (Adran 5) mae'n ofynnol i'r Prif Swyddog Cyllid ddarparu sylwadau ar addasrwydd yr wybodaeth a ddefnyddir fel sail i'r penderfyniadau ynghylch y gyllideb. Mae'r Prif Swyddog Cyllid yn cadarnhau bod y ffigyrau yn yr adroddiadau amrywiol yn deillio o weithdrefnau sy'n parhau i gael eu gweithredu i'r safonau proffesiynol uchaf. Caiff y systemau hyn eu harchwilio'n fewnol ac yn allanol, ac nid yw archwiliad allanol erioed wedi arwain at adroddiad archwilio amodol. Felly, ym marn y Prif Swyddog Cyllid mae'r wybodaeth hon yn addas i'r diben.

4.1.2 Mae'r Ddeddf hefyd yn gofyn i'r Prif Swyddog Cyllid ddarparu sylwadau ar ddigonolrwydd y cronfeydd wrth gefn i'w darparu yn y gyllideb. Ym marn y Prif Swyddog Cyllid mae'r Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol yn parhau i fod yn ddigonol ar gyfer anghenion gweithredu dyddiol yr Heddlu. Mae'r cronfeydd wrth gefn wedi'u hadolygu, ac mae rhagor o fanylion yn adran 9. Fodd bynnag, mae'r cronfeydd wrth gefn bellach yn nesáu at derfyn is yr ystod dderbyniol, ac er mwyn cynnal y Gronfa Gyffredinol ar 3% mae symiau ychwanegol cynlluniedig wedi'u cynnwys yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC). At hyn, amcangyfrifir y bydd y costau cyfalaf yn oddeutu £8 miliwn. Er mwyn atal y cronfeydd wrth gefn rhag mynd yn is na lefelau darbodus, ac i leihau effaith benthyca yn y blynyddoedd i ddod, mae'r Prif Swyddog Cyllid yn

credu bod angen cynyddu'r cronfeydd wrth gefn rŵan i leddfu effaith y gwariant sylweddol hwn yn y dyfodol; ceir eglurhad pellach ym mharagraffau 6.10-6.11 y CATC.

## 5. Cefndir

5.1 Mae Rhaglen Caledi'r Llywodraeth, a ddechreuodd yn 2011, wedi arwain at doriadau sylweddol ar draws y sector cyhoeddus. Cafodd cyllid y Llywodraeth ei ostwng 20.8% o ran arian parod, sydd gyfwerth â gostyngiad o 31.7% mewn termau real (gan ystyried chwyddiant) erbyn 2019-20. Arweiniodd effaith gyffredinol derbyn llai o gyllid a phwysau chwyddiant a phwysau arall at £35.389 miliwn o doriadau i'r cyllidebau dros gyfnod o 10 mlynedd. Mae hyn gyfwerth â gostyngiad o 23.9% yng nghyllidebau cyn caledi 2010-11 o £148.035 miliwn. Dangosir y toriadau blynyddol yn y tabl isod:

| Blwyddyn | 2011-12 tan 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Toriadau | £24.101 miliwn | £2.838 miliwn | £2.686 miliwn | £1.479 miliwn | £1.927 miliwn | 2.358 miliwn | £35.389 miliwn |

5.2 Cyn cyhoeddi setliad 2020-21 roedd gan y Llywodraeth y DU bolisi i gynyddu nifer y Swyddogion Heddlu 20,000 (Ymgyrch Uplift) dros gyfnod o dair blynedd. Cyhoeddwyd Setliad Ariannol yr Heddlu 2020-21 ar 22 Ionawr mewn datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Plismona, Kit Malthouse. Oedwyd y cyhoeddiad oherwydd Etholiad Cyffredinol Rhagfyr 2019. Cyn cyhoeddi setliad 2020-21 roedd y sector yn disgwyl £750m ychwanegol ar gyfer recriwtio 6,000 o swyddogion (tuag at gyfanswm o 20,000), minws ailddyraniad ar gyfer costau canolog. Roedd dyraniadau heddlu o ran niferoedd swyddogion eisoes wedi'i gyhoeddi a'i gyfrifo fel pro rata yn y grant craidd. Am yr arian ychwanegol mae'r Trysorlys wedi gofyn i'r Swyddfa Gartref ddod o hyd i £120m o arbedion o fewn eu cyllideb. Mae'r setliad wedi canolbwyntio ar recriwtio Cam 1 a Cham 2 yr Ymgyrch Uplift a gyhoeddwyd yn flaenorol. Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi derbyn dyraniad o 62 Swyddog fel rhan o gam 1 (6,000 o swyddogion ar draws y DU) ac yn seiliedig ar y fformiwla dyrannu, disgwylir 140 arall yng Ngham 2 (14,000 ar draws y DU). Mae'r symiau ychwanegol wedi'u darparu i dalu costau Cam 1 a chostau isadeiledd Cam 2.

5.3 Mae'r ffocws ar Ymgyrch Uplift wedi arwain at dwf yn nifer y swyddogion tra bod y pwysau ar y gyllideb sy'n weddill yn uchel oherwydd diffyg twf yn y grant sylfaenol, a'r costau ychwanegol i gefnogi'r cynnydd yn nifer y Swyddogion Heddlu.

5.4 Wrth i ni ddechrau blwyddyn ariannol 2020-21 roedd y DU wedi'i rhoi dan gyfyngiadau cyfnod clo yn sgil pandemig byd-eang Covid-19. Gwnaeth hyn y sail ar gyfer cynllunio ariannol 2021-

22 ac i'r dyfodol yn ansicr iawn. Cyn pandemig Covid-19 roedd adolygiad o wariant 3 blynedd yn ddisgwyliedig, a chyhoeddiad cynnar ynglŷn â niferoedd Ymgyrch Uplift. Fodd bynnag, penderfynwyd y byddai'r setliad ar gyfer 2021-22 yn unig, ac y byddai cyhoeddiadau Ymgyrch Uplift yn cael eu gwneud yr un pryd. Mae effeithiau hirdymor y pandemig, yn lleol ac yn genedlaethol, yn anhysbys, yn arbennig yr effaith economaidd a sut y bydd hyn yn effeithio ar gyllid yn y dyfodol.

5.5 At hyn, ar adeg cyhoeddi'r setliad dros dro, nid oedd trefniadau gadael yr UE wedi'u cytuno arnynt eto, ac roedd hynny'n ychwanegu at yr ansicrwydd.

**6. Y Broses Gynllunio**

6.1 Mae'r CATC ynghlwm yn gosod yr amgylchedd cynllunio. Mae'n cynnwys ffigyrau'r blynyddoedd diwethaf, ynghyd â rhagamcanion ar gyfer gwariant ac incwm refeniw, a chynlluniau ar gyfer cyfalaf a chronfeydd wrth gefn.

6.2 Pwrpas cyffredinol y broses gynllunio yw blaenoriaethu adnoddau i alinio cynlluniau gwario gyda blaenoriaethau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a gweledigaeth y Prif Gwnstabl, fel y nodir yn y Strategaeth Ariannol (Atodiad A y CATC). Mae'r blaenoriaethau wedi'u nodi isod

**Blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throsedd**

- Lleihau Cam-fanteisio'n Droseddol ar Bobl Ddiamddiffyn
- Cam-drin Domestig
- Trais Rhywiol
- Caethwasiaeth Fodern
- Trosedd Trefnedig
- Cymdogaethau Mwy Diogel

**Gweledigaeth y Prif Gwnstabl yw**

***Sicrhau mai gogledd Cymru yw'r lle mwyaf diogel yn y DU; trwy Atal Trosedd, Diogelu Cymunedau a Dal troseddwyr.***

6.3 Adolygwyd y broses gynllunio ar gyfer 2021-22 gan yr Uned Gynllunio Strategol, Cyllid a'r Prif Swyddogion i ystyried argaeledd unigolion allweddol yn sgil Covid-19; effaith Covid-19; y cynllun adfer ar gyfer y sefydliad ar ôl Covid; a'r angen i adolygu'r galw a phennu'r gyllideb. Daethpwyd i'r casgliad na fyddai ymarfer Cynllunio Adnoddau Blaenoriaethol tebyg i'r un ar ôl cyllideb 2020-21 yn addas. Roedd y broses ar gyfer 2021-22 yn seiliedig ar Gynlluniau Busnes yr holl arweinwyr gwasanaeth a gweithredol (fel deiliaid presennol y gyllideb) gydag Achosion Busnes ychwanegol yn angenrheidiol, wedi'u targedu tuag at y galw a'u cytuno fel meysydd ategol i'w hystyried ar ddechrau'r broses.

6.4 Nodwyd cynlluniau busnes pob maes mewn templed gan fynd i'r afael â'r penawdau canlynol, gyda chwestiynau strwythuredig dan bob adran.

- Perfformiad yn erbyn amcanion

- Cyllid yn erbyn cyllidebau
- Y galw a'r galw a ragfynegir
- Capasiti a Galluogrwydd
- Lles
- Ymateb Maes Gwasanaeth
- Galw Gweddilliol
- Rhyngddibyniaethau
- Arbedion

6.5 Dyma'r meysydd eraill a ystyriwyd:

- Cyfleusterau a TG yn cysylltu â gweithio'n hyblyg
- Adolygu'r Fflyd
- Rhaglen Ddigidol
- Adolygiad Dadansoddwr
- Cymysgedd Swyddogion/Staff
- Adolygiad o Gyllidebau Corfforaethol

6.6 Roedd yna hefyd faterion ymarferol i fynd i'r afael â nhw o ran cynnal cyfarfodydd, a oedd angen eu cynnal ar-lein. Dechreuwyd y broses cyn gynted â phosibl ym mis Mai 2020. Drwy osod y paramedrau yn fuan a chael Cyfarfodydd Cynllunio Sefydliadol drwy gydol y broses (bob wythnos neu bythefnos yn ôl yr angen) roedd modd dilyn atodlen strwythuredig a chael cynlluniau ar sail gwybodaeth yn eu lle erbyn mis Tachwedd 2020 i ymdrin â'r sefyllfaoedd amrywiol.

6.7 Fel rhan o'r uchod, aethpwyd drwy'r broses arferol ar gyfer datblygu gofynion ariannol y dyfodol ac mae'r manylion i'w gweld yn y CATC hwn. Wrth ddatblygu'r cyflwyniadau gan reolwyr, rhoddwyd ystyriaeth i'r canlynol:

- Blaenoriaethau Lleol a Chenedlaethol fel sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Heddlu a Throsedd a Gweledigaeth yr Heddlu
- Pwysau newydd a phwysau sy'n datblygu
- Y broses gynllunio strategol
- Datganiad Rheoli'r Heddlu
- Strategaethau eraill yr Heddlu
- Y sefyllfa economaidd bresennol
- Amcangyfrif o'r adnoddau sydd ar gael i ariannu'r CATC
- Rhagolygon cyllideb ar gyfer y cyfnod yn cynnwys dyfarniadau cyflog
- Y sefyllfa ariannol bresennol
- Y Rhaglen Gyfalaf, y Cod Darbodus a'u heffaith ar y Gyllideb Refeniw
- Cronfeydd wrth gefn a Balansau
- Creu incwm, gweithgareddau masnachu a grantiau
- Cydweithio
- Cynllun Adfer ar ôl Covid

6.8 Cynhaliwyd dau gyfarfod gyda thîm y Prif Swyddog i gytuno ar ganlyniad y broses gynllunio. Roedd hyn yn caniatáu defnyddio adnoddau hysbys a oedd ar gael ar gyfer blaenoriaethau a llywio dyrannu'r 62 Swyddog ychwanegol o Ymgyrch Uplift. Yna trafodwyd y canlyniad yn y cyfarfod Gosod y Gyllideb blynyddol gydag Arweinwyr Gwasanaeth ac eraill, gan ddod ag argymhellion y Grŵp Cynllunio Sefydliadol, gan gynnwys Cynlluniau Gwasanaeth, a'r holl elfennau eraill i lunio'r CATC hwn. Yna roedd hyn yn ffurfio'r cynnig a gyflwynwyd i'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'i dîm.

6.9 Cynhaliwyd arolwg gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu, a oedd yn cynnwys adran yn ymwneud â chynlluniau gwario a lefelau Treth y Cyngor. Derbyniwyd llai o ymatebion na'r arfer. Credir bod y gostyngiad hwn yn rhannol oherwydd diwedd OWL (Online Watch Link), a ddaeth i ben er gwaethaf cyllid parhaus a chynyddol gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Derbyniwyd 401 o ymatebion (21 yn Gymraeg) ac o'r rhain dim ond 335 a atebodd y cwestiwn am Dreth y Cyngor. Roedd yr ymatebion wedi'i gwasgaru'n deg ar draws y dewisiadau. Y dewisiadau oedd: cadw'r cynnydd Treth y Cyngor yn isel (28%), gwneud y mwyaf o Dreth y Cyngor (37%), neu bennu'r cynnydd rhywle yn y canol (37%).

6.10 Ar 11 Rhagfyr cynhaliwyd cyfarfod rhwng y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl a'u cynrychiolwyr i drafod cynigion y gyllideb ac ar 18 Rhagfyr cafwyd y cyfarfod terfynol ar ôl i'r llywodraeth gyhoeddi'r cyllid.

**7. Dyraniadau Cyllid**

7.1 Ni roddodd y Llywodraeth Ddyraniadau Cyllid Dros Dro ar gyfer 2021-22 fel rhan o setliad 2020-21. Cafwyd cyhoeddiadau yn ystod 2020-21 i gadarnhau ymrwymiad y Llywodraeth y DU i Ymgyrch Uplift a chynyddu nifer y Swyddogion Heddlu (20,000 ar draws y DU). Fodd bynnag, ni chyhoeddwyd dyraniadau'r Heddluoedd na'r cyllid cysylltiedig yn yr hydref yn ôl y disgwyl.

7.2 Ar 25 Tachwedd 2020, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys, Rishi Sunak AS, ganlyniad adolygiad gwariant 2020 (SR2020). Rhoddodd y cyhoeddiad gyfansymiau gwario adrannau llywodraeth, ond nid dyraniadau Heddluoedd. Yn Natganiad yr Hydref cyhoeddwyd na fyddai codiad cyflog blynyddol i Swyddogion Heddlu na Staff Heddlu ym mis Medi 2021.

7.3 Cyhoeddwyd Setliad Dros Dro 2021-22 ar 17 Rhagfyr mewn datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Plismona, Kit Malthouse. Cyn cyhoeddi'r setliad roedd y sector yn disgwyl £400 miliwn ychwanegol ar gyfer recriwtio 6,000 o swyddogion (tuag at gyfanswm o 20,000). Cadarnhaodd Kit Malthouse y byddai cynnydd o £415 miliwn er mwyn i Gomisiynwyr Heddlu a Throsedd barhau i recriwtio swyddogion. Mae'r ddogfen yn mynd yn ei blaen i ddweud y bydd y llywodraeth yn parhau i glustnodi £100 miliwn o'r cyllid ychwanegol i sicrhau bod y cynnydd mewn recriwtio yn cael ei gynnal ac i ddefnyddio'r buddsoddiad hwn yn effeithlon. Bydd y grant hwn sydd wedi'i glustnodi yn perthyn i'r grant setliad blaenorol o £168 miliwn a bydd yn cael ei rannu'n unol â'r fformiwla dyrannu cyllid.

7.4 Yn ychwanegol, roedd y sector yn disgwyl i gyllid Uplift y llynedd (£700 miliwn) gael ei gynnwys yn y waelodlin. Roedd Datganiad y Gweinidog yn nodi y byddai Comisiynwyr Heddlu a

Throsedd yn derbyn cynnydd o £703 miliwn, gan dybio y cymerir hyblygrwydd llawn yn y praesept. Cadarnhawyd y byddai egwyddorion refferendwm treth y cyngor yn £15 fesul Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn Lloegr, a fydd, gan dybio bod pob heddlu yn gwneud y mwyaf o'r cynnydd posibl, yn golygu £288 miliwn ychwanegol ar gyfer plismona yn 2021-22. Mae'r Grant Pensiwn penodol yn parhau am flwyddyn arall fel grant penodol.


7.5 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r disgwyliad yn dilyn Datganiad yr Hydref a'r cyhoeddiad terfynol. Roedd y setliad yn well na'r disgwyl o ran bod Ymgyrch Uplift wedi'i hariannu. Yn debyg i setliad 2020-21, mae'r cynnydd wedi'i roi i gefnogi cynyddu nifer y swyddogion yn hytrach na chwrdd â chynnydd chwyddiannol neu newidiadau eraill yn y galw.

| Pennawd | Rhagdybiaeth Cynllunio | Rhagdybiaeth ar ôl Datganiad yr Hydref | Cyhoeddiad 18 Rhagfyr |
|---|---|---|---|
| **Niferoedd Uplift** | 62 i 78 | * 62 | * 58 + 3 ar gyfer ROCU<br>* Yr ymrwymiad 20,000 |
| **Cyllid** | £0 i £3.2 miliwn | * £4 miliwn tuag at Ymgyrch Uplift | * £4.3 miliwn i gefnogi Uplift<br>* £1 miliwn wedi'i glustnodi<br>* Balans yn aneglur ond ei angen |
| **Cyllid Arall** | 0% | * 0% | * 0% |
| **Treth y Cyngor/Praesept** | £12 | * Cap o £15 yn Lloegr | * Rhagdybir cynnydd o £15 yn ffigyrau'r Swyddfa Gartref |
| **Arbedion Effeithlonrwydd** | 1% i 3% | * Ein cyfran ni o'r £120 miliwn | * £120 miliwn yn cynnwys yr uchod, gydag £20 miliwn drwy Blulight<br>* Bwrdd Effeithlonrwydd mewn Plismona |
| **Brigdorri** | £1.1 biliwn | * Gwastad ar £1.1 biliwn | * £87 miliwn yn llai |
| **Grant Pensiwn** | £1.582 miliwn | * £1.582 miliwn | * 1.582 miliwn |
| **Cyfalaf** | £0.123 miliwn | * £0.123 miliwn | * £0.123 miliwn |

7.6 Cynyddodd brigdorri, sef y swm y mae'r Swyddfa Gartref yn ei gadw ar gyfer gwariant heddlu canolog yn hytrach na'i ddosbarthu i heddluoedd, o £812 miliwn yn 2017-18 i £1,120 miliwn

yn 2020-21, ac am y tro cyntaf ers sawl blwyddyn bydd hyn yn lleihau i £1,033 miliwn yn 2021-22. Petai hyn yn cael ei ddyrannu yn seiliedig ar y fformwla ariannu byddai'n gyfwerth â £10.6 miliwn yn ychwanegol.

7.7 Rhagwelir y bydd yr adolygiad gwariant tair blynedd yn cael ei gynnal yn ystod yr haf yn barod ar gyfer setliadau 2022-23. Mae yna ansicrwydd mawr ynghylch cyllid y dyfodol, mae'r Swyddfa Gartref wedi ymrwymo o hyd i gynyddu nifer y swyddogion (20,000 erbyn diwedd 2022-23), ond mae cyllid y cam olaf yn anhysbys. Hefyd, does neb yn gwybod yn union beth fydd effaith Covid-19 a gadael yr UE ar yr economi. Penderfynwyd rhagamcanu lefel wastad o gyllid o 2020-21 ymlaen ac y bydd 62 Swyddog Uplift pellach yn cael eu dyrannu. Mae'r cyllid cynyddol sydd wedi'i ddarparu hyd yma i gefnogi Ymgyrch Uplift yn ddigon i gwrdd â'r costau cyflog, y costau cysylltiedig a'r hyfforddiant, ond nid i gwrdd â chostau staff ychwanegol i gefnogi'r rolau plismona. Dangosir hyn yn y siart isod. Petai cyllid pellach yn cael ei ddyfarnu i gefnogi Swyddogion Uplift, byddai modd ystyried darparu cyllid ar gyfer y rolau cefnogi hefyd.



**8. Cyllideb 2021-22 a Chyllideb Gynlluniedig 2022-23 i 2025-26**

8.1 Mae manylion y Gyllideb a’r newidiadau ar gyfer 2020-25 a’r blynyddoedd i ddod i’w gweld yn Atodiad A.

8.2 Dyma’r prif ragdybiaethau:

- Chwyddiant cyflogau blynyddol o 2.5% o fis Medi 2020 i fis Awst 2021, dim cynnydd ym mis Medi 2021 a chynnydd o 2.5% ym mis Medi 2022 a thu hwnt
- Chwyddiant cyffredinol o 2%, chwyddiant penodol lle bo’n hysbys
- Cynnydd yn Nhreth y Cyngor o 5.14% yn 2020-21 (£14.94) a £12 y flwyddyn yn y blynyddoedd dilynol sydd gyfystyr â 3.93% yn 2022-23, 3.78% yn 2023-24, 3.64% yn 2024-23 a 3.51% yn 2025-26
- Dim cynnydd yn y grant sylfaenol yn 2021-22, a setliad gwastad heb gynnydd yn y grant ar gyfer y blynyddoedd dilynol
- Cynnydd o £10.443 miliwn yn y grant sylfaenol o 2020-21 wedi’i glustnodi tuag at gostau Ymgyrch Uplift nawr ac yn y dyfodol, heb ragor o gyllid Uplift wedi’i gynnwys
- Rhagdybiaeth o 186 swyddog ychwanegol erbyn mis Mawrth 2024
- Cynnydd o 0.25% yn y sylfaen drethu o 2021-22 ymlaen
- Cost flynyddol o £1.329 miliwn wedi’i chynnwys ar gyfer y Rhwydwaith Gwasanaeth Brys o 2023-24 gyda chronfa wrth gefn yn cael ei sefydlu ymlaen llaw (gan leihau’r swm blynyddol o £1.8 miliwn i £1.329 miliwn, gostyngiad o £0.471 miliwn)
- Cyfraniadau i'r Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol wedi’u cynnwys i gynnal a balans ar yr isafswm o 3% o werth net y gyllideb

Mae hyn yn rhoi'r sefyllfa ganlynol i ni:

| | **Cyllideb Flynyddol 2021-22** | **Cyllideb Flynyddol 2022-23** | **Cyllideb Flynyddol 2023-24** | **Cyllideb Flynyddol 2024-25** | **Cyllideb Flynyddol 2024-25** |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwaelodlin | 163,705 | 173,365 | 177,120 | 180,894 | 184,686 |
| Chwyddiant | 2,893 | 1,017 | 4,583 | 4,806 | 5,058 |
| Costau strwythurol digyfnewid | 1,315 | | | | |
| Uplift | 4,962 | 2,738 | 0 | 0 | 0 |
| Arbedion Effeithlonrwydd | -2,902 | | | | |
| Twf | 2,642 | | | | |
| Rhwydwaith Gwasanaethau Brys | 750 | 0 | 579 | 0 | 0 |
| **Gofyniad Cyllideb** | **173,365** | **177,120** | **182,282** | **185,700** | **189,744** |
| Cyfanswm Grant | -83,677 | -83,677 | -83,677 | -83,677 | -83,677 |
| Praesept o Dreth y Cyngor | -89,688 | -93,443 | -97,217 | -101,009 | -104,819 |
| **Cyfanswm** | **-173,365** | **-177,120** | **-180,894** | **-184,686** | **-188,496** |
| **Balans Blynyddol** | **0** | **0** | **1,388** | **1,014** | **1,248** |
| **Balans Cronnol** | 0 | 0 | 1,388 | 2,402 | 3,650 |
| **% cynnydd Treth y Cyngor** | 5.14% | 3.93% | 3.78% | 3.64% | 3.51% |
| **£ cynnydd** | 14.94 | 12.00 | 12.00 | 12.00 | 12.00 |

8.3 Roedd y ffigwr chwyddiant a amcangyfrifwyd yn flaenorol yn £4.731 miliwn yn seiliedig ar ddyfarniad cyflog blwyddyn lawn o 2.5% a chwyddiant cyffredinol o 2% a chynyddiadau eraill wedi'u targedu ble bo angen. Yn dilyn y cyhoeddiad ynglŷn â rhewi cyflogau o fis Medi 2021 diwygiwyd y ffigyrau chwyddiant i £2.893 miliwn, cynnydd cyffredinol o 1.77%. Mae chwyddiant cyflogau o 2.5% i ymestyn dros fis Ebrill 2021 hyd at fis Awst 2021 wedi'i gynnwys gan fod hyn yn barhad o'r dyfarniad cyflog a bennwyd ym mis Medi 2020. Fodd bynnag, mae costau strwythurol eraill nad oes modd eu hosgoi wedi'u cynnwys. Mae ffigwr o £0.5 miliwn wedi'i gynnwys yn dilyn cynnydd yn nifer y swyddogion heddlu presennol sy'n ymuno â'r cynllun pensiwn. Mae cyfanswm cynnydd o £0.745 miliwn wedi'i gynnwys ar gyfer cynnydd mewn costau cydweithio cenedlaethol a rhanbarthol. Mae £0.070 miliwn pellach yn ymwneud â newidiadau mewn amodau gwasanaeth. Ceir rhagor o fanylion yn y CATC.

8.4 Yn seiliedig ar gyhoeddiadau Heddlu Gogledd Cymru hyd yma, gellir disgwyl cyfanswm o 186 o swyddogion ychwanegol drwy Ymgyrch Uplift. Dyrannwyd 62 rôl yn 2020-21, ac mae disgwyl i bob swyddog fod yn ei swydd erbyn mis Mawrth 2021. Mae 62 arall wedi'u dyrannu ar gyfer 2021-22 a disgwylir, ond nid yw hynny wedi'i gadarnhau eto, y bydd 62 arall ar gael yn 2022-23. Rhan fawr o'r cylch cynllunio oedd paru'r 62 swyddog ychwanegol sydd ar gael yn 2021-

22 â blaenoriaethau. Mae'r tabl isod yn crynhoi dyraniad 2021-22, ac fe geir rhagor o fanylion yn y CATC.

| Atal a Rhagweithiol | Digidol a Rheoli'r Galw | Lles |
|---|---|---|
| **Cyfanswm 43** | **Cyfanswm 14** | **Cyfanswm 5** |

8.5 Mae £10.4 miliwn wedi'i ddarparu ar gyfer Ymgyrch Uplift at ddibenion twf yn 2020-21 a 2021-22. Bydd y cyllid yn cwrdd â chostau cylchol y swyddogion ychwanegol, gan gynnwys costau nad ydynt yn ymwneud â staff a chostau isadeiledd, yn cynnwys hyfforddiant ychwanegol angenrheidiol. Unwaith y mae'r costau yn ystod y flwyddyn wedi'u dyrannu bydd balans o £2.864 miliwn yn 2021-22 a fydd yn cael ei ychwanegu at Gronfa Wrth Gefn Swyddogion Ychwanegol i ariannu costau hyfforddiant ac Isadeiledd yn y blynyddoedd i ddod. Mae'n bur debyg na fydd y dyraniad terfynol, a pha un ai fydd cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu ar gyfer 2022-23 neu beidio, yn cael ei gyhoeddi tan ganol mis Rhagfyr 2021. Os na fydd cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu mae'r cynnydd presennol yn ddigon i ariannu'r swyddogion a'r costau cysylltiedig eraill nad ydynt yn ymwneud â staff, ond nid i dalu am staff cefnogi.

8.6 I ariannu'r twf sydd heb ei ddarparu neu nad oes ei angen i gefnogi Swyddogion Ymgyrch Uplift, cynhaliodd Arweinwyr Gwasanaeth a Gweithredol asesiad o'r arbedion posibl, a chafodd y rhain wedyn eu hasesu ar sail gorfforaethol. Mae £2.9 miliwn wedi'i ganfod a'i asesu i fod yn bosibl. O'r swm hwn, mae £1.816 miliwn ar gyfer costau nad ydynt yn ymwneud â staff a £1.103 miliwn ar gyfer swyddogion neu staff. Ceir crynodeb o'r arbedion effeithlonrwydd ym mhob maes isod:

| **Categori** | **Arbedion a nodwyd** |
|---|---|
| | **£'000** |
| Gwasanaethau Heddlu Lleol | 445 |
| Gwasanaethau Cymorth Gweithredol | 337 |
| Gwasanaethau Trosedd | 200 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 293 |
| Safonau Proffesiynol | 18 |
| Cyllid ac Adnoddau, gan gynnwys Adolygiadau Canolog | 1,361 |
| Cymysgedd Swyddogion | 266 |
| **Cyfanswm** | **2,920** |

8.7 Mae nodi'r arbedion effeithlonrwydd uchod wedi arwain at ail-ddyrannu a buddsoddi £2.642 miliwn ar gyfer meysydd o flaenoriaeth. Mae'r rhain wedi'u nodi yn y CATC dan benawdau strategol Atal a Rhagweithiol (£0.621 miliwn), Digidol a Rheoli'r Galw (£1.825 miliwn), a Lles (£0.196 miliwn).

8.8 Bydd y Rhwydwaith Gwasanaethau Brys yn disodli system gyfathrebu ton awyr bresennol y gwasanaethau brys. Er bod hen yn brosiect ar draws y DU, nid oes cyllid ychwanegol wedi'i ddarparu na'i addo. Rhagwelir y bydd y costau cyfalaf yn oddeutu £8 miliwn ar gyfer isadeiledd a chyfarpar cyfathrebu. Nid yw manylion cwmpas, cost yr unedau a'r niferoedd sydd eu hangen (personol a cherbydau) wedi'u cadarnhau ond mae'r amcangyfrif gorau presennol yn swm nad oes modd ei anwybyddu. Bydd angen disodli'r cyfarpar hwn; amcangyfrifir hyn ar gylch 5 mlynedd. Yr unig ddewis dichonadwy i ariannu hyn yw benthyca darbodus. Yr amcangyfrif cychwynnol, yn seiliedig ar y swm cyfan yn cael ei ariannu yn y modd hwn, yw cynnydd o £1.8 miliwn mewn refeniw i wasanaethu'r benthyca o 2023-24.

8.9 Os nad ydym ni'n gweithredu rŵan, byddai'n rhaid canfod yr £1.8 miliwn sydd ei angen i ariannu'r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys naill ai drwy wneud toriadau i wasanaethau neu dreth y cyngor ychwanegol mewn un flwyddyn. Mae'r setliad gwell na'r disgwyl, ynghyd â rhewi cyflogau, wedi galluogi cynnwys £0.750 miliwn yn y gyllideb tuag at gostau'r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys; bydd y swm yn cael ei ddyrannu i gronfa'r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys yn gyntaf. Yn 2022-23 disgwylir y bydd y swm hwn a £0.6 miliwn oherwydd rhewi cyflogau yn cael ei ychwanegu at y gronfa. Mae hyn yn golygu y bydd £2.1 miliwn wrth gefn i ariannu'r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys, gan leihau'r gofyniad i fenthyca i £5.9 miliwn a'r costau refeniw i wasanaethu'r benthyca i £1.329 miliwn (gyda £0.750 miliwn ohono eisoes wedi'i gynnwys yn y gyllideb yn barod) Bydd hyn yn gadael balans o £0.579 mewn perthynas â'r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys fel rhan o'r gofyniad arbedion ar gyfer 2023-24, sy'n ffigwr haws i'w reoli na £1.8 miliwn. Bydd y ffigyrau hyn yn cael eu mireinio a'u hadolygu'n flynyddol fel rhan o'r broses o bennu cyllidebau'r ddwy flynedd nesaf.

8.10 Yn seiliedig ar y tybiaethau hyn, mae hyn yn rhoi cyllideb gytbwys ar gyfer y ddwy flynedd nesaf, a diffyg o £1 miliwn i £1.4 miliwn y flwyddyn yn ystod y tair blynedd ddilynol, sy'n cynnwys gofynion y Rhwydwaith Gwasanaethau Brys. Fodd bynnag, mae lefel yr ansicrwydd ynghylch yr holl dybiaethau yn eithriadol. Nid yw'n glir ar hyn o bryd a yw Llywodraeth y DU yn bwriadu cydbwyso'r gyllideb genedlaethol a lleihau'r diffyg a grëwyd yn sgil Covid-19 yn y tymor byr, canolig neu'r hirdymor. Bydd hyn yn ei dro yn dylanwadu ar yr adolygiad gwariant nesaf (2022-23 i 2024-25) ac a fydd hynny'n arwain at doriadau, twf neu gyflwr digyfnewid.

## 9. Cadernid a Chronfeydd Wrth Gefn

9.1 Mae'n ddyletswydd ar y Comisiynydd i sicrhau bod ganddo gronfeydd wrth gefn digonol i reoli risgiau. Yn ogystal â'r risgiau ariannu a'r rhagolygon uchod, mae'n rhaid i'r Comisiynydd baratoi ar gyfer risg gwariant (gwario mwy na'r gyllideb), yn ogystal â digwyddiadau nad oes modd eu rhagweld, megis digwyddiadau mawr costus, trychinebau naturiol neu ddigwyddiadau eraill nad oes modd eu rhagweld. Mae elfen o'r risg yma wedi'i rheoli drwy'r cyllidebau yn ystod y flwyddyn drwy'r cyllidebau arian at raid. Fodd bynnag, mae'r rhain wedi'u lleihau ac mae cyfran uwch o'r risg honno wedi'i throsglwyddo i'r cronfeydd wrth gefn.

9.2 Adolygir y cronfeydd wrth gefn fel rhan o'r broses gyllidebol ac unwaith eto wrth gynhyrchu Datganiad Cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn ariannol pan fydd y sefyllfa derfynol yn hysbys.

9.3 Y bwriad yw lleihau'r cronfeydd wrth gefn o £25.218 miliwn i £16.039 miliwn dros y 10 mlynedd nesaf. Mae disgrifiad o bob cronfa wrth gefn wedi'i roi ym mharagraff 9.6.

9.4 Ystyrir hi'n ddarbodus cynnal y Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol rhwng 3% a 5% o wariant refeniw net. Gan fod yna gronfa wedi'i chlustnodi i leddfu'r risg, mae'r Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol wedi'i chynnal ychydig yn uwch na 3%. Fodd bynnag, wrth i'r gwariant refeniw net gynyddu bydd angen cynyddu'r Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol i'w chynnal ar 3% ac mae hyn wedi'i adlewyrchu yn y crynodeb isod.

| **Sefyllfa Cronfeydd wrth Gefn**<br>***Cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio*** | **Balans 31.3.20 Balans £miliwn** | **Balans 31.3.21 Balans £miliwn** | **Balans 31.3.22 Balans £miliwn** | **Balans 31.3.23 Balans £miliwn** | **Balans 31.3.24 Balans £miliwn** | **Balans 31.3.25 Balans £miliwn** | **Balans 31.3.26 Balans £miliwn** | **Balans 31.3.27 Balans £miliwn** | **Balans 31.3.28 Balans £miliwn** | **Balans 31.3.29 Balans £miliwn** | **Balans 31.3.30 Balans £miliwn** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Balans y Gronfa Gyffredinol | 5.189 | 5.427 | 5.427 | 5.541 | 5.655 | 5.769 | 5.883 | 6.001 | 6.121 | 6.243 | 6.365 |
| Y Gronfa Gyffredinol wedi'i Chlustnodi | 19.975 | 20.099 | 16.672 | 13.074 | 9.982 | 9.279 | 8.581 | 8.006 | 7.502 | 6.959 | 6.959 |
| Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf | 0.054 | 2.151 | 2.911 | 2.961 | 3.091 | 2.716 | 2.716 | 2.716 | 2.716 | 2.716 | 2.716 |
| Cyfanswm y Cronfeydd wrth Gefn y gellir eu defnyddio | **25.218** | **27.677** | **25.009** | **21.575** | **18.727** | **17.763** | **17.179** | **16.722** | **16.338** | **15.917** | **16.039** |

9.5 Mae manylion yr holl gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi ar gael yn y CATC, ynghyd â'r rhagamcanion. Mae cronfeydd newydd wedi'u creu ar gyfer hyfforddiant ac Ymgyrch Uplift. Mae'r symiau sydd wedi'u neilltuo ar gyfer y Rhwydwaith Gwasanaethau Brys dros y ddwy flynedd nesaf wedi'u cadw yn y Gronfa Gyfalaf, felly hefyd y swm a neilltuwyd i ariannu'r gwaith o ddiweddaru'r system gorchymyn a rheoli.

## 10. Cyfalaf

2.1 Mae angen buddsoddi'n barhaus yn asedau ac isadeiledd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd er mwyn sicrhau amgylchedd gwaith effeithlon a modern. Datblygwyd strategaethau ar gyfer Stadau, TG a'r Fflyd y llynedd a chytunwyd ar Raglen Gyfalaf newydd yn 2020-21. Mae rhoi Ymgyrch Uplift ar waith ac adolygu'r gofynion fel rhan o'r cylch cynllunio a chynllun adfer Covid-19 wedi arwain at ddiwygio'r rhaglen arfaethedig. Mae'r pandemig hefyd wedi golygu newid camau'r rhaglen oherwydd oedi. Mae prosiectau mawr fel y Rhwydwaith Gwasanaethau Brys a diweddaru'r system gorchymyn a rheoli hefyd wedi'u hadolygu. Dyma grynodeb o'r newidiadau ymhob maes:

- Rhaglen Stadau ddiwygiedig £17.3 miliwn - gynnydd o £0.427 miliwn o gymharu â rhaglen y llynedd
- Rhaglen Fflyd ddiwygiedig £8.2 miliwn - gostyngiad o £0.341 miliwn y flwyddyn o gyllid refeniw uniongyrchol
- Rhaglen TG ddiwygiedig £21.1 miliwn


- Gofynion mawr i'r dyfodol - gorchymyn a rheoli (£2.5 miliwn), y Rhwydwaith Gwasanaethau Brys (£7.2 miliwn + £0.9 miliwn), Caffael TG (£1.0 miliwn)
- Newid gliniaduron/2 mewn 1/bwrdd gwaith (£2.9 miliwn), camerâu fideo a wisgir ar y corff (£1.0 miliwn), LifeX (£1.1 miliwn), ac ati

2.2 **Stadau -** Bydd gwaith ailwampio Gorsaf Heddlu Pwllheli wedi'i gwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Bydd adleoli'r Gweithdy Cerbydau, sy'n cael ei rentu ar hyn o bryd, yn dechrau'r flwyddyn nesaf, yn amodol ar achos busnes terfynol. Mae prosiectau eraill ar gamau datblygu a bydd y rhain yn cael eu hasesu yn unol â datblygiadau gweithio hyblyg a all, o bosibl, leihau'r gofynion stadau - i ddarparu arbedion neu i wneud lle ar gyfer Ymgyrch Uplift a thwf arall.

2.3 **Fflyd** - Mae adolygiad manwl o'r gofynion fflyd wedi'i gynnal yn defnyddio data rheoli gwybodaeth Telematics. Mae hyn wedi arwain at ostyngiad o £0.341 miliwn yn y gost flynyddol a amcangyfrifwyd yn flaenorol (yn cynnwys gofynion Uplift). Mae swm ychwanegol wedi'i gynnwys i olrhain cerbydau electronig fel rhan o'r rhaglen amnewid arferol.

2.4 **TG a Chyfathrebu** - mae angen buddsoddi sylweddol mewn TG, sy'n cael ei gyfarwyddo gan Fwrdd y Rhaglen Trawsnewid Digidol. Bydd rhoi dyfeisiau personol gyda mynediad i'r rhyngrwyd i swyddogion gweithredol a staff yn galluogi gweithio hyblyg - cafodd y rhaglen hon ei chyflymu o ganlyniad i bandemig Covid-19 a bydd wedi'i chwblhau erbyn diwedd 2020-21. Cyn bo hir bydd pob dyfais yn gallu defnyddio'r Rhaglen Alluogi Genedlaethol o ran y feddalwedd ddiweddaraf sydd ar gael. Mae achosion busnes amlinellol wedi'u darparu ym mhob maes, ac mae'r achosion manwl a'r manteision busnes yn cael eu datblygu. Mae'r rhaglen hefyd yn cynnwys newid y cyfarpar fideo a wisgir ar y corff. Mae gwaith uwchraddio sylweddol i'r system gorchymyn a rheoli wedi'i gynnwys (£2.5 miliwn), a neilltuwyd cyllid ar gyfer hyn fel rhan o ddyraniad cronfeydd 2019-20. Mae'r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys wedi'i gynnwys; ceir manylion y cyllid dan adrannau 6.11 a 6.12 y CATC. Mae'r prif gontract TG yn cael ei adnewyddu fis Ebrill 2022 ac mae'r costau uwchraddio cysylltiedig wedi'u cynnwys. Mae amnewid cyfarpar TG wedi'i gynnwys ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

2.5 Heb gynnwys rhaglen y Rhwydwaith Gwasanaethau Brys, byddai'r rhaglen wedi bod yn fforddiadwy ac wedi'i hariannu yn defnyddio cyfuniad o grantiau, cronfeydd wrth gefn, cyfraniad refeniw uniongyrchol a benthyca. Y strategaeth gyffredinol yw lleihau benthyca a gwneud y mwyaf o'r symiau a gaiff eu hariannu'n llawn yn ystod y flwyddyn brynu drwy ddefnyddio cyfraniad refeniw uniongyrchol a derbyniadau cyfalaf sydd, yn eu tro, yn lleihau taliadau llog ac ad-daliadau cyfalaf yn y blynyddoedd dilynol. Byddai ariannu'r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys heb fuddsoddiad pellach yn arwain at oedi mewn datblygiadau ac amnewid, a byddai hynny yn ei dro yn achosi problemau gweithredol ac ôl-groniad mewn buddsoddiad. Mae adrannau 6.11 i 6.12 yn egluro sut eir i'r afael â hyn gyda'r bwlch yn cael ei gynnwys yn y gofyniad arbedion amcangyfrifedig yn y gyllideb refeniw. Gan dybio bod modd ariannu'r bwlch hwn, sydd wedi lleihau o £1.8 miliwn yn flynyddol i £0.579 miliwn yn flynyddol gyda'r camau a gymerwyd drwy'r CATC hwn, yn defnyddio'r arbedion yna mae'r rhaglen yn fforddiadwy. Mae'r graff isod yn darlunio hyn ac yn dangos y bydd 2022-23 yn llawer uwch na'r arfer oherwydd bod rhaglen y Rhwydwaith Gwasanaethau Brys wedi'i chynnwys.




2.6 Mae'r CATC yn cynnwys ffigyrau cyfalaf manwl; bydd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn cymeradwyo'r cynllun manwl terfynol yn ffurfiol fel rhan o'r Strategaeth Gyfalaf, sy'n cynnwys y Strategaethau Cod Darbodus a Rheoli'r Trysorlys cyn diwedd mis Mawrth 2020. Ceir crynodeb o'r rhaglen a'r cyllid isod.

Rhaglen Gyfalaf 2019-20 i 2024-25

| Disgrifiad | 2020-21 Amcangyfrif Diwygiedig £000 | 2021-22 Amcan. £000 | 2022-23 Amcan. £000 | 2023-24 Amcan. £000 | 2024-25 Amcan. £000 | 2025-26 Amcan. £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm Gwaith Adeiladu | 2,911 | 4,170 | 7,184 | 2,350 | 1,468 | 2,100 |
| Cyfanswm Cerbydau ac Offer eraill | 2,417 | 1,971 | 1,981 | 1,426 | 1,426 | 1,426 |
| Cyfanswm Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | 3,163 | 6,733 | 8,604 | 1,263 | 3,154 | 1,394 |
| **Cyfanswm Gwariant Cyfalaf** | **8,491** | **12,874** | **17,769** | **5,039** | **6,048** | **4,920** |
| **Cyllid** | | | | | | |
| Grant y Swyddfa Gartref | 123 | 123 | 123 | 123 | 123 | 123 |
| Cyfraniad Refeniw | 2,691 | 2,070 | 2,054 | 2,053 | 2,268 | 1,753 |
| Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd | 1,403 | 4,465 | 2,100 | 0 | 0 | 0 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 203 | 100 | 100 | 370 | 750 | 100 |
| Benthyca ar gyfer Ystadau | 2,445 | 4,070 | 7,084 | 2,250 | 718 | 2,000 |
| Benthyca ar gyfer rhaglen newid offer | 1,626 | 2,046 | 6,308 | 243 | 2,189 | 944 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **8,491** | **12,874** | **17,769** | **5,039** | **6,048** | **4,920** |

**11. Ystyried y Dewisiadau**

11.1 Mae'r Comisiynydd wedi ystyried yr holl ddewisiadau sydd ar gael o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Cyflawnwyd gwaith helaeth gan y Broses Gynllunio Sefydliadol er mwyn nodi arbedion a symud adnoddau o fewn y sefydliad. Hefyd, arweiniodd y broses gynllunio at ddyrannu 62 o swyddogion Ymgyrch Uplift mewn modd deallus, ar sail blaenoriaethau. Byddai angen cynnydd o 4.73% yn Nhreth y Cyngor er mwyn cwrdd â chwyddiant yn seiliedig ar setliad grant gwastad. Mae adnoddau ychwanegol wedi dod ar gael wrth i swyddogion ychwanegol gael eu cyhoeddi; fodd bynnag nid yw'n glir a fydd cost lawn y swyddogion ychwanegol, gan gynnwys cefnogaeth ac isadeiledd, yn cael ei hariannu. Fodd bynnag, ni fyddai'n ddarbodus gadael y broblem ariannu sy'n ymwneud â gorfod cyflwyno'r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys tan flynyddoedd i ddod. Felly, gan ystyried yr holl ffactorau hyn, cynigir cynnydd o £14.94 (5.14%) yn Nhreth y Cyngor, sy'n cyd-fynd â chynnydd tybiedig y Swyddfa Gartref. Mae hyn yn gynnydd treth y cyngor/praesept darbodus, o ystyried nad yw'r cyllid cyffredinol na dyraniadau Cam 3 Ymgyrch Uplift wedi'u cyhoeddi eto. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i'r ansicrwydd ynghylch cyllid yn y dyfodol gan na wyddom beth fydd effaith economaidd pandemig Covid-19 a gadael yr UE.

11.2 Mae'r Comisiynydd wedi cynnal trafodaethau gyda'r Prif Gwnstabl sydd wedi cadarnhau bod codi Treth y Cyngor 5.14% yn darparu cyllideb ddigonol i weithredu'r gwasanaeth plismona yn 2021/22, ac yn caniatáu gwneud cyfraniadau darbodus i gronfeydd wrth gefn i helpu i gwrdd â chostau'r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys yn y dyfodol. Mae hyn yn dibynnu ar dderbyn cyllid digonol gan y llywodraeth i weithredu'r cynnydd yn nifer y swyddogion. Hefyd, oherwydd ansicrwydd ynghylch lefel y dyraniad grant yn y dyfodol, dyfarniadau cyflog a newidiadau yn y pwysau gweithredol, nid yw'n bosibl gwneud sylw ar hyn o bryd ar gywirdeb y rhagdybiaethau cynllunio ar gyfer blynyddoedd ariannol i ddod, a byddai gostyngiad sylweddol yn y dyraniad grant neu gynnydd uwch na'r disgwyl yn y dyfarniad cyflog yn arwain at doriadau pellach a/neu gynnydd uwch yn Nhreth y Cyngor.

11.3 Wrth gynyddu Treth y Cyngor 5.14% y swm ar gyfer bob band eiddo yw:

| Band Treth | A | B | C | D | E | F | G | H | I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Treth y Cyngor | 203.70 | 237.65 | 271.60 | 305.55 | 373.45 | 441.35 | 509.25 | 611.10 | 712.95 |

11.4 Praesept pob ardal filio fydd:

| **Awdurdod Bilio** | 2021-22<br>Sylfaen Drethu | Praesept £ |
|---|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn | 31,548.20 | **9,639,553** |
| Cyngor Gwynedd | 51,885.56 | **15,853,633** |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 50,976.27 | **15,575,799** |
| Cyngor Sir Ddinbych | 40,540.34 | **12,387,101** |
| Cyngor Sir y Fflint | 65,026.00 | **19,868,694** |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 53,553.01 | **16,363,122** |
| | 293,529.38 | **89,687,902** |

**12. Goblygiadau**

| | |
|---|---|
| Amrywiaeth | Bydd argymhellion yr adroddiad yn effeithio ar nifer y gweithwyr yn yr Heddlu yn y dyfodol. |
| Ariannol | Diben yr adroddiad hwn yw argymell Praesept a Threth y Cyngor 2021/22, ac egluro'r ffactorau sydd wedi'u hystyried wrth wneud yr argymhelliad hwn. Er bod yr argymhelliad ar gyfer un flwyddyn ariannol, mae'n bwysig ystyried y sefyllfa hirdymor a thymor canolig wrth wneud penderfyniadau.<br><br>Mae adnoddau ariannol digonol yn hanfodol er mwyn gweithredu Cynllun yr Heddlu a Throsedd a chyflawni ein gofynion cyfreithiol. |
| Cyfreithiol | Mae'r adroddiad hwn, yn ogystal â'r CATC, yn darparu gwybodaeth ddigonol i'r Panel Heddlu a Throsedd wneud penderfyniad a all wrthsefyll her gyfreithiol yn y dyfodol. |
| Risg | Mae'r adroddiad hwn yn nodi ac yn gwerthuso'r risgiau yn sgil yr argymhellion. |
| Heddlu a Throsedd | Nid oes goblygiadau heddlu a throsedd ar wahân. |

**Atodiad A**

**Cyf** **Disgrifiad**

**<u>Cyllideb 2020-21 i 2025-26</u>**

| Cyf | Disgrifiad | Cyllideb flynyddol 2020-21 | +'Cyn. -'Gost. 2021-22 | Cyllideb flynyddol 2021-22 | Cyllideb flynyddol 2022-23 | Cyllideb flynyddol 2023-24 | Cyllideb flynyddol 2024-25 | Cyllideb flynyddol 2025-26 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Gwariant** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **1.1** | **Cyflog Swyddogion Heddlu** | 85,463 | 4,891 | 90,354 | 94,479 | 97,534 | 100,090 | 102,571 |
| **2.1** | **Cyflog Staff yr Heddlu** | 41,988 | 226 | 42,214 | 42,800 | 43,912 | 45,052 | 46,220 |
| **2.2** | **Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu** | 6,126 | -21 | 6,105 | 6,226 | 6,350 | 6,477 | 6,607 |
| **3** | **Goramser Swyddogion Heddlu** | 2,207 | -16 | 2,191 | 2,246 | 2,302 | 2,359 | 2,418 |
| **4** | **Goramser Staff yr Heddlu** | 617 | -16 | 601 | 617 | 632 | 648 | 664 |
| **5** | **Lwfansau** | 1,297 | 7 | 1,304 | 1,300 | 1,297 | 1,295 | 1,293 |
| **6** | **Hyfforddiant** | 1,210 | 152 | 1,362 | 1,390 | 1,418 | 1,446 | 1,475 |
| **7** | **Gweithwyr Eraill** | 655 | 101 | 756 | 771 | 787 | 803 | 819 |
| **8** | **Taliadau Pensiwn Uniongyrchol** | 3,346 | -65 | 3,281 | 3,360 | 3,440 | 3,523 | 3,607 |
| **9** | **Costau Ynni** | 1,420 | 43 | 1,463 | 1,506 | 1,552 | 1,598 | 1,646 |
| **10** | **Costau Rhedeg Adeiladau** | 6,539 | 18 | 6,557 | 6,688 | 6,822 | 6,959 | 7,098 |
| **11** | **Atgyweirio a Chynnal a Chadw Cerbydau** | 606 | -24 | 582 | 594 | 606 | 618 | 630 |
| **12** | **Costau Rhedeg Cerbydau** | 1,944 | -103 | 1,841 | 1,890 | 1,940 | 1,992 | 2,045 |
| **13** | **Lwfansau Car a Theithio** | 540 | -81 | 459 | 469 | 478 | 487 | 497 |
| **14** | **Uned Awyr** | 589 | 113 | 702 | 719 | 737 | 755 | 773 |
| **15** | **Offer** | 1,094 | -26 | 1,068 | 1,089 | 1,111 | 1,133 | 1,155 |
| **16** | **Dillad a Gwisgoedd** | 589 | -59 | 530 | 541 | 551 | 562 | 574 |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **17** | **Argraffu a Nwyddau Swyddfa** | 366 | -72 | 294 | 300 | 306 | 312 | 319 |
| **18** | **TG a Chyfathrebu** | 10,984 | 1,590 | 12,574 | 12,825 | 13,082 | 13,344 | 13,610 |
| **19** | **Cynhaliaeth** | 295 | -24 | 271 | 276 | 282 | 287 | 293 |
| **20** | **Cyflenwadau a Gwasanaethau Eraill** | 2,665 | -4 | 2,661 | 2,713 | 2,765 | 2,819 | 2,874 |
| **21** | **Cydweithio a Phartneriaethau** | 5,833 | 543 | 6,376 | 6,535 | 6,699 | 6,866 | 7,038 |
| **22** | **Fforensig** | 754 | 165 | 919 | 938 | 957 | 976 | 995 |
| **23** | **Ffioedd Dyledion a Chyfraniad Cyfalaf** | 4,630 | -276 | 4,354 | 4,384 | 5,593 | 5,547 | 5,775 |
| **24** | **Cyllid Sefyllfaoedd Arbennig** | 400 | 0 | 400 | 400 | 400 | 400 | 400 |
| **25** | **Chwyddiant ac Arian at Raid** | 1,977 | 1,437 | 3,414 | 652 | 652 | 652 | 652 |
| **26** | **Cronfa Diogelwch Cymunedol** | 2,850 | 57 | 2,907 | 2,965 | 3,025 | 3,085 | 3,147 |
| | **Gwariant Gros** | **186,984** | **8,556** | **195,540** | **198,673** | **205,230** | **210,085** | **215,195** |

| | | Cyllideb flynyddol 2020-21 | +'Cyn. -' Gost. 2021-22 | Cyllideb flynyddol 2021-22 | Cyllideb flynyddol 2022-23 | Cyllideb flynyddol 2023-24 | Cyllideb flynyddol 2024-25 | Cyllideb flynyddol 2025-26 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Gwariant** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| | **Incwm** | | | | | | | |
| 27 | **Secondiadau** | -6,138 | -128 | -6,266 | -6,358 | -6,517 | -6,680 | -6,847 |
| 28 | **Llog ar Falansau** | -100 | 0 | -100 | -100 | -100 | -100 | -100 |
| 29 | **Incwm** | -2,563 | -41 | -2,604 | -2,604 | -2,604 | -2,604 | -2,604 |
| 30 | **Grantiau Penodol** | -14,407 | 640 | -13,767 | -13,714 | -13,662 | -13,609 | -13,556 |
| | **Cyfanswm Incwm** | **-23,208** | **471** | **-22,737** | **-22,776** | **-22,883** | **-22,993** | **-23,107** |
| 31 | **Cronfa Wrth Gefn PFI** | -71 | -117 | -188 | -241 | -293 | -346 | -398 |
| 32 | **Cronfa Wrth Gefn RhGB** | 0 | 750 | 750 | 1,350 | 0 | 0 | 0 |
| 33 | **Cyfraniad at y Gronfa Gyffredinol** | 0 | 0 | 0 | 114 | 228 | 342 | 456 |
| | **Gwariant Net** | **163,705** | **9,660** | **173,365** | **177,120** | **182,282** | **187,088** | **192,146** |
| 34 | **Cyfanswm Grantiau** | -78,715 | -4,962 | -83,677 | -83,677 | -83,677 | -83,677 | -83,677 |
| 35 | **Praesept** | -84,990 | -4,698 | -89,688 | -93,443 | -97,217 | -101,009 | -104,819 |
| | **Cyllid** | **-163,705** | **-9,660** | **-173,365** | **-177,120** | **-180,894** | **-184,686** | **-188,496** |
| | Balans Blynyddol | 0 | | 0 | 0 | 1,388 | 1,014 | 1,248 |
| | **Balans Cronnus** | **0** | | **0** | **0** | **1,388** | **2,402** | **3,650** |

# Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru

# Cynllun Ariannol Tymor Canolig

# 2021-22 i 2025-26

Ionawr 2021

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) yn cysylltu Cynllun Heddlu a Throsedd a adolygwyd ym mis Ionawr 2019 a'r Blaenoriaethau Plismona y cytunwyd arnynt gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl, gyda'r Strategaeth Ariannol (Atodiad A) a'r adnoddau sydd ar gael.

1.2 Mae proses gynllunio manwl wedi cael ei gynnal dros y flwyddyn. Roedd disgwyl i'r Llywodraeth gynnal adolygiad o wariant 3 mlynedd yn ystod yr haf, ond yn sgil pandemig COVID cafodd hyn ei leihau i adolygiad 1 mlynedd. Er gwaethaf yr adolygiad 1 mlynedd, mae ymrwymiad y Llywodraeth i Ymgyrch Uplift i gynyddu Swyddogion yr Heddlu o 20,000 yn genedlaethol erbyn Mawrth 2023 yn parhau. Roedd ansicrwydd o amgylch cyllid sylfaen ac roedd cyllid Uplift yn uchel yn ystod y flwyddyn ac roedd y broses cynllunio yn ystyried twf yn niferoedd y Swyddogion, gan arbed cyfleoedd a dyraniad o adnoddau i weddu blaenoriaethau.

1.3 Mae'r Comisiynydd wedi ystyried yr holl ddewisiadau o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Cyflawnwyd gwaith helaeth gan y Broses Cynllunio Sefydliadol er mwyn nodi arbedion a symud adnoddau o fewn y sefydliad. Roedd y broses cynllunio hefyd yn galluogi dyraniad gwybodus o 62 o swyddogion Ymgyrch Uplift yn seiliedig ar flaenoriaethau a chanfod goblygiadau cyllido mewn perthynas â chyflwyniad gorfodol yr ESN yn y blynyddoedd i ddod.

1.4 Byddai angen cynnydd yn Nhreth y Cyngor o 4.73% er mwyn talu costau chwyddiant yn seiliedig ar y setliad grant gwastad. Mae adnoddau ychwanegol wedi dod ar gael o ganlyniad i'r cyhoeddiad o swyddogion Uplift ychwanegol; fodd bynnag mae'n aneglur i ba raddau y bydd cost llawn y swyddogion ychwanegol, gan gynnwys cymorth ac isadeiledd, yn cael ei gyllido ac mae'r setliad cyllido ysgrifenedig yn cysylltu'r cyllid ychwanegol i'r cynnydd mewn dyraniad o swyddogion.

1.5 Gan ystyried yr holl ffactorau hyn, cynigir cynnydd o £14.94 (5.14%) yn nhreth y cyngor, sy'n cyd-fynd â chynnydd tybiedig y Swyddfa Gartref. Mae hwn yn gynnydd treth y cyngor/praesept darbodus, o ystyried nad yw cyllid cyffredinol a dyraniad cyllid Ymgyrch Uplift cam 3 wedi'u cyhoeddi. Rhoddwyd ystyried hefyd i'r goblygiadau sylweddol ESN a'r lefel o ansicrwydd dros gyllid yn y dyfodol yn sgil pandemig COVID a chanlyniadau economaidd gadael yr UE sy'n parhau i fod yn ansicr.

1.6 **Nod**

Nod y papur hwn yw manylu sut y cafodd y gyllideb ei mantoli hyd yma a'r cynlluniau i gynnal cyllideb fantoledig yn y tymor canolig a hwy, gan gynnal a gwella perfformiad a sicrhau y cyflawnir blaenoriaethau lleol a chenedlaethol.

### 1.7 Cefndir

Mae Rhaglen Caledi'r Llywodraeth, a ddechreuodd yn 2011, wedi arwain at doriadau sylweddol ar draws y sector cyhoeddus. Cafodd cyllid y Llywodraeth ei ostwng 20.8% o ran arian parod, sydd gyfwerth â gostyngiad o 31.7% mewn termau real (gan ystyried chwyddiant) erbyn 2019-20.

1.8 Arweiniodd effaith gyffredinol llai o gyllid a phwysau chwyddiant a phwysau arall at £35.389 miliwn o doriadau i'r cyllidebau dros gyfnod o 10 mlynedd. Mae hyn yn gyfwerth â gostyngiad o 23.9% yng nghyllidebau cyn caledi 2010-11 o £148.035 miliwn. Dangosir y toriadau blynyddol yn y tabl isod:

| Blwyddyn | 2011-12 i 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Toriadau a wnaed | £24.101m | £2.838m | £2.686m | £1.479m | £1.927m | 2.358m | £35.389m |

1.9 Cyn cyhoeddi setliad 2020-21, roedd gan y Llywodraeth bolisi yn ei le i gynyddu niferoedd Swyddogion Heddlu o 20,000 (Ymgyrch Uplift) dros gyfnod o 3 mlynedd. Cyhoeddwyd Setliad Ariannol yr Heddlu 2020-21 ar 22 Ionawr 2020 mewn datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Plismona, Kit Malthouse. Oedwyd y cyhoeddiad oherwydd Etholiad Cyffredinol Rhagfyr 2019. Cyn cyhoeddi setliad 2020-21 roedd y sector yn disgwyl £750m ychwanegol ar gyfer recriwtio 6,000 o swyddogion (tuag at gyfanswm o 20,000), minws ailddyraniad ar gyfer costau canolog. Roedd dyraniadau heddlu o ran niferoedd swyddogion eisoes wedi'i gyhoeddi a'i gyfrifo fel pro-rata yn y grant craidd. Am yr arian ychwanegol mae'r Trysorlys wedi gofyn i'r Swyddfa Gartref ddod o hyd i £120m o arbedion o fewn eu cyllideb. Mae'r setliad wedi canolbwyntio ar recriwtio Cam 1 a Cham 2 yr ymgyrch uplift a gyhoeddwyd yn flaenorol. Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi cael dyraniad o 62 o Swyddogion fel rhan o gam 1 (6,000 o swyddogion yn genedlaethol) ac yn seiliedig ar y fformiwla dyrannu, disgwylir oddeutu 140 o weddill y rhaglen (14,000) yn genedlaethol. Mae'r symiau ychwanegol wedi cael eu darparu i dalu costau Cam 1 a chostau isadeiledd Cam 2.

1.10 Arweiniodd y ffocws cyllido 2020-21 ar Ymgyrch Uplift at safle o dwf mewn niferoedd y Swyddogion tra bod pwysau ar y gyllideb weddillol wedi aros yn uchel gan nad oedd twf mewn grant sylfaen a'r costau ychwanegol o gefnogi'r nifer cynyddol o Swyddogion Heddlu.

1.11 Aethom i mewn i'r flwyddyn ariannol 2020-21 wrth i bandemig byd-eang COVID ledaenu gan roi'r DU mewn statws o gyfnod clo cenedlaethol. Gwnaeth y cyd-destun hwn y sail ar gyfer cynllunio ariannol ar gyfer 2021-22 ymlaen yn ansicr iawn. Cyn pandemig COVID, disgwyliwyd adolygiad o wariant 3 mlynedd, a hefyd cyhoeddiad cynnar am ffigyrau Ymgyrch Uplift yn y dyfodol. Fodd bynnag, penderfynwyd yn ddiweddarach y byddai'r setliad ar gyfer 2021-22 yn unig, ac y byddai cyhoeddiadau Ymgyrch Uplift yn cael eu gwneud yr un amser ac am yr un cyfnod. Mae effeithiau

hirdymor y pandemig, yn lleol ac yn genedlaethol, yn parhau i fod yn anhysbys, yn arbennig yr effaith economaidd a sut all hyn effeithio ar gyllid yn y dyfodol.

1.12 Yn ogystal â hyn, pan gyhoeddwyd y setliad dros dro ar gyfer 2021-22, nid oedd sail y DU ar gyfer gadael yr Undeb Ewropeaidd wedi ei gytuno, gan ychwanegu at y lefelau cyffredinol o ansicrwydd.

## 2. Y Broses Gynllunio


2.1 Pwrpas cyffredinol y broses gynllunio yw blaenoriaethu adnoddau i alinio cynlluniau gwario gyda blaenoriaethau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a gweledigaeth y Prif Gwnstabl. Mae'r blaenoriaethau wedi'u nodi isod.

**Blaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throsedd**

- Lleihau Camfanteisio'n Droseddol ar Bobl Ddiamddiffyn
- Cam-drin Domestig
- Trais Rhywiol
- Caethwasiaeth Fodern
- Trosedd Gyfundrefnol
- Cymdogaethau Mwy Diogel

**Gweledigaeth y Prif Gwnstabl yw**

***Sicrhau mai gogledd Cymru yw'r lle mwyaf diogel yn y DU; trwy Atal Trosedd, Diogelu Cymunedau a Dal troseddwyr.***




2.2 Roedd y broses cynllunio'r gyllideb ar gyfer 2020-21 yn cynnwys:

2.2.1 Gweithredu Rhaglen Gwelliant Gweithredol (a gynhaliwyd yn ystod 2018-19) oedd yn cynnwys 47% o gyllidebau'r Heddlu.

2.2.2 Roedd 40% o'r cyllidebau yn destun proses Cynllunio Adnoddau Blaenoriaethol (PRP) lle gwnaeth rheolwyr nodi amryw lefelau gwasanaeth.

2.2.3 Cafodd 13% arall o'r cyllidebau eu hadolygu y tu allan i'r prosesau hyn.

2.2.4 Cafodd y Rhaglen Gwelliant Gweithredol ei weithredu'n llawn yn 2020-21 ac fe gafodd penderfyniadau'r broses PRP hefyd eu gweithredu.

2.3 Cafodd y broses cynllunio ar gyfer 2021-22 ei adolygu gan yr Uned Gynllunio Strategol, Cyllid a'r Prif Swyddogion er mwyn ystyried argaeledd unigolion allweddol yn sgil COVID; effaith COVID ei hun; y cynllun adfer ar gyfer y sefydliad ar ôl COVID; a'r gofyniad i adolygu gofynion a gosod y gyllideb. Daethpwyd i'r casgliad na fyddai ymarfer Cynllun Adnoddau Blaenoriaethol (PRP) fel yr a ddilynwyd ar gyfer y gyllideb 2020-21 wedi bod yn addas. Roedd y broses ar gyfer 2021-22 yn seiliedig ar Gynlluniau Busnes ar gyfer holl arweinwyr Gweithredol a Gwasanaeth (fel deiliaid cyllideb cyfredol) gydag angen am Achosion Busnes ychwanegol, wedi'u targedu ar gyfer y galw a'u cytuno fel meysydd ychwanegol i'w hystyried ar ddechrau'r broses.

2.4 Roedd materion ymarferol i ddelio â nhw hefyd o ran cynnal cyfarfodydd a fyddai angen eu cynnal ar-lein yn sgil Covid-19. Dechreuodd y broses cyn gynted â phosibl, fel y nodir yn y crynodeb isod. Trwy osod y paramedrau yn gynnar yn y broses a chael Cyfarfodydd Cynllunio Sefydliadol yn rheolaidd trwy gydol y broses (bob wythnos neu bythefnos yn ôl y gofyn) roedd yn bosib dilyn yr amserlen a nodir isod.

| Mai 2020 | Meh-Gorff-Awst | Medi – Hyd 2020 | Tachwedd 2020 | Rhagfyr 2020 i Chwefror 2021 |
|---|---|---|---|---|
| **Gweithdy Prif Swyddog**<br><br>**Gweithdy i Fudd-ddeiliaid Allweddol**<br><br>**Comisiynu Achosion Busnes**<br><br>**Comisiynu Cynlluniau Busnes** | **Drafftio Achosion a Chynlluniau Busnes**<br><br>**Cynllunio Strategol yn blaenoriaethu cefnogaeth y tîm canolog**<br><br>**Y tîm canolog yn dechrau cyfarfodydd cefnogi gyda'r awduron** | **Dyddiad cau cyflwyniad 4 Medi**<br><br>**Adolygiad Cyllid a Chynllunio Strategol**<br><br>**Adolygiad Cyfarfodydd Cynllunio Sefydliadol**<br><br>**Nodi'r cynigion** | **Cyfarfod Cynllunio Sefydliadol Terfynol**<br><br>**Datganiad yr Hydref**<br><br>**Cyfarfod Cyllideb Prif Swyddogion ac Arweinwyr Gwasanaeth er mwyn cadarnhau cynigion** | **Cyflwyno cynigion i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru 11.12.20**<br><br>**Cyhoeddiad Grant 17.12.20**<br><br>**Cadarnhau cynigion gyda'r Comisiynydd 18.12.20**<br><br>**Drafftio'r Cynlluniau Terfynol**<br><br>**Cyfarfod panel 2.2.2021** |

2.5 Gyda chymaint o ansicrwydd yn y system gofynnwyd i'r Arweinwyr Gweithredol a Gwasanaeth edrych ar dri lefel o arbedion fel y nodir isod. Yn gallai cynigion gael eu graddio a'u hasesu yn erbyn blaenoriaethau, risg a'r gallu i'w darparu.

| **£1.6m – Sefydlog**<br>**Cyfanswm £1.6m**<br><br>**Rhaid i ni** | **£1.6m – Gwella**<br>**Cyfanswm £3.2m**<br><br>**Dylem ni** | **£1.6m Paratoi**<br>**Cyfanswm £4.8m**<br><br>**Efallai byddwn angen?** |
|---|---|---|
| • Angenrheidiol i gydbwyso'r gyllideb<br>• Diffyg presennol yn ogystal â phwysau ymrwymedig | • Cyllid ar gyfer Twf ac Arloesi<br>• Dewisiadau wedi'u datblygu gan adolygiadau a thrwy Gynlluniau Busnes<br>• Rhyddhau buddsoddiad i yrru arbedion yn y blynyddoedd i ddod | • Arian at raid ar gyfer digwyddiadau anhysbys ar gyllid neu gostau |

2.3 Fel rhan o'r uchod, aethpwyd drwy'r broses arferol ar gyfer datblygu gofynion ariannol y dyfodol ac mae'r manylion i'w gweld yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC)

hwn. Wrth ddatblygu'r cyflwyniadau gan reolwyr a'r CATC hwn, rhoddwyd ystyriaeth i'r canlynol:

- Blaenoriaethau Lleol a Chenedlaethol fel sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Heddlu a Throsedd a Gweledigaeth yr Heddlu
- Pwysau newydd a phwysau sy'n datblygu
- Y broses cynllunio strategol
- Datganiad Rheoli'r Heddlu
- Strategaethau eraill yr Heddlu
- Yr hinsawdd economaidd bresennol
- Amcangyfrif o'r adnoddau sydd ar gael i ariannu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig
- Rhagolygon cyllideb ar gyfer y cyfnod yn cynnwys dyfarniadau cyflog
- Y sefyllfa ariannol bresennol
- Y Rhaglen Gyfalaf, y Cod Darbodus a'u heffaith ar y Gyllideb Refeniw
- Cronfeydd wrth gefn a Balansau
- Creu incwm, gweithgareddau masnachu a grantiau
- Cydweithio
- Cynllun Adfer COVID

2.4 Mae Datganiad Rheoli'r Heddlu (FMS) wedi cael eu gyhoeddi dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'r Datganiad yn dadansoddi galw yn y dyfodol yn erbyn capasiti a gallu ein timau. Mae'n defnyddio prosesau dadansoddi data a chyfweliadau gydag arbenigwyr pwnc. Mae'r Datganiadau blaenorol wedi llywio'r broses cynllunio, a bydd y broses cynllunio, yn ei dro, yn llywio'r Datganiad nesaf.

2.5 Y meysydd a nodwyd yn Natganiad Rheoli'r Heddlu fel bod angen buddsoddiad posibl arnynt oedd fel a ganlyn; defnyddiwyd y wybodaeth hon fel rhan o'r broses cynllunio:

- Mae'r rhagolygon dwy flynedd yn nodi, pe bai arferion gweithio presennol yn cael eu cynnal, byddai angen twf yn y meysydd hynny o'r Heddlu sy'n rheoli galw a gaiff ei gynhyrchu gan droseddau treisgar a throseddau rhyw (Gwasanaethau Troseddau a'r Uned Diogelu Pobl Ddiamddiffyn yn bennaf).

- Mae'r Heddlu yn disgwyl i'r galw am ymchwiliadau twyll, yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â throseddau sy'n dibynnu ar y we neu sy'n cael eu galluogi gan y we, gynyddu y tu hwnt i allu ymchwilio presennol o fewn y ddwy flynedd nesaf.

- Bydd lefel yr adnoddau sydd eu hangen i reoli'r llwyth gwaith tystiolaethol o ymchwiliadau Grwpiau Troseddu Cyfundrefnol yn cynyddu wrth i gymhlethdod daearyddol y grwpiau, a maint dyfeisiau digidol gynyddu.

- Bydd angen cynyddu gallu ein staff ymchwiliadol a gwybodaeth i ddelio â gweithgarwch Grwpiau Troseddu Cyfundrefnol a gaiff ei alluogi gan dechnoleg ddatblygol.

- Bydd rhagor o fuddsoddiad mewn Technoleg Gwybodaeth oherwydd bod caledwedd a meddalwedd newydd ar gael. Mae disgwyl y bydd Heddlu Gogledd Cymru yn parhau i gadw'n gyfredol â datblygiadau, yn unol â heddluoedd ar draws Cymru a Lloegr.

- Bydd buddsoddiad mewn swyddogion a staff, galw ychwanegol o ran hyfforddiant a buddsoddiad mewn lles swyddogion a staff.

2.6 Cafodd y cynlluniau busnes ar gyfer pob maes eu nodi mewn templed gan fynd i'r afael â'r penawdau canlynol, gyda phob adran â chyfres o gwestiynau strwythuredig:

- Perfformiad yn erbyn amcanion
- Cyllid yn erbyn cyllidebau
- Gofyn a'r gofyn a ragwelir
- Capasiti a Galluogrwydd
- Lles
- Ymateb Maes Gwasanaeth
- Galw Gweddillol
- Rhyngddibyniaethau
- Arbedion

2.8 Cafodd y broses – yn arbennig y rhyngddibyniaethau – eu rheoli trwy'r Grŵp Cynllunio Sefydliadol a gadeiriwyd gan Brif Uwch-Arolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol a fynychwyd gan Arweinwyr Gweithredol a Gwasanaeth. Mae hyn yn galluogi i strategaeth corfforaethol gael ei ddatblygu a'i gyflwyno i Brif Swyddogion yn hytrach na phroses gystadleuol.

2.9 Cafodd meysydd eraill ei hystyried yn benodol fel y nodir isod:

- Cyfleusterau a TG yn cysylltu â gweithio hyblyg
- Adolygiad Fflyd
- Rhaglen Ddigidol
- Adolygiad Dadansoddi
- Cymysgedd Swyddogion/staff
- Adolygiad Cyllidebau Corfforaethol

2.11 Cynhaliwyd dau gyfarfod gyda thîm y Prif Swyddog i gytuno ar y canlyniad o'r broses cynllunio. Roedd hyn yn caniatáu defnyddio adnoddau hysbys a oedd ar gael ar gyfer blaenoriaethau a llywio dyrannu'r 62 Swyddog ychwanegol o ail gam yr Ymgyrch Uplift. Yna trafodwyd y canlyniad yn y cyfarfod blynyddol Gosod y Gyllideb gydag Arweinwyr Gwasanaeth ac eraill gan ddod â chanlyniadau'r Grŵp Cynllunio

Sefydliadol, gan gynnwys Cynlluniau Arbedion a'r holl elfennau eraill at ei gilydd i lunio'r CATC hwn. Yna roedd hyn yn ffurfio'r cynnig a gyflwynwyd i'r CHTh a'i dîm.

2.12 Cynhaliwyd cyfarfod rhwng y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl a'u cynrychiolwyr ar 11 Rhagfyr i drafod cynigion y gyllideb gyda chyfarfod terfynol ar 18 Rhagfyr ar ôl i gyhoeddiad cyllido'r Llywodraeth gael ei wneud.

2.13 Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion yr holl ddatblygiadau ers y CATC blaenorol, gan nodi'r sefyllfa ddiweddaraf ar gyfer refeniw, cyfalaf a chronfeydd wrth gefn.

**3. Cyllideb 2020-21**

3.1 Roedd cyhoeddiad y gyllideb ar gyfer 2020-21 ar 22 Ionawr 2020 yn cynnwys £6.872 miliwn o gyllid ychwanegol, ond nodwyd yn glir bod y cyllid hwn ar gyfer costau Ymgyrch Uplift ar gyfer y flwyddyn a'r dyfodol. Nid oedd yn darparu unrhyw gyllid tuag at gynnydd mewn chwyddiant na thwf tu hwnt i'r Uplift. Mae'r newidiadau wedi'u crynhoi isod:

| **Setliad 2020-21** | **CATC ac eithrio Uplift £m** | **Setliad £m** | **Amrywiant £m** |
|---|---|---|---|
| Grant Sylfaen | 73.234 | 78.714 | 5.480 |
| Grant Pensiwn | 1.582 | 1.582 | 0 |
| Clustnodwyd (yn amodol ar dargedau uplift) | 0 | 1.731 | 1.731 |
| Grant Cyfalaf | 0.462 | 0.123 | -0.339 |
| **Cyfanswm** | **75.278** | **82.150** | **6.872** |

3.2 Mae arbedion o £2.358 miliwn wedi cael eu canfod fel rhan o'r broses cynllunio. Cytunodd y Comisiynydd ar gynnydd o 4.5% yn Nhreth y Cyngor a arweiniodd ar gynnydd yn y gyllideb o 2.57% ac eithrio costau Ymgyrch Uplift. Roedd y cynnydd yn Nhreth y Cyngor yn caniatáu i £2.358 miliwn gael ei ail-fuddsoddi yn y gwasanaeth.

Roedd dyraniad 62 o Swyddogion ychwanegol o Ymgyrch Uplift wedi cael eu dyrannu i swyddi penodol fel rhan o'r broses cynllunio. Cafodd 23 staff arall eu cyllido o'r arbedion a ganfuwyd, yn ogystal â buddsoddiad mewn TG, Hyfforddiant a chyllid Cyfalaf.

3.3 Mae recriwtio swyddogion heddlu Ymgyrch Uplift yn digwydd mewn dau gam sy'n gorgyffwrdd. Y cam dechreuol yw recriwtio Swyddogion Heddlu ychwanegol er mwyn cynyddu'r niferoedd cyffredinol; roedd hyn eisoes wedi dechrau cyn y flwyddyn ariannol 2020-21. Cafodd 40 staff newydd eu penodi yn Ebrill 2020, gan olygu bod targed Uplift wedi cael ei basio. Roedd recriwtio pellach drwy gydol y flwyddyn wedi cynnal y niferoedd uwchben y targed Uplift. Erbyn mis Mawrth 2021, disgwylir bod 134 o Swyddogion Heddlu ychwanegol wedi cael eu recriwtio gyda 72 yn gadael, gan olygu cynnydd o 81.

3.4 Bydd y cynnydd ychwanegol uwchben y targed o 62 yn mynd tuag at darged Uplift 2021-22 o 58 o Swyddogion ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru a 3 ar gyfer Uned Troseddau Trefnedig Rhanbarthol. Roedd y broses cynllunio wedi tybio y bydd Heddlu Gogledd Cymru yn derbyn dyraniad o 62 o Swyddogion Uplift yn 2021-22, y ffigwr gwirioneddol oedd 58, fodd bynnag, roedd y cynllun recriwtio a chyllid wedi caniatáu i'r 62 swydd gael eu dyrannu. Mae cyllideb 2021-22 yn caniatáu ar gyfer recriwtio 65 swyddog i gyd (gan gynnwys ROCU). Bydd addasiadau terfynol i'r cynllun recriwtio a sefydlu yn cael ei wneud unwaith i'r dyraniad terfynol o Swyddogion Uplift fod yn hysbys.

3.5 Cafodd y 62 swydd eu dyrannu i'r Gwasanaethau Trosedd 34, Gwasanaethau Plismona Lleol 23 a Swyddi Arbennig 5, wrth i Swyddogion Prawf gael eu penodi i'w swyddi cyntaf o fewn y Timoedd Ymateb, mae'r Swyddogion mwy profiadol yn cael eu rhyddhau i swyddi newydd a grëir. Disgwylir y bydd yr holl swyddi newydd wedi'u llenwi erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'r 23 swydd mewn rolau Dadansoddi, Hyfforddi a Chefnogi Busnes i gefnogi datblygiadau oll wedi'u penodi.

3.5 Mae'r buddsoddiad nad oedd yn ymwneud â staffio yn TG yn rhan o Raglen Ddigidol sy'n cynnwys mentrau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Yn ystod 2020-21 roedd datblygiadau sylweddol ym maes TG, gan gynnwys y Rhaglen Alluogi Genedlaethol, cyfarpar fideo a wisgir ar y corff a dyfeisiau 2 mewn 1 personol. Lle byddai'r prosiectau hyn yn cefnogi'r newidiadau angenrheidiol yn sgil y cyfnod clo, cafodd y rhai eu cyflymu, er fod y cyfnod clo wedi achosi oedi mewn datblygiadau eraill wrth i adnoddau gael eu blaenoriaethu. Roedd y buddsoddiad Hyfforddi yn gysylltiedig â dechreuad y Fframwaith Cymwysterau Addysg Plismona sy'n dod a hyfforddiant Swyddog Heddlu i lefel gradd. Dechreuodd hyn ym mis Medi 2020 fel y cynlluniwyd.

3.6 Mae pandemig COVID a'r lefelau amrywiol o gyfyngiadau sydd wedi bod mewn lle wedi cael effaith sylweddol ar sut mae plismona a chefnogaeth ar gyfer swyddogion y rheng flaen yn cael ei ddarparu. Mae oddeutu 800 o staff wedi bod yn gweithio o gartref yn bennaf ers Ebrill 2020, ac mae Swyddogion Gweithredol wedi gorfod cadw at ofynion newydd megis Cyfarpar Diogelu Personol (PPE) nad oedd eu hangen yn flaenorol. Cafodd hyn effaith sylweddol ar batrymau gwario. Er enghraifft, mae costau

nad ydynt yn ymwneud â staffio wedi amrywio o rhwng +180% i -69%. Mae costau staff wedi bod yn fwy cyson gyda'r gyllideb a'r flwyddyn flaenorol gydag ymdrech sylweddol i sicrhau bod recriwtio yn parhau. Cafodd asesiad o'r newidiadau mewn patrymau gwario eu cynnwys yn y broses cynllunio er mwyn ffurfioli gostyngiadau a all barhau, canfod beth fyddai gwariant gohiriedig a chyllido'r cynyddiadau.

3.7 Ar y dechrau roedd yn aneglur os fyddai cyllid ychwanegol ar gael ar gyfer costau yn ymwneud â COVID a chafod cynlluniau eu rhoi yn eu lle er mwyn cyllido'r rhain o'r arian wrth gefn os oedd angen. Cafodd cyllid ei gadarnhau ar gyfer PPE meddygol (a holl PPE i ddilyn) yn ddiweddarach yn y flwyddyn, ac mae cyllid ychwanegol ar gyfer patrolau ychwanegol yn ystod y cyfnod atal byr cyn y Nadolig ac ar gyfer colled incwm wedi ei gadarnhau neu ei dderbyn. Disgwylir y bydd tanwariant ar ddiwedd y flwyddyn, a bydd angen ychydig o hwn i gael ei glustnodi mewn arian wrth gefn ar gyfer hyfforddiant gohiriedig a bydd ychydig yn gallu cael ei ddefnyddio i reoli risg a rheoli newid wrth fynd ymlaen.

3.8 Mae Arolygiaeth Heddluoedd a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (AHGTAEM) a Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) yn cynnal adolygiadau blynyddol o: sefyllfa ariannol yr Heddlu; y broses gynllunio; yr arbedion a wnaed eisoes; a'r arbedion sydd eto i'w gwneud. Roedd gofyn i'r Heddlu lunio Datganiad Rheoli'r Heddlu am y tro cyntaf erbyn mis Mai 2018 yn rhan o broses AHEM, a lluniwyd yr ail ym mis Mehefin 2019. Mae'r Datganiad Rheoli'n disgrifio'r galw a ddisgwylir yn y dyfodol a bylchau posibl. Mae hwn wedi'i ddefnyddio'n rhan o'r adolygiad RhGG a'r broses gynllunio. Roedd y trydydd Datganiad Rheoli i fod i gael ei gyhoeddi ym Mehefin 2020 ond cafodd ei ohirio yn sgil COVID, felly bydd hwn yn cael ei gwblhau erbyn diwedd Mai 2021.

3.9 Mae adolygiadau 'V*aluing the Police*' AHGTAEM wedi eu hymgorffori yn eu rhaglen adolygu newydd, sef adolygiadau PEEL (Effeithlonrwydd, Effeithiolrwydd a Chyfreithlondeb yr Heddlu). Y cwestiwn cyffredinol mewn perthynas ag effeithlonrwydd a osodwyd gan AHEM yw 'Pa mor effeithlon yw'r heddlu o ran cadw pobl yn ddiogel a lleihau troseddau?' gyda'r diffiniad o 'effeithlonrwydd' fel a ganlyn: '*bydd heddlu effeithlon yn sicrhau'r deilliannau gorau posibl gyda'r adnoddau sydd ar gael iddo.'* Cafodd yr Heddlu ei asesu fel 'Da' yn nhermau Effeithiolrwydd, Effeithlonrwydd a Chyfreithlondeb.

3.10 Mae sylwadau diwethaf a gyhoeddwyd gan Wendy Williams, Arolygydd Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi, wedi'i nodi isod;

*Rwy'n falch iawn gyda pherfformiad Heddlu Gogledd Cymru i gadw pobl yn ddiogel a lleihau trosedd. Yn benodol, rwy'n nodi'r gwelliannau mae'r heddlu wedi'u gwneud ers 2017 o ran effeithlonrwydd.*

*Mae'r heddlu yn dda am atal trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol <https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmicfrs/glossary/anti-social-behaviour/>. Mae hefyd yn dda am ymchwilio i droseddau a mynd i'r afael â throsedd difrifol a threfnedig. Mae*

*cadw [pobl ddiamddiffyn] yn ddiogel yn flaenoriaeth ar gyfer yr heddlu ac mae'n gweitho'n dda gydag asiantaethau eraill i'w canfod a'u diogelu.*

*Mae Heddlu Gogledd Cymru yn deall cymhlethdod a graddfa'r galw cyfredol am ei wasanaethau. Rŵan mae angen cael gwell dealltwriaeth o'r sgiliau sydd gan y gweithlu presennol a'r sgiliau maent yn debygol o fod angen. Bydd hyn yn ei alluogi i ddatblygu cynlluniau gweithlu ac ariannol cryf a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol.*

*Mae'r heddlu yn parhau i gynnal diwylliant moesegol a hyrwyddo safonau proffesiynol o ymddygiad disgwyliedig. Fodd bynnag, dylai sicrhau bod y systemau angenrheidiol yn eu lle i sicrhau'r cyhoedd bod ei ddefnydd o bwerau, megis stopio a chwilio a'r defnydd o rym, yn cael eu cynnal yn gyfreithlon.*

*Ar y cyfan, rwy'n canmol Heddlu Gogledd Cymru am y cynnydd a wnaed dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn yn darparu sylfaen gref ar gyfer parhau i wella yn y flwyddyn i ddod.*

Gellir gweld yr asesiad llawn ar https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmicfrs/peel-assessments/peel-2018/north-wales/

3.11 Gwnaeth SAC y sylwadau canlynol ar eu hasesiad gwerth am arian yn eu llythyr archwilio blynyddol a gyhoeddwyd ar 1 Rhagfyr 2020;

*'Rwy'n fodlon bod gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Cyngor Sir drefniadau priodol ar waith i sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn eu defnydd o adnoddau'*

Gellir gweld y llythyr archwilio blynyddol yn: https://www.northwales-pcc.gov.uk/en/Information/What-we-spend-and-How-we-spend-it.aspx

3.12 Mae'r ddau asesiad yn dangos bod y cyllidebau'n cael eu rheoli'n effeithiol a bod yr Heddlu'n perfformio'n dda o ran sicrhau'r deilliannau gorau bosibl gyda'r adnoddau sydd ar gael.

## 4 Dyraniadau Cyllid a rhagdybiaethau

4.1 Ni roddodd y Llywodraeth Ddyraniadau Cyllid Dros Dro ar gyfer 2021-22 fel rhan o setliad 2020-21. Gwnaed cyhoeddiadau yn ystod 2020-21 i gadarnhau ymrwymiad y Llywodraeth i Ymgyrch Uplift a chynyddu niferoedd Swyddogion Heddlu o 20,000 yn genedlaethol. Fodd bynnag, nid ordd y niferoedd a ddyrannwyd i'r Heddluoedd na'r cyllid cysylltiedig wedi cael eu cyhoeddi yn gynnar ym mis Hydref fel y disgwyliwyd.

4.2 Ar 25 Tachwedd 2020, cyhoeddodd Canghellor y Trysorlys, Rishi Sunak AS ganlyniad adolygiad o wariant 2020. Cyfeirir ato weithiau fel y 'Cylch Gwario', ac mae'n nodi cyfansymiau gwariant cyhoeddus ar gyfer y flwyddyn ariannol 2021-22. Dyma Adolygiad o Wariant cyntaf y Canghellor yn dilyn ei olyniaeth o Sajid Javid AS yn

gynharach yn y flwyddyn. Rhoddodd y cyhoeddiad gyfansymiau gwariant Adrannol y Llywodraeth, ond ni gyhoeddwyd dyraniadau'r Heddlu. Yn Natganiad yr Hydref, cyhoeddwyd hefyd na fyddai unrhyw gynnydd cyflog blynyddol ar gyfer Swyddogion Heddlu na Staff yr Heddlu ym Medi 2021.

4.3 Cyhoeddwyd Setliad Ariannol yr Heddlu 2021-22 ar 17 Rhagfyr mewn datganiad ysgrifenedig gan y Gweinidog Plismona, Kit Malthouse. Cyn cyhoeddi setliad, roedd y sector yn disgwyl £400m ychwanegol ar gyfer recriwtio 6,000 o swyddogion (tuag at gyfanswm o 20,000). Cadarnhaodd Kit Malthouse y byddai cynnydd o £415m er mwyn i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd barhau i recriwtio swyddogion. Mae'r ddogfen yn mynd ymlaen i ddatgan "er mwyn sicrhau bod...cynnydd mewn recriwtio yn cael ei gynnal, ac i olrhain y defnydd o'r buddsoddiad yn effeithlon, bydd y Llywodraeth yn parhau i glustnodi £100 miliwn o'r cyllid ychwanegol". Bydd y grant sydd wedi'i glustnodi yn perthyn i'r grant setliad blaenorol o £168 miliwn ac fe gaiff ei rannu yn unol â dyraniad fformiwla cyllido. Bydd rhan o'r dyraniad cyllido yn mynd i recriwtio swyddogion Unedau Trosedd Trefnedig Rhanbarthol (ROCU) trwy'r un fecanwaith.

4.4 Yn ogystal â hynny, roedd y sector yn disgwyl i gyllid Uplift y llynedd (£700m) gael ei drosglwyddo i'r gwaelodlin. Roedd y Datganiad gan y Gweinidog yn nodi y byddai'r Comisiynwyr yn derbyn cyfanswm o £703m o gynnydd gan dybio y cymerir hyblygrwydd praesept llawn. Cadarnhawyd y byddai cyfyngiad refferendwm treth y cyngor yn £15 bob Comisiynydd yn Lloegr, ac wrth dybio bob pob llu yn gwneud y mwyaf o'r cynnydd, byddai hyn yn golygu £288m ychwanegol ar gyfer plismona yn 2021-22. Mae'r Grant Pensiwn penodol wedi'i barhau am flwyddyn arall fel grant penodol.


4.5 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r disgwyliadau yn dilyn Datganiad yr Hydref a'r cyhoeddiad terfynol. Roedd y setliad wedi mynd tu hwnt i rai disgwyliadau o ran cyllido Ymgyrch Uplift. Yn debyg i setliad 2020-21 mae'r cynnydd wedi cael ei roi i gefnogi'r cynnydd yn niferoedd y Swyddogion, yn hytrach na hwyluso cynnydd mewn chwyddiant neu newidiadau eraill o ran y galw.

| Pennawd | Rhagdybiaethau Cynllunio | Rhagdybiaeth ar ôl Datganiad yr Hydref | Cyhoeddiad 18 Rhagfyr |
|---|---|---|---|
| **Niferoedd Uplift** | 62 i 78 | * 62 | * 58 + 3 i ROCU<br>* Ymrwymiad ar y 20,000 |
| **Cyllid** | £0 i £3.2m | * £4m tuag at Uplift | * £4.3m i gefnogi Uplift<br>* £1m wedi'i glustnodi<br>* Balans yn aneglur ond yn angenrheidiol |
| **Cyllid Arall** | 0% | * 0% | * 0% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Treth y Cyngor/Praesept** | £12 | * Cap o £15 yn Lloegr | * Rhagdybiaeth o gynnydd o £15 yn ffigyrau'r Swyddfa Gartref |
| **Arbedion Effeithlonrwydd** | 1% to 3% | * Ein cyfran o'r £120m | * £120m gan gynnwys yr uchod gyda £20m trwy Blulight<br>* Effeithlonrwydd yn y Bwrdd Plismona |
| **Brigdorri** | £1.1bn | * Sefydlog ar £1.1bn | * Lleihad o £87m |
| **Grant Pensiwn** | £1.582m | * £1.582m | * 1.582m |
| **Cyfalaf** | £0.123m | * £0.123m | * £0.123m |

4.6 Cynyddodd y brigdoriant, sef y swm mae'r Swyddfa Gartref yn ei gadw ar gyfer gwariant sy'n ymwneud â'r Heddlu canolog yn hytrach na'i ddyrannu i'r Lluoedd, o £812m yn 2017-18 i £1,120m yn 2020-21, ond am y tro cyntaf mewn nifer o flynyddoedd, bydd hyn yn lleihau i £1,033m yn 2021-22. Pe byddai hyn yn cael ei ddyrannu yn seiliedig at y fformiwla gyllido byddai'n gyfwerth â £10.6m ychwanegol.

4.7 Rhagwelir y cynhelir adolygiad o wariant 3 blynedd dros yr haf 2021 i baratoi ar gyfer setliadau 2022-23. Mae llawer iawn o ansicrwydd o amgylch cyllid yn y dyfodol. Mae ymrwymiad yn parhau yn y Swyddfa Gartref i gynyddu niferoedd Swyddogion o 20,000 erbyn diwedd 2022-23; fodd bynnag, nid yw cyllid ar gyfer y cam olaf yn hysbys. Mae effaith pandemig COVID a gadael yr UE ar yr economi yn aneglur. Cymerwyd y safbwynt i ragdybio lefel fflat o gyllid o 2021-22 ymlaen ac y bydd 62 o Swyddogion ychwanegol yn cael eu dyrannu. Bydd y cynnydd mewn cyllid a ddarparwyd hyd yn hyn i gefnogi'r Uplift, yn ddigon i dalu'r costau, y costau nad ydynt yn ymwneud â staff, a hyfforddiant, ond nid ar gyfer unrhyw staff ychwanegol i gefnogi rolau Plismona. Gwelir hyn yn y siart isod. Pe byddai mwy o gyllid yn cael ei roi i gefnogi Swyddogion Uplift, byddai'r rolau cefnogi hefyd yn gallu cael ei ystyried ar gyfer cyllid.




4.8 Nid oes cynlluniau i adolygu Fformiwla Ddyrannu'r Heddlu tan ar ôl yr Adolygiad o Wariant, ond gallai hyn newid a bydd angen ei adolygu ar ryw bwynt. Bydd hyn yn cael ei gadw dan adolygiad gan y gallai'r effaith ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru fod yn sylweddol.

## 5. Treth y Cyngor a'r Praesept

5.1 Mae dwy brif elfen i gyfanswm net Cyllideb yr Heddlu, sef cyfanswm Grantiau'r Heddlu a'r Praesept. Mae cynnig y gyllideb yn cynnwys cynnydd o 5.14% yn Nhreth y Cyngor, neu £14.94 ar Dreth y Cyngor Band D. Mae'r Sylfaen Drethi ar gyfer Gogledd Cymru gyfan wedi codi 0.37%, sy'n golygu cynnydd cyffredinol o 5.53% yn y Praesept a chyfanswm cyllideb net o £173.365 miliwn i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd – gweler isod:

| | 2021-22 | |
|---|---|---|
| | | |
| | £m | % |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyfanswm Grantiau'r Llywodraeth** | 83.677 | 48.73% |
| **Cyfanswm Praesept** | 89.688 | 51.73% |
| **Cyfanswm Gofyniad Cyllidebol** | 173.365 | |

5.2 Cyfrifir Treth y Cyngor drwy rannu cyfanswm y gofyniad praesept gyda'r sylfaen drethi - y sylfaen drethu yw nifer yr eiddo cyfwerth â Band D sydd ym mhob un o ardaloedd yr Heddlu. Darperir y Sylfaen Drethu gan chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru. Mae'r sylfaen drethu ar gyfer 2021-22 wedi codi rhywfaint, o 0.37%. Mae hyn yn golygu y gellir cyflawni'r cynnydd canrannol yn y praesept gyda chynnydd canrannol is yn Nhreth y Cyngor. Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn aelwydydd yng Ngogledd Cymru.

5.3 Mae'r rheolau ar gyfer cyfyngu ar y cynnydd yn Nhreth y Cyngor, a elwir yn 'reolau capio', yn wahanol ar gyfer Cymru a Lloegr. Yn ychwanegol, mae grantiau ar wahân wedi parhau i fod ar gael i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd yn Lloegr os oeddent yn cytuno i gyfyngu ar gynnydd yn Nhreth y Cyngor yn y blynyddoedd diwethaf. Roedd y grantiau hyn yn arfer cael eu talu gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol ond fe gawsant eu cynnwys yn Grant y Swyddfa Gartref a byddant yn gyfanswm o £507m yn 2021-22. Treth y Cyngor yng Ngogledd Cymru yw'r uchaf yng Nghymru a Lloegr ond pe ystyrid y Grantiau Treth y Cyngor etifeddol hyn, byddai Gogledd Cymru yn y 6ed safle uchaf, os fydd yr Heddlu yn cynyddu eu Treth y Cyngor o £15 yn 2021-22.

5.4 Nid oes unrhyw reolau capio na chynnydd tybiedig wedi cael eu cyhoeddi yng Nghymru; mae hyn yn unol â'r blynyddoedd diwethaf.

## 6. Cyllideb 2021-22 a Chyllideb Gynlluniedig 2022-23 i 2025-26

6.1 Mae manylion y Gyllideb a'r newidiadau ar gyfer 2021-22 a'r blynyddoedd i ddod i'w gweld yn Atodiad B.

6.2 Dyma'r prif ragdybiaethau:

- Chwyddiant cyflog blynyddol 2.5% wedi'i roi o fis Medi 2020 i Awst 2021, 0% o gynnydd o fis Medi 2021 a 2.5% o gynnydd o fis Medi 2022 ymlaen.
- Chwyddiant cyffredinol o 2%, chwyddiant penodol lle bo'n hysbys
- Cynnydd yn Nhreth y Cyngor o 5.14% yn 2021-22 (£14.94) a £12 y flwyddyn yn y blynyddoedd dilynol sydd gyfystyr â 3.93% yn 2022-23, 3.78% yn 2023-24, 3.64% yn 2024-25 a 3.51% yn 2025-26

- Cynnydd mewn Grantiau Llywodraeth Cyffredinol o 0% yn 2021-22, a setliad cyson o gynnydd grant 0% ar gyfer y blynyddoedd dilynol

- Cynyddodd y Grant Sylfaen o £10.443m o 2020-21 wedi'i glustnodi tuag at gostau Ymgyrch Uplift presennol ac yn y dyfodol, dim cyllid Uplift pellach wedi'i gynnwys. Rhagdyb o gyfanswm o 186 o Swyddogion ychwanegol erbyn Mawrth 2024.

- Cynnydd o 0.25% yn y sylfaen drethu o 2021-22 ymlaen

- Cost blynyddol o £1.329m wedi'i gynnwys ar gyfer Rhwydwaith Gwasanaeth Brys (ESN) o 2023-24 gyda cronfa wrth gefn wedi'i adeiladu yn y blynyddoedd blaenorol (gan leihau'r gost blynyddol o £1.8m i £1.329m, gostyngiad o £0.471m). Y bwlch cyllido ar gyfer ESN fydd £0.579m gan fydd £0.750m wedi'i gynnwys yn y gyllideb o 2021-22.

- Cyfraniadau i'r Gronfa wrth Gefn Cyffredinol er mwyn sicrhau nad yw'r balans yn disgyn yn is na'r isafswm o 3% o werth Cyllideb Net.

Mae hyn yn rhoi sefyllfa gyffredinol fel a ganlyn:

| | **Blynyddol** | **Blynyddol** | **Blynyddol** | **Blynyddol** | **Blynyddol** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyllideb** | **Cyllideb** | **Cyllideb** | **Cyllideb** | **Cyllideb** |
| | **2021-22** | **2022-23** | **2023-24** | **2024-25** | **2024-25** |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwaelodlin | 163,705 | 173,365 | 177,120 | 180,894 | 184,686 |
| Chwyddiant | 2,893 | 1,017 | 4,583 | 4,806 | 5,058 |
| Strwythurol sefydlog | 1,315 | | | | |
| Uplift | 4,962 | 2,738 | 0 | 0 | 0 |
| Arbedion Effeithlonrwydd | -2,902 | | | | |
| Twf | 2,642 | | | | |
| ESN | 750 | 0 | 579 | 0 | 0 |
| **Gofyniad Cyllidebol** | **173,365** | **177,120** | **182,282** | **185,700** | **189,744** |
| Cyfanswm grant | -83,677 | -83,677 | -83,677 | -83,677 | -83,677 |
| Praesept o Dreth y Cyngor | -89,688 | -93,443 | -97,217 | -101,009 | -104,819 |
| **Cyfanswm** | **-173,365** | **-177,120** | **-180,894** | **-184,686** | **-188,496** |
| **Balans Blynyddol** | **0** | **0** | **1,388** | **1,014** | **1,248** |
| **Balans cronnus** | 0 | 0 | 1,388 | 2,402 | 3,650 |
| **% y cynnydd yn Nhreth y Cyngor** | 5.14% | 3.93% | 3.78% | 3.64% | 3.51% |
| **Cynnydd mewn £** | 14.94 | 12.00 | 12.00 | 12.00 | 12.00 |

6.3 Roedd y gylchred cynllunio yn canolbwyntio ar alinio adnoddau i flaenoriaethau wrth osod cyllideb cytbwys a darparu gwerth am arian i dalwyr treth lleol dros y tymor canolig fel y nodwyd yn y Strategaeth Ariannol. Yn seiliedig ar y rhagdybiaethau a nodwyd, yr allbynnau a'r materion penodol a ddeliwyd â nhw fel rhan o'r gylchred oedd

- Chwyddiant a chynyddiadau anochel 2021-22 a rhagdybiaethau'r dyfodol
- Dyraniad o 62 o Swyddogion Uplift ar gyfer 2021-22 ac amcangyfrif o gostau yn y dyfodol
- Arbedion ac effeithlonrwydd ar gael yn 2021-22
- Meysydd blaenoriaeth sydd angen buddsoddiad yn 2021-22
- Cyllido ESN
- Amcangyfrif cyllid a chostau yn y dyfodol
- Amcangyfrif Gofynion Cyfalaf yn y dyfodol
- Amcangyfrif a gwneud y defnydd gorau o gronfeydd wrth gefn i gefnogi'r CATC

6.4 Y ffigwr chwyddiant rhagdybiedig blaenorol oedd £4.731m yn seiliedig ar ddyfarniad cyflog o 2.5% am flwyddyn llawn a chwyddiant cyffredinol o 2% a chynyddiadau eraill wedi'u targedu lle bo angen. Yn dilyn cyhoeddiad o rewi cyflogau o Fedi 2021, cafodd y ffigyrau chwyddiant eu diwygio i £2.893m, cynnydd cyffredinol o 1.77%. Mae chwyddiant cyflog o 2.5% ar gyfer Ebrill 2021 i Awst 2021 wedi cael ei gynnwys gan fod hyn yn barhad o'r dyfarniad cyflog a nodwyd ym Medi 2020. Yn ogystal â hynny, mae costau strwythurol anochel wedi cael eu cynnwys. Mae ffigwr o £0.5m wedi cael ei gynnwys yn dilyn cynnydd yn nifer oedd y Swyddogion Heddlu presennol yn ymuno â'r cynllun pensiwn. Mae cynnydd o £0.745m wedi cael ei gynnwys ar gyfer cynnydd mewn costau cydweithio cenedlaethol a rhanbarthol. Mae £0.070m pellach yn ymwneud â newidiadau mewn amodau gwasanaeth. Mae manylion pellach wedi eu cynnwys yn y CATC.

| Costau Strwythurol Sefydlog | £'000 | Eglurhad |
|---|---|---|
| Cofrestru Pensiynau Awtomatig | 500 | Cofrestru Swyddogion yn awtomatig i'r cynllun pensiwn a lle bo angen, gallent dynnu allan os nad ydynt eisiau bod yn rhan o'r cynllun pensiwn. Mae cyfanswm o tua 30 o swyddogion wedi aros yn y cynllun pensiwn gan gynyddu'r gost o £500,000 |
| Ffioedd TG Cenedlaethol 20/21 | 150 | Uwchben cynyddiadau chwyddiant yn 20/21 a ymddangosodd ar ôl gosod y gyllideb ac felly wedi ei adeiladu i gyllideb 21/22 |
| Ffioedd TG Cenedlaethol 21/22 | 146 | Cynghorwyd cynllunio ar gyfer chwyddiant o 9.6% ar Systemau TG Cenedlaethol yn ogystal â chyfraniad i'r Ganolfan Seiber Cenedlaethol Newydd. |

| | | |
|---|---|---|
| Cydweithrediadau Cenedlaethol (FCIN, FCN ac ati) | 156 | Cyfrannu'n bennaf i Rwydwaith Galluogrwydd Fforensig a Rhwydwaith Ymchwilio Gwrthdrawiadau Fforensig |
| Cydweithrediadau Gogledd-Orllewin Lloegr | 185 | Cyfuniad o'r Gynghrair Arfog/Cŵn, Cydweithrediad Arfordir y Gorllewin, SPOC Telathrebu 24/7 gyda Swydd Gaer, Cronicl Gogledd Orllewin |
| Cydweithrediad Cymru Gyfan | 56 | Ffederasiwn Rhanbarthol a Thîm Busnes Fel Arfer Recriwtio Cymru Gyfan |
| Ffioedd Data Cyfathrebu | 52 | Y Swyddfa Gartref – Costau Tanysgrifiad Data Cyfathrebu Newydd am £52, 000 y flwyddyn |
| Newidiadau i Dâl ac Amodau Gwasanaeth Pensiwn Anaf | 70 | Lwfansau ar alwad ar gyfer Uwch-arolygyddion a thaliadau anaf ychwanegol yn dilyn dyfarniad llys |
| Cyfanswm | 1,315 | |

6.5 Yn seiliedig ar gyhoeddiadau sydd wedi'u gwneud hyd yn hyn, mae Heddlu Gogledd Cymru yn disgwyl cyfanswm dyraniad o 186 o Swyddogion ychwanegol trwy Ymgyrch Uplift. Cafodd 62 o rolau eu dyrannu yn 2020-21. Dyraniad y Swyddfa Gartref o 2021-22 oedd 58 yn ogystal â gofyniad i recriwtio 3 ychwanegol i gynyddu'r Uned Trosedd Trefnedig Rhanbarthol (ROCU). Er nad yw wedi'i gadarnhau, disgwylir y bydd 62 pellach yn cael ei ddyrannu yn 2022-23. Rhan fawr o'r gylchred cynllunio oedd cyfatebu'r 62 o Swyddogion ychwanegol disgwyliedig i fod ar gael yn 2021-22 i flaenoriaethau. Mae gan y cynllun recriwtio ddigon o le i recriwtio'r dyraniad gwreiddiol disgwyliedig o 62 ar gyfer 2021-22 a'r 3 ychwanegol ar gyfer ROCU, ac felly cytunwyd i ddyrannu 62 o swyddi Uplift 2021-22. Gall y cynllun recriwtio gael ei gyllido gan y cynnydd a ddarparwyd i gefnogi Ymgyrch Uplift. Gellir gwneud yr addasiad terfynol unwaith i niferoedd Uplift 2022-23 fod yn hysbys. Mae'r tabl isod yn crynhoi sut cafodd 62 o swyddi ychwanegol Ymgyrch Uplift eu dyrannu o fewn y sefydliad yn 2021-22.

| **Atal a Rhagweithio**<br>**Cyfanswm 43** | **Digidol a Rheoli'r Galw**<br>**Cyfanswm**<br>**14** | **Lles**<br><br>**Cyfanswm 5** |
|---|---|---|
| • Model Atal – 20 Swyddog<br><br>• Timoedd SOC a CL Rhagweithiol – 10 Swyddog<br><br>• Uned Drôn – 5 Swyddog | • Tîm Ymchwiliad Cyfryngau Digidol – 4 Swyddog<br><br>• Swyddog Twyll Seiber<br><br>• Swyddog Atal CSA / CSE | • Swyddog Datblygu'r Heddlu<br><br>• Swyddog Cynrychioli'r Gweithlu<br><br>• CI ar gyfer Amrywiaeth a |

| | | |
|---|---|---|
| • Swyddogion ymateb ar gyfer PEQF – 6 Swyddog<br><br>• Arolygydd Tîm rhyng-gipio<br><br>• Swyddog Gwybodaeth ANPR | • Swyddog Adnabod Dioddefwr IIOC<br><br>• Echdynnu Data Symudol DFU<br><br>• Swyddog Trawsnewid i wella rheoli galw – 6 swydd | Dinasyddion mewn Plismona<br><br>• Swyddog Cysylltu OPCC a POD<br><br>• Swyddog Staff |

6.6 Mae cyllid o £10.4m wedi cael ei ddarparu ar gyfer Ymgyrch Uplift fel twf yn 2020-21 a 2021-22. Bwriad y cyllid yw talu am gostau rheolaidd y Swyddogion ychwanegol, gan gynnwys gostau nad ydynt yn gysylltiedig â staff, yn ogystal ag unrhyw gostau isadeiledd gan gynnwys costau hyfforddi ychwanegol sydd eu hangen. Unwaith i'r costau yn y flwyddyn gael eu dyrannu bydd balans o £2.864m yn 2021-22 a gaiff ei ychwanegu at Gronfa wrth Gefn Uplift er mwyn cyllido costau Isadeiledd a Hyfforddi yn y blynyddoedd i ddod. Mae'n annhebygol iawn y bydd y dyraniad terfynol ac os fydd cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu ar gyfer 2022-23, yn cael ei gyhoeddi tan ganol mis Rhagfyr 2021. Os na fydd cyllid pellach yn cael ei ddarparu, mae'r cynnydd presennol yn ddigonol i gyllido'r Swyddogion a'r costau uniongyrchol nad yw'n ymwneud â chostau, ond nid unrhyw ofynion staff cefnogi.

6.7 Er mwyn cyllido twf sydd heb ei ddarparu neu sydd ei angen i gefnogi Swyddogion Ymgyrch Uplift, cafodd asesiad o arbedion posibl ei wneud gan yr Arweinwyr Gweithredol a Gwasanaeth, ac yna cafodd y rhain eu hasesu ar sail corfforaethol. Mae cyfanswm o £2.9m wedi cael ei ganfod a'i asesu i fod yn bosibl. O'r hyn mae £1.816m heb ymwneud â staff a £1.103m yn swyddi Swyddogion neu Staff. Mae crynodeb o'r arbedion effeithlonrwydd ymhob maes isod:

| **Categori** | **Arbedion a Ganfyddwyd** |
|---|---|
| | **£'000** |
| Gwasanaethau Plismona Lleol | 445 |
| Gwasanaethau Cymorth Gweithredol | 337 |
| Gwasanaethau Trosedd | 200 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 293 |
| Safonau proffesiynol | 18 |
| *Cyllid ac Adnoddau gan gynnwys Adolygiadau Canolog* | 1,361 |
| Cymysgedd Swyddogion | 266 |
| **Cyfanswm** | **2,920** |

6.8 Wrth ganfod yr arbedion effeithlonrwydd uchod, galluogodd i £2.642m gael ei ail-leoli a'i fuddsoddi i'r meysydd blaenoriaeth. Manylir ar y rhain isod gyda'r penawdau

strategol Atal a Rhagweithio (£0.621m), Digidol a Rheoli'r Galw (£1.825m) a Lles (£0.196m).

| Atal a Rhagweithio | £'000 | Eglurhad |
|---|---|---|
| Contractau Fforensig Allanol (Offer Profi Cyffuriau/Tocsicoleg) | 200.00 | Cynyddu ein gwariant ar offer ar gyfer profi cyffuriau ar ochr y ffordd. Mae costau contractau fforensig allanol wedi cynyddu. |
| SPOC/CS TELEATHREBU – 2 cyfwerth â llawn amser | 82.10 | 2 SPOC i ddelio â'r cynnydd yn y galw am ddata telathrebu ar gyfer ymchwiliadau. |
| Achos Busnes Atal | 67.35 | Cydlynwyr cymorth cynnar, Swyddog Gweinyddol Rheoli Troseddwyr, swydd Arolygydd Ysbyty ar ôl colli rhan o'r cyllid o BIPBC |
| Meddalwedd Cyfryngau Cymdeithasol | 50.00 | Parhau gyda thrwydded ar gyfer meddalwedd Hoot, a ddefnyddir i reoli ein cyfrifon cyfryngau cymdeithasol corfforaethol. |
| CWNSTABL ECHDYNNU DYFAIS SYMUDOL CS – 1 cyfwerth â llawn amser | 44.18 | Cwnstabl i ddelio â'r galw cynyddol a achosir gan atafaeliad o ddyfeisiau digidol a'u dadansoddi. |

| | | |
|---|---|---|
| TPAC – Atgyweirio Damweiniau | 40.00 | I dalu am gostau a ysgwyddir trwy gyflwyno TPAC a fydd yn debygol o arwain at ddifrod i gerbydau fflyd. |
| Cynnal a chadw ANPR | 39.00 | Mae Cynulliad Cymru wedi cyllido agwedd cyfalaf isadeiledd ANPR newydd gyda Heddlu Gogledd Cymru yn ysgwyddo costau refeniw mewn perthynas â chynnal a chadw'r contract. |
| Meddalwedd Ymgysylltu â'r Gymuned | 25.00 | Humber Talks |
| ARCHWILYDD ANPR CS – 0.5 Cyfwerth â llawn amser | 18.77 | Rôl rhan amser i sicrhau cydymffurfiad â safonau ANPR cenedlaethol. |
| Kinesense - adolygiadau cynnyrch CCTV | 15.00 | Rhoi ffilmiau CCTV mewn dilyniant ac amserlennu. Defnyddir yn bennaf i gefnogi digwyddiadau mawr a throsedd difrifol. |
| System CHIS | 12.80 | System electronig i weinyddu a chofnodi manylion CHIS. Ddim ar system achrededig ar hyn o bryd. |
| System Gwyliadwriaeth Safonol COTS (RIPA) | 11.20 | System electronig i weinyddu a chofnodi awdurdodau RIPA. Ddim ar system achrededig ar hyn o bryd. |
| System Monitro Troseddwyr E-ddiogel | 10.00 | Meddalwedd i osod ar ddyfeisiau digidol Troseddwyr Rhyw i fonitro gweithgareddau. |
| Achos Busnes Atal – meddalwedd trwyddedu | 6.00 | Meddalwedd i reoli manylion, amodau a thor-rheolau ar gyfer eiddo trwyddedig |
| Cyfanswm | 621.40 | |

| **Digidol a Rheoli'r Galw** | **£'000** | **Eglurhad** |
|---|---|---|
| Ap Symudol | 460.00 | Cymhwysiad rheng flaen i alluogi gwelededd gwell, gweithio hyblyg, lleihau amser a dreulir ar gofnodi data, gwybodaeth o safon uwch i'r rheng flaen. |
| Achos Busnes Dadansoddi | 236.29 | Meddalwedd i ddadansoddi data cyfathrebu a gedwir yn gudd fel rhan o ymchwiliadau SOC / Dadansoddi mewn FCC i wella perfformiad cyswllt cyhoeddus a chefnogi cyflwyniad ar-lein sengl. |
| Systemau MI - Meddalwedd | 150.00 | Cymorth datblygu a meddalwedd gwybodaeth busnes newydd i wella darpariaeth y wybodaeth i'r rheng flaen a gwella dealltwriaeth o'r galw ar yr heddlu. |
| Y Gronfa Arloesi gan gynnwys Awtomatiaeth | 150.00 | Annog arloesi, yn arbennig ym maes awtomatiaeth. |

| | | |
|---|---|---|
| Goblygiad Refeniw Gorchymyn a Rheoli | 150.00 | Cynyddu costau refeniw mewn perthynas ag uwchraddio neu amnewid system gorchymyn a rheoli (mae'r system bresennol ar ddiwedd ei oes). |
| Cynllun Digidol | 113.85 | Costau Storio Fideo a Wisgir ar y Corff / meddalwedd Awtomatiaeth ar gyfer cyflwyniadau fforensig digidol / Cymorth Rheoli Tystiolaeth Ddigidol NICE / costau ANPR mewn perthynas â symud i system newydd yn 2021. |
| Costau Offer Swyddogion | 101.00 | Costau ychwanegol ar gyfer offer gan gynnwys TGCh. |
| Llwyfan Digidol i Weld Fforensig | 79.39 | Galluogi swyddogion i weld cynnyrch yn ddigidol heb orfod teithio i Lanelwy. |
| Gwybodaeth ac Ymchwiliad Rhyngrwyd | 63.02 | Meddalwedd Ymchwiliad Cod Agored Cudd |
| Rheolwr Diogelwch TG | 59.77 | Sicrhau bod yr heddlu yn bodloni goblygiadau cyfreithiol mewn perthynas â diogelwch isadeiledd a data. |
| Un Cartref Ar-lein | 58.00 | Mae costau mewn perthynas â'r llwyfan wedi cynyddu. |
| PMO - SWYDDOG GWIREDDU BUDDION CORFFORAETHOL | 43.60 | Sicrhau ein bod yn darparu buddion a chael gwerth am arian o brosiectau newid. |
| POD SFF – SWYDDOG SYSTEMAU BUSNES CORFFORAETHOL | 42.36 | Rôl systemau technegol ar gyfer cyflwyno prosiectau TGCh mawr. |
| Cerbydau Trydan | 41.00 | Gweithio tuag at amnewid y fflyd gyda cherbydau trydan. |
| Systemau Pwrpasol i'r Gwasanaethau Trosedd | 39.38 | Meddalwedd i gysylltu data tŵr i ddata galwadau ar gyfer ymchwiliadau SOC / meddalwedd telematics ar gyfer ymchwiliadau gwrthdrawiadau ffordd / costau cynyddol wrth i ddata SPOC symud i'r Cwmwl yn genedlaethol. |
| Ailstrwythuro OSS FIM | 16.05 | Cynyddu niferoedd FIM i sicrhau cwmpas gwell a rhoi llai o bwysau ar staff. |
| SPU – Meddalwedd Esblygu Proses | 8.50 | Meddalwedd a ddefnyddir i ddadansoddi gofynion adnoddau – defnyddir i gefnogi OIP a holl adolygiadau adrannol yn y dyfodol. |
| PMO – SWYDDOGION CYMORTH PROSIECTAU CORFFORAETHOL | 6.10 | Cynyddu capasiti i reoli prosiectau newid yn arbennig digidol. |
| Hyfforddiant POD – 'Hydra in the Cloud' | 6.00 | Hyfforddiant 'Hydra in the Cloud' yn darparu hyfforddiant ymchwiliadol 2 a 3, gan leihau costau contractau allanol. Costau dechreuol o £60,000 eisoes wedi'i gyllido gan NWFR. |
| Dorset Intelligence Portal – Offeryn Briffio | 1.00 | Offeryn briffio'r rheng flaen a argymhellwyd fel arfer da yn genedlaethol. |
| Cyfanswm | 1825.31 | |

| Lles | £'000 | Eglurhad |
|---|---|---|
| Ailstrwythuro Uned Iechyd Galwedigaethol (OHU)/ Cyllidebau Meddygol | 94.36 | Ailstrwythuro'r ddarpariaeth OHU i alinio gyda lles ac AD a sicrhau gwasanaeth gwell i swyddogion a staff. |

| | | |
|---|---|---|
| Cyllideb Lles | 30.00 | Adnodd parhaol i gefnogi gweithgareddau lles rhagweithiol |
| AD POD – Rhaglenni Datblygu Merched a BAME fel Uwch Arweinwyr | 30.00 | Cyllideb i gyflymu ymdrechion mewn perthynas â chynrychiolaeth gyfartal o staff benywaidd a BAME ar lefel uwch arweinwyr. |
| Gweinyddwr Iechyd a Diogelwch | 27.15 | Adnodd parhaol i sicrhau bod cydymffurfiad iechyd a diogelwch yn cael ei olrhain a'i archwilio yn briodol. |
| AD POD – Hysbysebu staff yn gysylltiedig â Chynrychiolaeth y Gweithlu | 13.99 | Cyllideb i gyflymu gwaith Cynrychiolaeth y Gweithlu gyda hysbysebu wedi'i dargedu. |
| Cyfanswm | 195.50 | |

6.11 ESN sy'n dod yn lle system cyfathrebu gwasanaeth brys Airwave presennol. Er fod hyn yn brosiect cenedlaethol nid oes unrhyw gyllid ychwanegol wedi ei ddarparu na'i gyhoeddi. Disgwylir i'r gost cyfalaf fod oddeutu £8m ar gyfer isadeiledd ac offer cyfathrebu. Nid yw manylion cysylltiad, costau unedau a'r niferoedd gofynnol (personol a cherbydau) wedi cael eu cadarnhau, ond ni ellir anwybyddu maint yr amcangyfrif gorau presennol. Bydd angen amnewid yr offer hefyd, a rhagdybir y bydd hyn ar gylchred 5 mlynedd. Oni bai y gwneir camau gweithredu cyllidebol rŵan i fynd i'r afael â hyn, yr unig ddewis ar ôl i gyllido hyn fyddai benthyca darbodus; yr amcangyfrif dechreuol yn seiliedig ar y swm llawn yn cael ei gyllido fel hyn yw cynnydd o £1.8m mewn refeniw i wasanaethu'r benthyca o 2023-24.

6.12 Rhaid i'r £1.8m gofynnol i gyllido'r ESN, ddod o doriadau i wasanaethau, neu treth y cyngor ychwanegol mewn un blwyddyn os na fydd unrhyw gamau gweithredu yn digwydd rŵan. Roedd setliad 2021-22 wedi galluogi i swm o £0.750m gael ei gynnwys yn y gyllideb tuag at gostau ESN; bydd hyn yn cael ei ddyrannu i gronfa wrth gefn ESN i ddechrau. Yn 2022-23, disgwylir i'r swm hwn, yn ogystal â £0.6m yn sgil rhewi cyflogau gael eu hychwanegu i'r cronfa wrth gefn. Bydd hyn yn golygu y bydd £2.1m o gronfa wrth gefn i gyllido'r ESN, gan leihau'r gofyniad benthyca i £5.9m, a'r gost refeniw i wasanaethu'r benthyciad i £1.329m (mae £0.750m eisoes wedi cael ei gynnwys yn y gyllideb). Bydd hyn yn gadael balans o £0.579m mewn perthynas â'r ESM fel rhan o'r gofyniad arbedion ar gyfer 2023-24, sy'n ffigwr haws ei drin na'r £1.8m. Bydd y ffigyrau hyn yn cael eu addasu a'u hadolygu yn flynyddol fel rhan o'r broses gosod y gyllideb dros y ddwy flynedd nesaf.

6.13 Yn seiliedig ar y rhagdybiaethau hyn mae hyn yn rhoi cyllideb cytbwys ar gyfer y ddwy flynedd nesaf, a diffyg o £1 miliwn i £1.4 miliwn y flwyddyn yn y 3 mlynedd dilynol (manylion yn y tabl isod), sy'n cynnwys gofynion ESN. Fodd bynnag, mae'r lefel o ansicrwydd o amgylch y rhagdybiaethau yn eithriadol. Nid yw'n glir ar hyn o bryd os yw'r Llywodraeth yn bwriadu ceisio cydbwyso'r gyllideb cenedlaethol a lleihau'r ddiffyg a grëwyd yn sgil pandemig COVID yn y tymor byr, tymor canolig neu'r hirdymor. Bydd hyn yn ei dro yn dylanwadu os fydd yr Adolygiad o Wariant nesaf (2022-23 i 2024-25) yn arwain at doriadau, twf neu sefyllfa cyson.

| | 2021-22 | 2022-23 | 2023-24 | 2024-25 | 2024-25 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Balans Blynyddol** | **0** | **0** | **1,388** | **1,014** | **1,248** |
| **Balans cronnus** | 0 | 0 | 1,388 | 2,402 | 3,650 |

## 7. Risgiau

7.1 Nid yw cyllid ar gyfer 2022-23 wedi'i gyhoeddi a gallai fod yn annigonol i ariannu'r Cynllun, gan gynnwys swyddogion ymgyrch Uplift. `Cafodd Adolygiad o Wariant arfaethedig y Llywodraeth am 3 blynedd o wariant cyhoeddus ei ohirio o flwyddyn, oherwydd pandemig COVID. Bydd yr adolygiad 3 blynedd nawr yn cael ei gynnal yn 2021 ac mae'n bosibl y gallai arwain at lai o gyllid.

7.2 Mae ansicrwydd effaith y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd a'r canlyniadau economaidd yn y pen draw yn creu rhagor o risg. Mae'r effeithiau uniongyrchol ar brisio ac unrhyw dollau posibl yn effeithio ar y gadwyn gyflenwi hefyd yn parhau i fod yn aneglur.

7.3 Un o'r risgiau mwyaf dros y blynyddoedd nesaf yw'r fformiwla ariannu oherwydd sensitifrwydd a diffyg gwybodaeth o ran y fformiwla newydd. Roedd y ffigurau a ddarparwyd gan y Swyddfa Gartref yn ystod adolygiad 2015-16 yn dangos bod dyraniad Gogledd Cymru yn cynyddu o 1.03% i 1.06% o'r cyfanswm. Roedd hyn gyfwerth â £2m o gyllid ychwanegol; roedd amcangyfrifon a ddarparwyd yn ddiweddarach gan Ddyfnaint a Chernyw yn dangos bod dyraniad Gogledd Cymru yn lleihau £14.5m, gan ddangos sensitifrwydd newidiadau o'r fath. Nid yw'r Swyddfa Gartref wedi cyhoeddi eu bwriad o ran adolygu'r fformiwla, dim ond eu bod yn bwriadu adolygu ar ryw adeg.

7.4 Mae risgiau cenedlaethol a lleol newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg, y mae angen adnoddau ar eu cyfer, fel Llinellau Sirol, Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a Seiberdroseddu, wedi cael sylw yn y gyllideb. Fodd bynnag, mae risgiau newydd yn datblygu'n barhaus ac mae'r cynnydd o ran nifer a chymhlethdod troseddau yn risg.

7.5 Mae datblygiadau cenedlaethol fel Ymgyrch Uplift a PEQF a nodwyd mewn adrannau cynharach yn creu risgiau ariannol a gweithredol. Bwriad y system newydd ar gyfer Cyfathrebu'r Heddlu (ESN) oedd sicrhau arbedion, ond nid yw'r rhain wedi digwydd. Mae'r gost amcangyfrifedig o weithredu'r ESN yn sylweddol ac mae camau wedi'u cymryd yn y cynllun i roi sylw i'r rhain, fodd bynnag, mae bwlch ac ansicrwydd o hyd o amgylch y costau terfynol. Mae cost ychwanegol darparu'r TG ddiweddaraf, p'un a yw'r rhain yn systemau cenedlaethol gorfodol ai peidio, a'r newid o ran model darparu o brynu i danysgrifio, yn risg ariannu ychwanegol.

7.6 Nid yw arbedion arfaethedig yn 2021-22 wedi'u gwireddu eto. Mae'r cynlluniau hyn yn aeddfed a disgwylir i'r arbedion hyn gael eu cyflawni. Mae cynlluniau y tu hwnt i

2022-23 yn cael eu datblygu. Bydd arbedion effeithlonrwydd yn dod yn anoddach i'w gwireddu gyda gofynion Ymgyrch Uplift, sy'n golygu bod rhaid cynnal niferoedd swyddogion.

7.7 Mae'r cyllidebau a amcangyfrifir sydd wedi'u nodi yn seiliedig ar gytuno ar y rhagdybiaethau cynllunio ar gyfer cynnydd yn Nhreth y Cyngor. Pe bai hyn yn cael ei ostwng, byddai pob gostyngiad o 1% yn golygu toriad ychwanegol o £0.896m mewn cyllidebau. Mae'r risg hon yn cael ei chynyddu oherwydd etholiadau Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ym Mai, gyda'r posibilrwydd y bydd Comisiynydd newydd yn cael ei ethol.

7.8 Mae'r Swyddfa Gartref wedi brigdorri'r symiau a gaiff eu dyrannu i ardaloedd yr Heddlu yn y blynyddoedd diweddar i ariannu unedau a mentrau cenedlaethol. Cynyddwyd brigdorri 27% dros gyfnod 2017-18 i 2021-22 i gyfanswm o £1,033m. Gallai unrhyw fentrau newydd arwain at ragor o frigdorri.

7.9 Gallai toriadau pellach ddigwydd os bydd yr hinsawdd economaidd yn gwaethygu. Mae pob toriad 1% ychwanegol i'r Cyllid Grant Cyffredinol yn ostyngiad arian parod o £0.896m.

7.10 Gan fod 80% o'r gyllideb net yn cael ei wario ar gyflogau, gall unrhyw newidiadau bach o ran cynnydd tâl, cyfraniadau pensiwn neu gyfraniadau Yswiriant Gwladol, Ardoll Brentisiaethau, neu unrhyw wariant arall sy'n gysylltiedig â thâl, gael effaith anghymesur ar y gyllideb. Mae pob cynnydd tâl 1% yn cael effaith blwyddyn gyfan o gynnydd £1.414m ychwanegol mewn costau. Os na chaiff grantiau eu cynyddu yn unol â chostau chwyddiannol, mae cost chwyddiant tâl naill ai yn dod ar dreth y cyngor neu mae'n rhaid ei ariannu gan doriadau. Mae'r risg na fydd chwyddiant yn cael ei gydnabod fel rhan o setliad y Llywodraeth yn sylweddol. Mae hyn wedi'i liniaru yn 2021-22 gyda chyhoeddiad y bydd cyflogau'n cael eu rhewi, ond bydd hyn yn arwain at bwysau am gynyddiadau uwch dros y blynyddoedd dilynol.

7.11 Gwelwyd cynnydd mewn costau cyfraniadau pensiwn gan gyflogwr yn 2019-20, a gafodd effaith sylweddol ar gyllidebau. Mae nifer o achosion gwahaniaethu wedi'u cymryd yn erbyn Pensiynau'r Heddlu a chynlluniau eraill, a'r un pennaf yw'r Achos McCloud, a fydd yn arwain at daliadau pensiwn ychwanegol i'r rhai sydd eisoes wedi ymddeol, yn cael eu hariannu'n ganolog, ond hefyd rhwymedigaeth gynyddol yn y dyfodol ar y cynlluniau pensiwn, a allai arwain at gynnydd mewn cyfraniadau cyflogwr. Bydd cynnydd 1% yng nghynllun Swyddogion yr Heddlu'n gynnydd o £0.611m a byddai cynnydd o 1% yng nghynllun Staff yn gynnydd o £0.379m. Y cynnydd yng Nghynllun Swyddogion yr Heddlu yn 2019-20 oedd 7%. Mae'r amcangyfrif ar effaith McCloud ar gyfraddau cyfrannu'n amrywio hyd at 10% ychwanegol o 2023-24. Mae trafodaethau'n parhau ynghylch a fydd y gost ychwanegol yn cael ei hariannu'n ganolog.

7.12 Mae'r CATC yn adlewyrchu cost hanesyddol Gwasanaethau Awyr Cenedlaethol yr Heddlu (NPAS). Fodd bynnag, mae'r model gweithredu wedi bod yn destun adolygiad ers peth amser, ac mae'r sefyllfa derfynol yn parhau i fod yn aneglur ar adeg cyhoeddi'r CATC. Y disgwyliad yw y bydd tirlun ariannol 2021-22 a thu hwnt yn dod

yn fwy eglur dros y misoedd i ddod, ond am y rheswm hwnnw, mae'n werth tynnu sylw at y risg o gostau cynyddol yn yr CATC.

7.13 Mae chwyddiant wedi bod yn isel yn y blynyddoedd diweddar ac mae rhagdybiaethau'r gyllideb yn adlewyrchu hyn, fodd bynnag gallai hyn newid yn enwedig mewn meysydd fel tanwydd ac ynni lle gall prisiau fod yn gyfnewidiol iawn.

7.14 Mae'r tabl isod yn amlygu sensitifrwydd y prif ragdybiaethau.

| Sensitifrwydd y Prif Newidynnau | £m |
|---|---|
| **Newid o 1% yn Nhreth y Cyngor** | 0.896 |
| **Newid o 1% yn y grant** | 0.837 |
| **Newid o 1% yn y cyflogau** | 1.414 |
| **Newid o 1% yng Nghyfraniadau Pensiwn y Cyflogwr** | 0.940 |
| **Newid o 1% mewn chwyddiant cyffredinol** | 0.477 |

**8. Cyfalaf**

8.1 Mae'r Rhaglen Gyfalaf a ddechreuodd yn 2013-14 wedi dod i ben. Erbyn diwedd 2019-20 bydd y canlynol wedi'i gyflawni:

- 4 cyfleuster newydd mawr yn: Llangefni, Llandudno a Wrecsam (2 adeilad)
- 20 cyfleuster wedi'i ailwampio ac adleoliadau
- Parhau â'r Rhaglen Disodli Cerbydau
- Uwchraddio rhwydweithiau, gweinyddwyr, byrddau gwaith, dyfeisiau symudol a newid systemau technoleg yr Ystafell Reoli.

8.2 Mae angen buddsoddiad parhaus mewn asedau ac isadeiledd y CHTh er mwyn sicrhau amgylchedd gwaith effeithlon a modern. Datblygwyd Strategaethau ar gyfer Ystadau, TG a Fflyd y llynedd a chytunwyd ar Raglen Gyfalaf newydd yn 2020-21. Mae gweithredu Ymgyrch Uplift; adolygu'r gofynion fel rhan o'r cylch cynllunio; a chynllun adfer COVID, wedi arwain at ddiwygiadau yn y Rhaglen arfaethedig. Mae COVID wedi arwain at rywfaint o ad-drefnu'r Rhaglen o ganlyniad i oedi. Mae prosiectau mawr fel uwchraddio'r System Gorchymyn a Rheoli a'r ESN hefyd wedi bod yn destun adolygiad. Dyma grynodeb o'r newidiadau ym mhob maes

- Rhaglen Ystadau Ddiwygiedig £17.3m – cynnydd o £0.427m o raglen eleni
- Rhaglen Fflyd Ddiwygiedig £8.2m – gostyngiad o £0.341m y flwyddyn o gyllid refeniw uniongyrchol
- Rhaglen TG Ddiwygiedig £21.1m
    - Gofynion mawr hysbys yn y dyfodol - Gorchymyn a Rheoli (£2.5m), ESN (£7.2m+£0.9m), Cyrchu TG (£1.0m)

- Disodli gliniaduron/2 mewn 1/Byrddau Desg (£2.9m), BWV (£1.0m), Life X (£1.1m), ayyb.


8.3 **Ystadau -** Bydd gwaith ailwampio Pwllheli yn gorffen yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Bydd adleoli'r Gweithdy Cerbydau, sy'n cael ei rentu ar hyn o bryd, yn dechrau'r flwyddyn nesaf, yn amodol ar Achos Busnes terfynol. Mae prosiectau eraill yn y camau datblygu a byddant yn cael eu hasesu yn unol â datblygiadau gweithio'n ystwyth a allai o bosibl leihau gofynion Ystadau – naill ai i gyflawni arbedion neu i ddarparu ar gyfer Ymgyrch Uplift a thwf arall.

8.4 **Fflyd –** Mae adolygiad manwl o ofynion Fflyd wedi'i wneud drwy ddefnyddio data gwybodaeth rheoli Telemateg, mae hyn wedi arwain at ostyngiad o £0.341m yn y gost flynyddol a amcangyfrifwyd yn flaenorol (yn cynnwys gofynion Uplift). Mae swm ychwanegol wedi'i gynnwys i dreialu cerbydau electronig fel rhan o'r rhaglen ddisodli arferol.

8.5 **TG a Chyfathrebu** – Mae angen buddsoddiad sylweddol mewn TG. Mae hwn yn cael ei gyfarwyddo gan y Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Digidol. Bydd rhoi dyfeisiau personol sy'n gallu cael mynediad i'r rhyngrwyd i swyddogion gweithredol a staff yn galluogi gweithio ystwyth – a symudwyd ymlaen yn sydyn â'r prosiect hwn o ganlyniad i COVID a bydd yn cael ei gwblhau erbyn diwedd 2020-21. Maes o law bydd pob dyfais yn gallu defnyddio'r Rhaglen Galluogi Genedlaethol o ran y feddalwedd ddiweddaraf sydd ar gael. Mae achosion busnes amlinellol wedi eu darparu ym mhob maes, mae'r achosion manwl a manteision busnes yn cael eu datblygu. Mae'r Rhaglen hefyd yn cynnwys newid y cyfarpar fideo a wisgir ar y corff. Mae uwchraddiad sylweddol yn y system Gorchymyn a Rheoli wedi'i gynnwys am £2.5m, rhoddwyd cyllid ar gyfer hwn yn ei le fel rhan o ddyraniad wrth gefn 2019-20. Mae ESN wedi'i gynnwys; fe fanylir ar y cynllun yn 6.11 i 6.12. Bydd angen adnewyddu'r prif gontract TG yn Ebrill 2022 ac mae'r costau uwchraddio cysylltiedig wedi'u cynnwys. Mae disodli cyfarpar TG wedi'i gynnwys ar gyfer blynyddoedd y dyfodol.

8.6 Heb gynnwys ESN, roedd y rhaglen yn fforddiadwy i raddau helaeth ac wedi'i hariannu yn defnyddio cyfuniad o grantiau, cronfeydd wrth gefn, cyfraniad refeniw uniongyrchol a benthyca. Y strategaeth gyffredinol yw lleihau benthyca a gwneud y mwyaf o'r symiau a gaiff eu hariannu'n llawn yn ystod y flwyddyn brynu drwy ddefnyddio cyfraniad refeniw uniongyrchol a derbyniadau cyfalaf sydd, yn eu tro, yn lleihau taliadau llog ac ad-daliadau cyfalaf yn y blynyddoedd dilynol. Byddai ariannu ESN heb ragor o fuddsoddiad yn arwain at oedi datblygiadau a disodliadau, a fyddai yn eu tro yn creu materion gweithredol ac ôl-groniad mewn buddsoddiad. Mae adrannau 6.11 i 6.12 yn egluro sut mae hyn yn cael sylw, gyda'r bwlch yn cael ei gynnwys yn y gofyniad arbed amcangyfrifedig o fewn y gyllideb refeniw. Gyda'r rhagdybiaeth y bydd y bwlch hwn, sydd wedi'i leihau o £1.8m y flwyddyn i £0.579m y flwyddyn gyda'r camau a gymerwyd yn y CATC hwn, yn gallu cael ei ariannu o arbedion, gan olygu bod

y Rhaglen yn fforddiadwy. Mae'r mater yn cael ei ddangos yn y graff isod, yn dangos y bydd blwyddyn 2022-23 ychydig yn uwch nag arfer o ganlyniad i gynhwysiant ESN.




8.7 Mae'r ffigyrau cyfalaf ar gael yn Atodiad C; bydd y cynllun manwl terfynol yn cael ei gymeradwyo'n ffurfiol gan y CHTh fel rhan o'r Strategaeth Gyfalaf, sy'n ofyniad statudol, sy'n cynnwys y Strategaeth Cod Darbodus a Rheoli'r Trysorlys cyn diwedd Mawrth 2021. Mae crynodeb o'r Rhaglen a'r cyllid yn cael eu rhoi isod.

## 8.8 Rhaglen Gyfalaf 2020-21 i 2025-26

| Disgrifiad | 2020-21<br>Amcangyfrif Diwygiedig<br>£000 | 2021-22<br>Amcan<br>£000 | 2022-23<br>Amcan<br>£000 | 2023-24<br>Amcan<br>£000 | 2024-25<br>Amcan<br>£000 | 2025-26<br>Amcan<br>£000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm Gwaith Adeiladu | 2,911 | 4,170 | 7,184 | 2,350 | 1,468 | 2,100 |
| Cyfanswm Cerbydau ac Offer eraill | 2,417 | 1,971 | 1,981 | 1,426 | 1,426 | 1,426 |
| Cyfanswm Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu | 3,163 | 6,733 | 8,604 | 1,263 | 3,154 | 1,394 |
| **Cyfanswm Gwariant Cyfalaf** | **8,491** | **12,874** | **17,769** | **5,039** | **6,048** | **4,920** |
| | | | | | | |
| Cyllid | | | | | | |
| Grant y Swyddfa Gartref | 123 | 123 | 123 | 123 | 123 | 123 |
| Cyfraniad Refeniw | 2,691 | 2,070 | 2,054 | 2,053 | 2,268 | 1,753 |
| Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd | 1,403 | 4,465 | 2,100 | 0 | 0 | 0 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 203 | 100 | 100 | 370 | 750 | 100 |
| Benthyca ar gyfer Ystadau | 2,445 | 4,070 | 7,084 | 2,250 | 718 | 2,000 |
| Benthyca ar gyfer rhaglen newid offer | 1,626 | 2,046 | 6,308 | 243 | 2,189 | 944 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **8,491** | **12,874** | **17,769** | **5,039** | **6,048** | **4,920** |
| Ffynonellau allanol | 123 | 123 | 123 | 123 | 123 | 123 |
| Adnoddau ein hunain | 4,297 | 6,635 | 4,254 | 2,423 | 3,018 | 1,853 |
| Dyled | 4,071 | 6,116 | 13,392 | 2,493 | 2,907 | 2,944 |
| **CYFANSWM** | **8,491** | **12,874** | **17,769** | **5,039** | **6,048** | **4,920** |

## 9. Cronfeydd wrth Gefn

9.1 Mae'n ddyletswydd ar y Comisiynydd i sicrhau bod ganddo gronfeydd wrth gefn digonol i reoli risgiau. Yn ogystal â'r risgiau ariannu a'r rhagolygon uchod, mae'n rhaid i'r Comisiynydd baratoi ar gyfer risg gwariant (gwario mwy na'r gyllideb), yn ogystal â digwyddiadau nad oes modd eu rhagweld, megis digwyddiadau mawr costus, trychinebau naturiol neu ddigwyddiadau eraill nad oes modd eu rhagweld. Mae elfen o'r risg yma wedi'i rheoli drwy'r cyllidebau yn ystod y flwyddyn drwy'r cyllidebau arian at raid. Fodd bynnag, mae'r cyllidebau arian at raid wedi'u lleihau ac mae cyfran uwch o'r risg honno wedi'i throsglwyddo i'r cronfeydd wrth gefn.

9.2 Adolygir y cronfeydd wrth gefn fel rhan o'r broses gyllidebol ac eto wrth gynhyrchu Datganiad Cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, pan fydd y sefyllfa derfynol yn hysbys.

9.3 Y bwriad yw lleihau'r cronfeydd wrth gefn o £25.218m i £16.039m dros y 10 mlynedd nesaf. Mae disgrifiad o bob cronfa wrth gefn wedi'i roi ym mharagraff 9.6.

9.4 Mae'n cael ei ystyried yn ddoeth cynnal Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol o rhwng 3% a 5% o wariant refeniw net (NRE). Gan fod y rhain yn gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi i liniaru risg, mae'r Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol wedi'i chynnal fymryn uwchben 3%. Fodd bynnag, wrth i'r NRE gynyddu, mae'n hanfodol cynnwys y Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol i gynnal balans o 3%, mae hyn wedi'i gynnwys yng nghynlluniau'r dyfodol ac wedi'i adlewyrchu yn y crynodeb isod.

| **Sefyllfa Cronfeydd wrth Gefn**<br>***Cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio*** | **Balans 31.3.20 Balans £m** | **Balans 31.3.21 Balans £m** | **Balans 31.3.22 Balans £m** | **Balans 31.3.23 Balans £m** | **Balans 31.3.24 Balans £m** | **Balans 31.3.25 Balans £m** | **Balans 31.3.26 Balans £m** | **Balans 31.3.27 Balans £m** | **Balans 31.3.28 Balans £m** | **Balans 31.3.29 Balans £m** | **Balans 31.3.30 Balans £m** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Balans y Gronfa Gyffredinol | 5.189 | 5.427 | 5.427 | 5.541 | 5.655 | 5.769 | 5.883 | 6.001 | 6.121 | 6.243 | 6.365 |
| Cronfa Gyffredinol wedi'i Chlustnodi | 19.975 | 20.099 | 16.672 | 13.074 | 9.982 | 9.279 | 8.581 | 8.006 | 7.502 | 6.959 | 6.959 |
| Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf | 0.054 | 2.151 | 2.911 | 2.961 | 3.091 | 2.716 | 2.716 | 2.716 | 2.716 | 2.716 | 2.716 |
| Cyfanswm y Cronfeydd wrth Gefn y gellir eu defnyddio | **25.218** | **27.677** | **25.009** | **21.575** | **18.727** | **17.763** | **17.179** | **16.722** | **16.338** | **15.917** | **16.039** |
| | | | | | | | | | | | |

9.5 Bydd defnyddio'r cronfeydd wrth gefn yn dibynnu ar y penderfyniadau terfynol ar wariant cyfalaf a'r sefyllfa refeniw derfynol yn 2020-21, felly mae'r tabl isod yn dangos yr amcangyfrif presennol o sut y gellir defnyddio'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd orau, i gefnogi gwasanaethau a lleihau'r pwysau ar y gyllideb refeniw. Os nad yw'r defnydd o'r gronfa wrth gefn yn hysbys (megis cronfa wrth gefn digwyddiadau mawr)

ni ddangosir unrhyw newid. Mae manylion y sefyllfa a ragwelir mewn perthynas â chronfeydd wrth gefn ar ddiwedd bob blwyddyn wedi'u nodi yn y tabl, ac mae disgrifiad o bob cronfa wrth gefn a'i phwrpas yn y tabl isod.

| Disgrifiad | 31.3.20<br>£m | 31.3.21<br>£m | 31.3.22<br>£m | 31.3.23<br>£m | 31.3.24<br>£m | 31.3.25<br>£m | 31.3.26<br>£m | 31.3.27<br>£m | 31.3.28<br>£m | 31.3.29<br>£m | 31.3.30<br>£m |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Buddsoddiad Cyfalaf** | 3.001 | 2.740 | 0.840 | 0.090 | 0.090 | 0.090 | 0.090 | 0.090 | 0.090 | 0.090 | 0.090 |
| **Digwyddiad mawr** | 2.435 | 2.211 | 2.211 | 2.211 | 2.211 | 2.211 | 2.211 | 2.211 | 2.211 | 2.211 | 2.211 |
| **Cronfa Bensiwn Salwch wrth Gefn** | 1.115 | 0.690 | 0.690 | 0.690 | 0.690 | 0.690 | 0.690 | 0.690 | 0.690 | 0.690 | 0.690 |
| **Cronfa Wrth Gefn Yswiriant** | 1.173 | 1.173 | 1.173 | 1.173 | 1.173 | 1.173 | 1.173 | 1.173 | 1.173 | 1.173 | 1.173 |
| **Cronfa Wrth Gefn Hyfforddiant** | 0.100 | 0.600 | 0.350 | 0.100 | 0.100 | 0.100 | 0.100 | 0.100 | 0.100 | 0.100 | 0.100 |
| **Cronfa Wrth Gefn PFI** | 3.177 | 3.106 | 2.918 | 2.678 | 2.385 | 2.040 | 1.642 | 1.192 | 0.688 | 0.145 | 0.145 |
| **Cronfa Wrth Gefn Uplift** | 0.000 | 1.577 | 4.441 | 2.441 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 |
| **Cronfa Wrth Gefn Tanwydd** | 0.000 | 0.200 | 0.200 | 0.200 | 0.200 | 0.200 | 0.200 | 0.200 | 0.200 | 0.200 | 0.200 |
| **Diogelwch a Chynnal a Chadw Ystadau** | 2.279 | 1.625 | 1.325 | 1.025 | 0.725 | 0.425 | 0.125 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 |
| **Rheoli Newid** | 5.291 | 4.824 | 1.171 | 1.113 | 1.055 | 0.997 | 0.997 | 0.997 | 0.997 | 0.997 | 0.997 |
| **Cronfa wrth Gefn Partneriaethau** | 0.675 | 0.624 | 0.624 | 0.624 | 0.624 | 0.624 | 0.624 | 0.624 | 0.624 | 0.624 | 0.624 |
| **Cronfa Diogelwch Cymunedol y Comisiynydd** | 0.549 | 0.549 | 0.549 | 0.549 | 0.549 | 0.549 | 0.549 | 0.549 | 0.549 | 0.549 | 0.549 |
| **Cronfa Wrth Gefn Gyfreithiol Swyddfa'r Comisiynydd** | 0.056 | 0.056 | 0.056 | 0.056 | 0.056 | 0.056 | 0.056 | 0.056 | 0.056 | 0.056 | 0.056 |
| **Cyllideb Gyfranogi Swyddfa'r Comisiynydd** | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 |
| **Cronfa wrth Gefn Swyddfa'r Comisiynydd** | 0.124 | 0.124 | 0.124 | 0.124 | 0.124 | 0.124 | 0.124 | 0.124 | 0.124 | 0.124 | 0.124 |
| **Cyfanswm** | **19.975** | **20.099** | **16.672** | **13.074** | **9.982** | **9.279** | **8.581** | **8.006** | **7.502** | **6.959** | **6.959** |

### 9.7 Crynodeb o Gronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd

**Cronfa Buddsoddiad Cyfalaf (Cyfalaf) –** I'w defnyddio i fuddsoddi yn asedau ac isadeiledd yr Heddlu i wella gwasanaethau a lleihau gwariant refeniw. Bydd cyllid ychwanegol yn cael ei gyfrannu i'r gronfa wrth gefn hon, fel y nodir mewn adrannau blaenorol i ariannu ESN. Mae £2.1m o'r gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi i ariannu uwchraddiad y system Gorchymyn a Rheoli.

**Cronfa Digwyddiadau Mawr (Risg) –** I'w defnyddio pan fo digwyddiad Mawr yn gofyn am adnoddau ychwanegol i'r rheiny yn y gyllideb flynyddol. Mae'r gronfa hon wedi arwain at leihau'r gyllideb digwyddiadau mawr at raid. Mae £0.224m o'r gronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi i ariannu costau COVID ychwanegol yn 2020-21.

**Cronfa Bensiwn Salwch Wrth Gefn (Risg) –** Mae'n rhaid i'r Heddlu dalu swm untro sydd cyfwerth â dwywaith cyflog swyddog ar gyfer pob Ymddeoliad Ar Sail Salwch. Mae cadw'r Gronfa Wrth Gefn yn mynd i'r afael ag amrywioldeb o'r naill flwyddyn i'r llall o ran yr eitemau nifer isel, cost uchel hyn.

**Yswiriant (Risg) –** Mae hwn yn ymwneud â'r Municipal Mutual Insurance Limited scheme of Arrangement a allai arwain at daliad terfynol o oddeutu £0.432m; mae'r balans wedi'i glustnodi ar gyfer hawliadau sy'n dod i'r amlwg a hawliadau anhysbys yn y dyfodol, sydd wedi'u nodi gan y brocer yswiriant.

**Cronfa Wrth Gefn Hyfforddiant** – Mae'r gronfa wrth gefn newydd hon wedi'i sefydlu ddiwedd 2019-20 i reoli cyfnodau brig a thawel o fewn y gyllideb Hyfforddi. Mae pandemig COVID wedi arwain at oedi gyda hyfforddiant allanol, bydd y tanwariant hwn yn cael ei ychwanegu at y gronfa wrth gefn a'i ddefnyddio i ddal i fyny â'r gofynion hyfforddi diweddaraf lle bo'n bosibl.

**Cronfa Wrth Gefn PFI (Refeniw wedi'i glustnodi)** – Mae angen y gronfa hon gan fod y cyllid ar gyfer PFI gan y Llywodraeth yn lleihau pob blwyddyn; a bydd y gronfa yn lleihau yn ystod cyfnod y contract PFI.

**Cronfa Wrth Gefn Uplift –** Mae hon yn gronfa wrth gefn newydd o 2020-21. Mae'r Llywodraeth wedi darparu cyllid yn ystod y flwyddyn ar gyfer Ymgyrch Uplift, sydd hefyd yn bwriadu ariannu Gweithrediad a chostau isadeiledd dros y 2 i 3 blynedd nesaf.

**Cronfa Wrth Gefn Tanwydd** – mae hon yn gronfa wrth gefn newydd o 2021-22. Mae tanwydd wedi gostwng yn ystod 2020-21**,** mae'r gostyngiad hwn wedi'i adlewyrchu yn y cynlluniau o 2021-22 ymlaen, ond oherwydd cyfnewidioldeb cost tanwydd, mae swm o £0.2m wedi'i gadw o'r neilltu i reoli'r risg y bydd prisiau'n cynyddu'n sydyn.

**Diogelwch a Chynnal a Chadw Ystadau (Refeniw wedi'i Glustnodi)** – I ariannu gwaith cynnal a chadw wedi'i ôl-gronni a diogelwch ychwanegol nad yw wedi'i gynnwys yn y cyllidebau refeniw na chyfalaf.

**Rheoli Newid (Refeniw wedi'i Glustnodi) –** Buddsoddiad sydd ei angen i hwyluso newid a lleihau costau yn y tymor hir.

**Cronfa Wrth Gefn Partneriaethau (Refeniw wedi'i Glustnodi)** – Balansau a gedwir ar gyfer Partneriaethau penodol a fydd naill ai'n cael eu defnyddio neu eu cadw hyd nes bydd cyllid yn cael ei dynnu'n ôl ac yn arwain at gostau ychwanegol.

**Cronfa Diogelwch Cymunedol (Refeniw wedi'i Glustnodi)** – I ddarparu adnoddau ychwanegol i'r Gronfa Diogelwch Cymunedol.

**Cronfeydd Wrth Gefn Swyddfa'r Comisiynydd (Refeniw wedi'i Glustnodi)** – Cronfa wrth gefn y swyddfa, cronfa gyfreithiol a chyllideb gyfranogi.

9.6 Mae Cronfeydd Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf yn dal yr elw a geir am werthu asedau. Gellir ond defnyddio'r rhain i ariannu gwariant cyfalaf. Mae rhagamcaniadau'n cael eu gwneud ar faint o dderbynebau a ddisgwylir, ond nid yw'r rhain wedi'u hymrwymo hyd nes y derbynnir y cyllid.

9.6 Mae’r Gweinidog Plismona wedi cyhoeddi canllawiau newydd ar dryloywder cronfeydd wrth gefn yn ystod 2018-20. Mae’r tablau isod yn dangos y cronfeydd wrth gefn fel y cânt eu categoreiddio gan y canllawiau.

| | **31.3.20** | **31.3.21** | **31.3.22** | **31.3.23** | **31.3.24** | **31.3.25** | **31.3.26** | **31.3.27** | **31.3.28** | **31.3.29** | **31.3.30** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** | **£m** |
| Cronfeydd ar Ddiwedd y Flwyddyn | 25.164 | 25.526 | 22.099 | 18.615 | 15.637 | 15.048 | 14.464 | 14.007 | 13.623 | 13.202 | 13.324 |
| **Cronfeydd wrth gefn cyffredinol** | 5.189 | 5.427 | 5.427 | 5.541 | 5.655 | 5.769 | 5.883 | 6.001 | 6.121 | 6.243 | 6.365 |
| **Cronfeydd Refeniw Wrth Gefn a Glustnodwyd** | | | | | | | | | | | |
| a gedwir i ddiogelu yn erbyn risgiau cyllidebol | 5.003 | 5.054 | 4.804 | 4.554 | 4.554 | 4.554 | 4.554 | 4.554 | 4.554 | 4.554 | 4.554 |
| a gedwir i gefnogi’r gyllideb tymor canolig | 0.549 | 2.126 | 4.990 | 2.990 | 0.549 | 0.549 | 0.549 | 0.549 | 0.549 | 0.549 | 0.549 |
| a gedwir i hwyluso rhaglenni newid | 7.570 | 6.449 | 2.496 | 2.138 | 1.780 | 1.422 | 1.122 | 0.997 | 0.997 | 0.997 | 0.997 |
| a gedwir hyd nes bydd diffyg yn y dyfodol ar gontractau PFI | 3.177 | 3.106 | 2.918 | 2.678 | 2.385 | 2.040 | 1.642 | 1.192 | 0.688 | 0.145 | 0.145 |
| sydd wedi’u hymrwymo i raglenni cyfalaf mewn blynyddoedd i ddod | 3.001 | 2.740 | 0.840 | 0.090 | 0.090 | 0.090 | 0.090 | 0.090 | 0.090 | 0.090 | 0.090 |
| sy’n Gronfeydd Wrth Gefn eraill a Glustnodwyd | | | | | | | | | | | |
| sy’n Gronfeydd a gedwir ar ran sefydliadau eraill | 0.675 | 0.624 | 0.624 | 0.624 | 0.624 | 0.624 | 0.624 | 0.624 | 0.624 | 0.624 | 0.624 |
| **Cyfanswm y Cronfeydd Refeniw Wrth Gefn** | 25.164 | 25.526 | 22.099 | 18.615 | 15.637 | 15.048 | 14.464 | 14.007 | 13.623 | 13.202 | 13.324 |
| | | | | | | | | | | | |
| **Cronfeydd Cyfalaf Wrth Gefn** | | | | | | | | | | | |
| sy’n gronfa derbyniadau cyfalaf wrth gefn | 0.054 | 2.151 | 2.911 | 2.961 | 3.091 | 2.716 | 2.716 | 2.716 | 2.716 | 2.716 | 2.716 |
| | | | | | | | | | | | |
| **CYFANSWM y cronfeydd wrth gefn** | **25.218** | **27.677** | **25.009** | **21.575** | **18.727** | **17.763** | **17.179** | **16.722** | **16.338** | **15.917** | **16.039** |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm Cronfeydd Refeniw Wrth Gefn wedi’u dadansoddi fel a ganlyn: | | | | | | | | | | | |
| Cyllid ar gyfer prosiectau a rhaglenni dros gyfnod y CATC presennol | 11.795 | 11.939 | 8.950 | 5.842 | 3.043 | 2.685 | 2.385 | 2.260 | 2.260 | 2.260 | 2.260 |
| Cyllid ar gyfer prosiectau a rhaglenni y tu hwnt i’r CATC presennol | 8.180 | 8.160 | 7.722 | 7.232 | 6.939 | 6.594 | 6.196 | 5.746 | 5.242 | 4.699 | 4.699 |
| Arian At Raid Cyffredinol | 5.189 | 5.427 | 5.427 | 5.541 | 5.655 | 5.769 | 5.883 | 6.001 | 6.121 | 6.243 | 6.365 |
| **CYFANSWM y Cronfeydd Refeniw Wrth Gefn** | **25.164** | **25.526** | **22.099** | **18.615** | **15.637** | **15.048** | **14.464** | **14.007** | **13.623** | **13.202** | **13.324** |

## 10 Crynodeb

10.1 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn nodi cynlluniau'r Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl ar gyfer y cyllidebau refeniw a chyfalaf dros y 5 mlynedd nesaf, a'r defnydd o'r cronfeydd wrth gefn dros y 10 mlynedd nesaf.

10.2 Mae Ymgyrch Uplift wedi rhoi cyfleoedd ar gyfer twf, ond hefyd pwysau cost a chyfyngiadau arbedion effeithlonrwydd. Mae cynnydd o ran pwysau cost o chwyddiant a gofynion newydd wedi arwain at orfod gwneud penderfyniadau anodd yn ystod y cylch cynllunio hwn. Mae'r costau ychwanegol hyn yn dilyn cyfnod o ddeng mlynedd lle mae £35.4m o arbedion wedi'u cymryd o gyllidebau. Mae'r galw sy'n dod i'r amlwg ar adnoddau gweithredol hefyd yn ychwanegu at y pwysau ariannol.

10.3 Mae'r Comisiynydd wedi ystyried yr holl ddewisiadau sydd ar gael o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Cyflawnwyd gwaith helaeth gan y Broses Cynllunio Sefydliadol er mwyn nodi arbedion a symud adnoddau o fewn y sefydliad. Gwnaeth y broses gynllunio hefyd alluogi dyrannu 62 o swyddogion Ymgyrch Uplift mewn modd deallus, ar sail blaenoriaethau. Ni fyddai'n ddoeth gadael y broblem gyllido yn ymwneud â chyflwyniad gorfodol ESN tan y dyfodol. Byddai angen cynnydd yn Nhreth y Cyngor o 4.73% er mwyn talu costau chwyddiant yn seiliedig ar y setliad grant gwastad. Mae adnoddau ychwanegol wedi dod ar gael wrth i swyddogion ychwanegol gael eu cyhoeddi; fodd bynnag nid yw'n glir a fydd cost lawn y swyddogion ychwanegol, gan gynnwys cefnogaeth ac isadeiledd, yn cael ei hariannu. Gan ystyried yr holl ffactorau hyn, cynigir cynnydd o £14.94 (5.14%) yn nhreth y cyngor, sy'n cyfateb i gynnydd tybiedig y Swyddfa Gartref. Mae hwn yn gynnydd treth y cyngor/praesept doeth, o ystyried nad yw cyllid cyffredinol na dyraniad cam 3 Ymgyrch Uplift wedi'u cyhoeddi. Rhoddwyd ystyriaeth hefyd i lefel yr ansicrwydd dros gyllid y dyfodol o ganlyniad i Bandemig COVID, a chanlyniad economaidd gadael yr Undeb Ewropeaidd, sy'n anhysbys.

## Atodiad A

## Y Strategaeth Ariannol

**Amcanion Strategol Ariannol:**

- Blaenoriaethu adnoddau i alinio cynlluniau gwario gyda gweledigaeth Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ac amcanion strategol y Prif Gwnstabl fel a nodir yn y Cynllun Heddlu a Throsedd a Chynllun Cyflawni'r Heddlu
- Cynnal sefyllfa gyllidebol gytbwys a gosod cynllun ariannol tymor canolig sy'n cefnogi'r gwasanaeth drwy'r cyfnod
- Darparu gwerth am arian i drethdalwyr lleol
- Arfer uniondeb, bod yn ddarbodus a sicrhau rheoli ariannol cryf
- Darparu fframwaith cadarn i gynorthwyo â'r broses gwneud penderfyniadau
- Rheoli risg, gan gynnwys cynnal cronfeydd wrth gefn ar lefel addas wrth fynd i lefel gynaliadwy o ran dyled
- Adolygu cyllidebau'n barhaus i sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu at amcanion allweddol

Er mwyn cyflawni'r amcanion strategol, caiff gwaith cynllunio ei wneud yn y meysydd canlynol:

**Cynllunio Corfforaethol a Chynllunio Busnes**

- Integreiddio cynllunio gweithredol a chynllunio ariannol i sicrhau bod adnoddau'n cael eu cyfeirio i gefnogi'r blaenoriaethau a nodir yng Nghynllun yr Heddlu a Throsedd, a pharu adnoddau gydag amcanion corfforaethol
- Cynhyrchu cynllun ariannol ar gyfer y 3 i 5 mlynedd nesaf a fydd yn cynnwys prif brosiectau cyfalaf a refeniw'r CHTh a'r heddlu, a'r strategaethau TG ac Ystadau a darparu cyllid cynaliadwy dros y tymor byr a'r tymor canolig
- Cynhyrchu cyllideb refeniw a chyfalaf flynyddol fanwl sy'n cefnogi'r dull mwyaf effeithiol o ddefnyddio adnoddau

**Rheoli Risg – Cronfeydd Wrth Gefn a Darpariaethau**

- Cynnal cronfeydd wrth gefn a darpariaethau digonol i sicrhau bod y rhaglen polisi tymor canolig yn gynaliadwy a bod modd ei darparu
- Ceisio mantoli'r gyllideb refeniw dros y tymor canolig heb ddibynnu ar ddefnyddio'r Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol
- Cynnal y 3 lefel o gadernid i ddelio â digwyddiadau eithriadol drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a darpariaethau:

    1. Rheoli'r Gyllideb Flynyddol
    2. Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd gan gynnwys y Gronfa Wrth Gefn Digwyddiadau Mawr
    3. Cronfa Wrth Gefn Gyffredinol o 3% o wariant refeniw net

**Rheoli Risg – Fframwaith Rheoli Ariannol**

- Cynnal fframwaith rheoli ariannol; mae hyn yn allweddol i gynnal safonau effeithiol o ran gweinyddiaeth a stiwardiaeth ariannol. Caiff hyn ei gyflawni drwy'r canlynol:

  Cydymffurfio â:
  - Rheolau a Rheoliadau Statudol
  - Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol y Swyddfa Gartref
  - Cod Llywodraethu Corfforaethol
  - Cod Rheolaeth Ariannol CIPFA
  - Nodiadau Polisïau a Gweithdrefnau
  - Rheoliadau Ariannol ac Archebion Sefydlog
  - Strategaeth Gyfalaf gan gynnwys y Polisi Rheoli Trysorlys a chydymffurfio â'r Cod Darbodus
  - Codau Ymddygiad Proffesiynol

  A hefyd:
  - Gweithredu argymhellion Archwilio Mewnol ac Allanol
  - Rheoli Risg

- Cynnal a datblygu systemau ariannol digonol i gofnodi a rheoli adnoddau

- Alinio cyfrifoldeb ariannol ar y lefel weithredol gyda'r rheolaeth neu ddylanwad rheoli priodol

- Sicrhau bod gwybodaeth ariannol gywir, ddiweddar ac amserol ar gael i alluogi defnyddwyr i'w defnyddio'n effeithiol wrth wneud penderfyniadau.

**Atodiad B**

**Cyllideb Refeniw 2020-21 i 2025-26**

| Cyf | Disgrifiad<br>Cyllideb 2020-21 i 2025-26 | Cyllideb Flynyddol 2020-21 | +Cynnydd -' Gostyngiad 2021-22 | Cyllideb Flynyddol 2021-22 | Cyllideb Flynyddol 2022-23 | Cyllideb Flynyddol 2023-24 | Cyllideb Flynyddol 2024-25 | Cyllideb Flynyddol 2025-26 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Gwariant** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| 1.1 | Cyflog Swyddogion Heddlu | 85,463 | 4,891 | 90,354 | 94,479 | 97,534 | 100,090 | 102,571 |
| 2.1 | Cyflog Staff yr Heddlu | 41,988 | 226 | 42,214 | 42,800 | 43,912 | 45,052 | 46,220 |
| 2.2 | Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSO) | 6,126 | -21 | 6,105 | 6,226 | 6,350 | 6,477 | 6,607 |
| 3 | Goramser Swyddogion Heddlu | 2,207 | -16 | 2,191 | 2,246 | 2,302 | 2,359 | 2,418 |
| 4 | Goramser Staff yr Heddlu | 617 | -16 | 601 | 617 | 632 | 648 | 664 |
| 5 | Lwfansau | 1,297 | 7 | 1,304 | 1,300 | 1,297 | 1,295 | 1,293 |
| 6 | Hyfforddiant | 1,210 | 152 | 1,362 | 1,390 | 1,418 | 1,446 | 1,475 |
| 7 | Gweithwyr Eraill | 655 | 101 | 756 | 771 | 787 | 803 | 819 |
| 8 | Taliadau Pensiwn Uniongyrchol | 3,346 | -65 | 3,281 | 3,360 | 3,440 | 3,523 | 3,607 |
| 9 | Costau Ynni | 1,420 | 43 | 1,463 | 1,506 | 1,552 | 1,598 | 1,646 |
| 10 | Costau Rhedeg Adeiladau | 6,539 | 18 | 6,557 | 6,688 | 6,822 | 6,959 | 7,098 |
| 11 | Atgyweirio a Chynnal a Chadw Cerbydau | 606 | -24 | 582 | 594 | 606 | 618 | 630 |
| 12 | Costau Rhedeg Cerbydau | 1,944 | -103 | 1,841 | 1,890 | 1,940 | 1,992 | 2,045 |
| 13 | Lwfansau Car a Theithio | 540 | -81 | 459 | 469 | 478 | 487 | 497 |
| 14 | Uned Awyr | 589 | 113 | 702 | 719 | 737 | 755 | 773 |
| 15 | Offer | 1,094 | -26 | 1,068 | 1,089 | 1,111 | 1,133 | 1,155 |
| 16 | Dillad a Gwisgoedd | 589 | -59 | 530 | 541 | 551 | 562 | 574 |
| 17 | Argraffu a Nwyddau Swyddfa | 366 | -72 | 294 | 300 | 306 | 312 | 319 |
| 18 | TG a Chyfathrebu | 10,984 | 1,590 | 12,574 | 12,825 | 13,082 | 13,344 | 13,610 |
| 19 | Cynhaliaeth | 295 | -24 | 271 | 276 | 282 | 287 | 293 |
| 20 | Cyflenwadau a Gwasanaethau Eraill | 2,665 | -4 | 2,661 | 2,713 | 2,765 | 2,819 | 2,874 |
| 21 | Cydweithio a Phartneriaethau | 5,833 | 543 | 6,376 | 6,535 | 6,699 | 6,866 | 7,038 |
| 22 | Fforensig | 754 | 165 | 919 | 938 | 957 | 976 | 995 |
| 23 | Ffioedd Dyledion a Chyfraniad Cyfalaf | 4,630 | -276 | 4,354 | 4,384 | 5,593 | 5,547 | 5,775 |
| 24 | Cyllid Sefyllfaoedd Arbennig | 400 | 0 | 400 | 400 | 400 | 400 | 400 |
| 25 | Chwyddiant ac Arian at Raid | 1,977 | 1,437 | 3,414 | 652 | 652 | 652 | 652 |
| 26 | Cronfa Diogelwch Cymunedol | 2,850 | 57 | 2,907 | 2,965 | 3,025 | 3,085 | 3,147 |

| | | Cyllideb Flynyddol 2020-21 | +Cynnydd -' Gostyngiad 2021-22 | Cyllideb Flynyddol 2021-22 | Cyllideb Flynyddol 2022-23 | Cyllideb Flynyddol 2023-24 | Cyllideb Flynyddol 2024-25 | Cyllideb Flynyddol 2025-26 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Gwariant Gros** | **186,984** | **8,556** | **195,540** | **198,673** | **205,230** | **210,085** | **215,195** |
| | **Gwariant** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| | **Incwm** | | | | | | | |
| 27 | **Secondiadau** | -6,138 | -128 | -6,266 | -6,358 | -6,517 | -6,680 | -6,847 |
| 28 | **Llog ar Falansau** | -100 | 0 | -100 | -100 | -100 | -100 | -100 |
| 29 | **Incwm** | -2,563 | -41 | -2,604 | -2,604 | -2,604 | -2,604 | -2,604 |
| 30 | **Grantiau Penodol** | -14,407 | 640 | -13,767 | -13,714 | -13,662 | -13,609 | -13,556 |
| | **Cyfanswm Incwm** | **-23,208** | **471** | **-22,737** | **-22,776** | **-22,883** | **-22,993** | **-23,107** |
| 31 | **Cronfa Wrth Gefn PFI** | -71 | -117 | -188 | -241 | -293 | -346 | -398 |
| 32 | **Cronfa Wrth Gefn ESN** | 0 | 750 | 750 | 1,350 | 0 | 0 | 0 |
| 33 | **Cyfraniad at Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol** | 0 | 0 | 0 | 114 | 228 | 342 | 456 |
| | **Gwariant Net** | **163,705** | **9,660** | **173,365** | **177,120** | **182,282** | **187,088** | **192,146** |
| 34 | **Cyfanswm Grantiau** | -78,715 | -4,962 | -83,677 | -83,677 | -83,677 | -83,677 | -83,677 |
| 35 | **Praesept** | -84,990 | -4,698 | -89,688 | -93,443 | -97,217 | -101,009 | -104,819 |
| | **Cyllid** | **-163,705** | **-9,660** | **-173,365** | **-177,120** | **-180,894** | **-184,686** | **-188,496** |
| | Balans Blynyddol | 0 | | 0 | 0 | 1,388 | 1,014 | 1,248 |
| | **Balans Cronnus** | **0** | | **0** | **0** | **1,388** | **2,402** | **3,650** |

**Atodiad C**

**Rhaglen Gyfalaf Ddrafft 2020-21 i 2025-26**

| Disgrifiad | 2020-21 Amcangyfrif Diwygiedig | 2021-22 Amcan | 2022-23 Amcan | 2023-24 Amcan | 2024-25 Amcan | 2025-26 Amcan | Cyfanswm Costau Prosiect (yn cynnwys cyn 20-21) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Rhaglen Ystadau** | | | | | | | |
| Taliadau Cadw, Ymgynghoriaeth a QS | **25** | | | | | | **25** |
| Gwelliannau Cynaliadwyedd | **102** | 100 | 100 | 100 | 100 | 100 | **602** |
| **Amcangyfrif Ystadau 25-26 ymlaen** | | | | | | 2,000 | **2,000** |
| GH Pwllheli | **879** | | | | | | **980** |
| GH Caergybi | **0** | 750 | 2,593 | | | | **3,343** |
| Cyfadeilad Pencadlys yr Heddlu a Ffreutur | **257** | | | | | | **257** |
| Ardal Ystadau Caernarfon a Gogledd Gwynedd | **300** | 500 | | | | | **800** |
| Gweithdy Cerbydau / VCC | **1,000** | 1,870 | | | | | **2,870** |
| GH Dolgellau | | | | | 1,000 | | **1,000** |
| GH Abergele | | | 391 | | | | **391** |
| GH Llanrwst | | | | | 178 | | **178** |
| Canolbwynt Sir y Fflint | | 500 | 4,000 | 1,500 | | | **6,000** |
| Uwchraddio Ystafell Reoli'r Heddlu | | | 100 | | | | **100** |
| Storfa'r Archifdy | | | | 750 | | | **750** |
| GH Rhosllanerchrugog | | | | | 190 | | **190** |
| Adleoli / cydleoli / gwagio | **50** | 300 | | | | | **350** |
| TCC'r Ddalfa | **6** | | | | | | **75** |
| Gwaith Safle Drylliau Tanio | **292** | | | | | | **391** |
| CS – Achrediad ISO SARC | | 150 | | | | | **150** |
| **Cyfanswm Gwaith Adeiladu** | **2,911** | **4,170** | **7,184** | **2,350** | **1,468** | **2,100** | **20,452** |
| | | | | | | | |
| **Cerbydau ac Offer eraill** | | | | | | | |
| Rhaglen Disodli Prynu Cerbydau | **2,234** | 1,426 | 1,981 | 1,426 | 1,426 | 1,426 | **9,919** |
| Datblygiad Tranman | **0** | 75 | | | | | **75** |
| System Dexun (Canolfan Rheolaeth Strategol) | **22** | | | | | | 78 |
| Intoxilator x 3 | **30** | | | | | | 30 |
| Disodli ANPR | **0** | 470 | | | | | 470 |
| Offer Arolygu Gwrthdrawiadau | **131** | | | | | | 131 |
| **Cyfanswm Cerbydau ac Offer eraill** | **2,417** | **1,971** | **1,981** | **1,426** | **1,426** | **1,426** | **10,703** |

| Disgrifiad | 2020-21<br>Amcangyfrif<br>Diwygiedig | 2021-22<br>Amcan | 2022-23<br>Amcan | 2023-24<br>Amcan | 2024-25<br>Amcan | 2025-26<br>Amcan | Cyfanswm Costau Prosiect (yn cynnwys cyn 20-21) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Offer Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu** | | | | | | | |
| Disodli Cyfrifiaduron Pen Desg (Rhaglen Ddisodli) | **1,237** | 300 | 750 | 750 | 750 | 300 | **6,960** |
| Loceri ar gyfer gwefru a storio | **50** | 150 | | | | | **200** |
| Ap symudol | | 471 | | | | | 471 |
| Disodli Gweinydd | | 700 | | | | 700 | **2,072** |
| Gweinyddion Systemau Busnes (Rhaglen Ddisodli) | | 145 | | | | 150 | **457** |
| Dyfeisiau data symudol | **566** | | | | 460 | | **1,976** |
| Airwave (unedau i ddisodli) | **79** | | | | | | **533** |
| Disodli Gweinydd Uned Fforensig Ddigidol | | | | 270 | | | **562** |
| Ap Mobile Responder | **3** | 83 | | | | | **200** |
| Isadeiledd NEP/Sail Point/Dolenni Rhyngrwyd | **491** | | | | | | **1,180** |
| Meddalwedd Cysylltedd | **85** | | | | | | **85** |
| Wifi | **110** | 296 | | | | | **500** |
| Offer clyweledol digidol i’r gweithle | **26** | 100 | | | | | **200** |
| Un Hafan ar-lein (Cyswllt Digidol â’r Cyhoedd) | | 40 | | | | | **40** |
| Gwybodaeth ac Ymchwiliad Digidol | | 196 | | | | | **196** |
| DFU Automate | **15** | | | | | | **15** |
| Rheoli Tystiolaeth Ddigidol | **125** | | | | | | **125** |
| Teleffoni CISCO | **0** | 250 | | | | | **250** |
| Uwchraddio Cof Nexus | **13** | 37 | | | | | **50** |
| Copïau Cadw | **30** | | | | | | **157** |
| LAN | **20** | 60 | | | | | **80** |
| Systemau heb eu cefnogi (Cofrestr Risg) | **124** | | | | | | **124** |
| Uwchraddiad ICAD Cam 1 | **130** | | | | | | **172** |
| Uwchraddiad gorchymyn a rheoli – Cam 2 | | 2,458 | | | | | 2,458 |
| Fideo a wisgir ar y corff | **59** | | | | | | 592 |
| Diweddaru GIS | | | | | | | 70 |
| LPS – Diogelwch Cymunedol - Atal | | 30 | | | | | 30 |
| CS – System Gwyliadwriaeth Safonol COTS (RIPA) | | 80 | | | | | 80 |
| CS – System CHIS | | 88 | | | | | 88 |
| POD – Hyfforddiant Rhithwir 360 | | **53** | | | | | 53 |
| Digidol – BIU – Warws Data Gwybodaeth Rheoli | | **50** | | | | | 50 |
| Modiwl newydd CHORUS | | **35** | | | | | 35 |
| Strategaeth Cyrchu TGCh | | **250** | **750** | | | | 1,000 |
| Defnyddio Life-X | | | **300** | | **800** | | 1,100 |
| Rhwydwaith Gwasanaethau Brys | | **686** | **6,560** | | **900** | | 8,146 |
| Ailadeiladu Dyfais NEP | | **175** | | | | | 175 |
| Fideo a wisgir ar y corff (costau disodli) | | | **244** | **243** | **244** | **244** | 974 |
| **Cyfanswm Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu** | **3,163** | **6,733** | **8,604** | **1,263** | **3,154** | **1,394** | **31,456** |
| **Cyfanswm Gwariant Cyfalaf** | **8,491** | **12,874** | **17,769** | **5,039** | **6,048** | **4,920** | **62,611** |

POLICE AND CRIME PANEL

PANEL HEDDLU A THROSEDD



# PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

## RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL 2021/22



| | |
|---|---|
| Swyddog Cyswllt: | Dawn Hughes |
| | Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor a Chraffu<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Bodlondeb<br>Conwy<br>LL28 5NF |
| E-bost: | dawn.hughes@conwy.gov.uk |
| Rhif ffôn: | 01492 576061 |

| **Dyddiad** | **Testun** | **Swyddog Cyfrifol (gan gynnwys cyfeiriad e-bost)** |
|---|---|---|
| **Mehefin 2021** | **Diweddariad ar y Model Cwynion ar gyfer Cwynion yr Heddlu** | Stephen Hughes, Prif Weithredwr (Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| **Mehefin 2021** | **Diweddariad ar y Rhaglen Checkpoint** | Stephen Hughes, Prif Weithredwr (Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| **Mehefin 2021** | **Treuliau Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru 2020/11** | Richard Jarvis, Swyddog Arweiniol a Chynghorydd Cyfreithiol Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| **I'w Gadarnhau** | **Cyflwyniad gan Leaders Unlocked ar ddatblygu Comisiwn Ieuenctid** | Stephen Hughes, Prif Weithredwr (Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd |
| I'w **Gadarnhau** | **Y Wybodaeth Ddiweddaraf ar y Strategaeth Ystadau i Heddlu Gogledd Cymru** | Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Gogledd Cymru |
| **I'w Gadarnhau** | **Cyflwyniad gan Wasanaeth Ieuenctid Sir y Fflint ar y Dull Rheoli Achos Uwch** | James Warr, Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Sir y Fflint |

This page is intentionally left blank